

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Jonathan Cawley

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E-bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiad: Dydd Mercher 10 Medi 2025

Amser: 10.00 y.b.

Man Cyfarfod: Swyddfa'r Parc Cenedlaethol,
Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser
cychwyn dynodedig***

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Y Cyngorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths,

Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen,

Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,

Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones,

Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas.



R H A G L E N

Rhif
Tudalen

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**
2. **Diweddariad Corfforaethol**
Diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr
3. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**
Mae'r Awdurdod wedi clustnodi hyd at 20 munud ar ddechrau ei gyfarfod i roi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ofyn cwestiynau penodol sy'n ymwneud â gwaith yr Awdurdod (ag eithrio ceisiadau cynllunio) sy'n berthnasol i ddyletswyddau a phwrpasau'r Parc.
Rhaid cyflwyno'r cwestiynau'n ysgrifenedig (drwy'r post neu e-bost) i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chorfforaethol o leiaf 7 niwrnod cyn y cyfarfod.
4. **Datgan Diddordeb**
Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog.
5. **Cofnodion** 4 - 15
Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid arwyddo cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2025 fel rhai cywir. (Copi yma)
6. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**
7. **Taflen Weithredu** 16 - 17
Cyflwyno'r Daflen Weithredu, er gwybodaeth a phenderfyniad (Copi yma)
8. **Adroddiad Blynyddol 2024-25** 18 - 74
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma)
9. **Plas Tan y Bwlch – Diweddariad** 75 - 79
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma)
10. **Llythyr Grant Strategol Llywodraeth Cymru: Targedau a Mecanwaith Adrodd** 80 - 102
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr (Copi yma)
11. **Aelodaeth o'r Pwyllgor Safonau** 103 - 104
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma)
12. **Diweddariad ar y Gyllideb 2025/26** 105 - 112
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyllid. (Copi yma)

- | | | |
|-----|---|-----------|
| 13. | Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2025/26 – 2028/29
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) | 113 - 123 |
| 14. | Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn 2024/25
Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir. (Copi yma) | 124 - 126 |
| 15. | Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd – Cytundeb Cyflawni
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Polisi Cynllunio. (Copi yma) | 127 - 198 |
| 16. | Seminar Aelodau Cymru 2025
Cyflwyno adroddiad ar Seminar Aelodau Cymru gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer (Copi yma) | 199 – 207 |
| 17. | Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
Cyflwyno cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2025 er gwybodaeth. (Copi yma) | 208 - 214 |
| 18. | Adroddiad Gweithgor Aelodau
Cyflwyno adroddiad cyfarfodydd y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025. (Copi yma) | 215 - 216 |
| 19. | Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill
Derbyn adroddiadau llafar gan Aelodau am unrhyw gyfarfodydd sefydliadau eraill y buont ynddynt yn ddiweddar fel cynrychiolwyr yr Awdurdod. | |



COFNODION
CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDD MERCHER 11 MEHEFIN 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, Iwan Jones, Rhys Owen, Angela Jones, Bethan Hughes, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Nia Murray (Rhan 2 yn unig), Eifion Jones.

Hefyd yn Bresennol

Martin James Hughes (Aelod Annibynnol)

Cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro y byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ar y we, ac y byddai hefyd ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cadeirydd

Amlinellodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro'r weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar yr Awdurdod. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Edgar Wyn Owen.

*Etholwyd **Edgar Wyn Owen** yn Gadeirydd yr Awdurdod.*

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. Is-gadeirydd

Amlinellodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro'r weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd ar yr Awdurdod.

Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Ifor Glyn Lloyd.

Etholwyd Ifor Glyn Lloyd yn Is-gadeirydd ar yr Awdurdod.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Ymddiheurodd y Prif Weithredwr y byddai'n rhaid iddo adael y cyfarfod yn gynnar.

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai eitemau 21 a 22 ar y rhaglen yn cael eu cyflwyno ar ôl eitem 9 er mwyn galluogi'r Prif Weithredwr eu cyflwyno cyn gadael;

Croesawodd y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd i'r cyfarfod ar ôl llawdriniaeth ddiweddar;

Hysbysodd yr Aelodau o farwolaeth Mrs Sharon Warnes a fu'n gadeirydd ar Bwyllgor Safonau'r Awdurdod tan yn ddiweddar. Dywedodd fod yr Awdurdod wedi anfon carden gydymdeimlad at deulu Mrs Warnes. Soniwyd hefyd am farwolaeth cyn-aelod o staff y Parc, Keith O'Brien, a nodwyd ei fod yn golled fawr i'r ardal. Cafwyd cyfnod o dawelwch i'w hanrhydeddu.

Nododd mai hwn fyddai cyfarfod yr Awdurdod olaf Mr Brian Angell. Diolchodd iddo am ei gyfraniad enfawr a'i sylwadau gwerthfawr dros yr wyth mlynedd yr oedd wedi bod yn Aelod: fe fyddai'r Awdurdod yn gweld ei eisiau.

Diolchodd hefyd i Mr Martin J Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, a oedd yn ymddeol o'r Pwyllgor wedi naw mlynedd, am ei gyfraniad yntau i'r Pwyllgor Safonau.

Adroddodd ei fod ef a'r Prif Weithredwr wedi bod yng nghyfarfod *UK National Parks* yn y *Peak District* bythefnos yn flaenorol.

4. **Diweddariad Corfforaethol**

Cyflwynwyd diweddariad llafar gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- llongyfarchiadau'r PW i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd;
- cafwyd ymweliad gan swyddogion o Barc Cenedlaethol Triglav, Slofenia bythefnos ynghynt. Cawsant weld y Parc, ac roedd yr ymweliad o fudd i'r ddau barc;
- bod y gwaith ar Blas Tan y Bwlch yn symud ymlaen yn gadarnhaol:
 - bod nifer o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda rhan-ddeiliaid a phartneriaid, a bod yr adborth yn gadarnhaol iawn;
 - bod yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyflwyno'r Cais Cyfnod Datblygu wedi bod yn rhy uchelgeisiol, bod ymgynghorwyr allanol yn cael eu comisiynu i gynorthwyo gyda pharatoi'r cais, ac mai'r bwriad bellach oedd cyflwyno'r cais erbyn Chwefror 2026;
 - byddai'r PW yn cyflwyno adroddiad diweddarar ar Blas Tan y Bwlch i'r Aelodau yng nghyfarfod mis Medi;
- mai Beca Fflur Williams o Aberystwyth oedd wedi ennill Ysgoloriaeth Geraint George, sef ysgoloriaeth a oedd wedi ei sefydlu ar y cyd gan y Parc, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Urdd, er cof am Geraint George, i hybu a gwobrwyo cyfathrebwyr gwych y dyfodol yn y maes Amgylcheddol. Diolchodd i'r Is-gadeirydd, Ifor Glyn Lloyd, am gyflwyno'r wobwr iddi yn Eisteddfod yr Urdd ym Margam. Fe fyddai Beca'n ymweld â Pharc Cenedlaethol Triglav fel rhan o'i gwobr;

- byddai'n mynychu Sioe Ffermio'r Ucheldir a oedd yn cael ei chynnal yn Hafod y Llan y diwrnod canlynol;
- bu newid staff lefel cyfarwyddwyr yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Los Alerces yn ddiweddar a bod hwn wedi gorfodi oediad yn arwyddo'r cytundeb gefeillio, ond bod trafodaethau'n parhau ynghylch ail-drefnu'r arwyddo;
- diolchgarwch y PW i Brian Angell am ei gyfraniad a'i ymroddiad arbennig ar hyd ei flynyddoedd gyda'r Parc;
- bod Aelod newydd, sef Dr Salamat Fada o Brifysgol Bangor, yn dechrau gyda'r Awdurdod ym mis Gorffennaf;
- oherwydd bod nifer o Aelodau wedi dechrau gyda'r Awdurdod yn ddiweddar, ei fod yn bwriadu trefnu sesiwn anwytho i'r Aelodau hynny;
- ei fod wedi mynychu angladd y diweddar Keith O'Brien, a fu'n aelod o staff yr Awdurdod am nifer o flynyddoedd cyn ei ymddeoliad.

5. **Hawl i'r Cyhoedd Holi**

Ni dderbyniwyd cwestiwn gan y cyhoedd.

6. **Datgan Diddordeb**

Datganodd y Cyngorydd Nia Owen ddiddordeb oedd yn rhagfarnu yn eitemau 27 a 29, a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitemau yna.

7. **Aelodaeth o'r Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr ar aelodaeth gyfredol o'r Awdurdod, er gwybodaeth, a gofynnodd i'r Aelodau gadarnhau bod eu manylion yn gywir.

Nodwyd nad oedd yr Aelodau'n gyfforddus iawn i gyhoeddi eu cyfeiriadau cartref ar wefan yr Awdurdod, a chytunwyd i dynnu'r manylion o'r wefan.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

8. **Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

9. **Materion er gwybodaeth sy'n codi o'r cofnodion**

Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion.

Newidiwyd y drefn yn y rhaglen a gyhoeddwyd yma fel bod y PW yn gallu gadael.

(21). **Cynnig i ymestyn yr Amcanion Llesiant presennol i fis Ebrill 2027**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- mai'r bwriad oedd clymu'r Amcanion Llesiant â Chynllun Eryri;
- byddai oedi'r Amcanion yn caniatáu i'r Cyfarwyddwyr newydd gymryd perchnogaeth o'r Amcanion Llesiant.

Argymhellwyd: –

- (i) Ymestyn yr Amcanion Llesiant presennol ar gyfer 2021-2026 am 12 mis hyd at fis Ebrill 2027;
- (ii) Dechrau adolygu'r Amcanion Llesiant unwaith y bydd Cynllun Eryri wedi'i fabwysiadu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn 2026, gyda'r bwriad o'u mabwysiadu ym mis Ebrill 2027;
- (iii) Amserlen a methodoleg fanylach ar gyfer paratoi'r Amcanion Llesiant i'w cyflwyno i'r Aelodau ddechrau 2026.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

(22). **Cynhadledd EUOPARC 2025**

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr

Adroddwyd:

- bod y gynhadledd yn cael ei chynnal yn Lithwania eleni;
- mai teitl y Gynhadledd fyddai, "Natur i bobl, Pobl i Natur".

Argymhellwyd: –

- (i) i'r Aelodau benderfynu a ddylai APCE gael ei gynrychioli yng Nghynhadledd EUOPARC 2025;
- (ii) yn amodol ar yr uchod, i'r Aelodau ddirprwyo'r penderfyniad ar y gynrychiolaeth i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr;

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

10. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro.

Adroddwyd:

- dylid aros hyd nes y byddai'r Awdurdod wedi penodi Cyfarwyddwr Rheoli Tir, a fyddai'n dod â rhif aelodau'r Tîm Rheoli i 4, sef y cynllun gwreiddiol.

Argymhellwyd: y dylai'r Daflen Weithredu aros fel y'i cyflwynwyd

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.*

11. **Penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn datgan bod yn rhaid penodi Aelodau i wasanaethu ar Bwyllgorau, Paneli, Gweithgorau, ac i gynrychioli'r Awdurdod yn allanol

*Penderfynwyd: — **penodi** Aelodau fel a ganlyn:*

1. **PWYLLGORAU**

1.1 **Pwyllgor Cynllunio a Mynediad** — Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

1.2 **Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** — Holl Aelodau'r Awdurdod (3 chyfarfod y flwyddyn)

1.3 **Pwyllgor Safonau** — 3 Aelod o'r Awdurdod – am gyfnod o 4 blynedd (2 gyfarfod y flwyddyn)

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Elfed Powell Roberts (hyd at 14/06/26)
- (2) Cyng. Nia Owen (hyd at 12/11/28)

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Ms Naomi Luhde-Thompson (hyd at 12/11/28)

3 Aelod Annibynnol:

- (1) Mr Martin James Hughes (hyd at 05/07/25)
- (2) Mr Mark Jones (hyd at 25/04/28)
- (3) Mr Robert Gwilym Evans (hyd at 29/04/29)

2. **PANELI**

2.1 **Panel Apeliadau Graddfa Statws Sengl** — 3 Aelod + 2 Aelod Wrth Gefn (cwrdd fel bo'r angen)

Dylid dethol yr Aelodau a'r Aelodau wrth gefn o'r Pwyllgor Safonau, a chael eu dewis gan y Pwyllgor hwnnw

2.2 **Paneli Ymweld**

Gogledd

- (1) Cyng. Edgar Wyn Owen
- (2) Cyng. Einir Wyn Williams
- (3) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- (4) Cyng. Jo Nuttall
- (5) Cyng. Nia Owen
- (6) Mr Rhys Evans
- (7) Mr Brian Angell (yna Dr Salamatu Fada)
- (8) Ms Naomi Luhde-Thompson
- (9) Mr Wyn Thomas

De

- (1) Cyng. Elwyn Edwards
- (2) Cyng. Delyth Lloyd Griffiths
- (3) Cyng. Annwen Hughes
- (4) Cyng. Louise Hughes
- (5) Cyng. Elfed Powell Roberts
- (6) Cyng. John Pughe Roberts
- (7) Cyng. Meryl Roberts
- (8) Mr Tim Jones
- (9) Ms Delyth Lloyd

3. **GWEITHGORAU**

3.1 **Gweithgor Aelodau** — Holl Aelodau'r Awdurdod (8 cyfarfod y flwyddyn)

3.2 **Cyd Weithgor Lleol** — 4 Aelod (2 Gyfarfod y flwyddyn)

3 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- (2) Cyng. Elwyn Edwards
- (3) Cyng. Einir Wyn Williams

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Ms Naomi Luhde-Thompson

4 Cynrychiolydd o'r Undebau Llafur wedi'u dyrannu yn ôl Cyfansoddiad y Gweithgor

3.3 Bwrdd Rheoli Yr Ysgwrn — 3 Aelod o'r Awdurdod (yn cyfarfod fel bo'r angen)

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Elfed Powell Roberts
- (2) Cyng. Elwyn Edwards

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Ms Naomi Luhde-Thompson

3.4 Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch — 3 Aelod o'r Awdurdod (Cwrdd fel bo'r angen)

- (1) Cyng. Meryl Roberts
- (2) Mr Tim Jones
- (3) Cyng. Elfed Powell Roberts

4. PWYLLGORAU YMGYNGHOROL YR AWDURDOD

4.1 Cynhadledd Ymgynghorol Celyn, Tegid a Thryweryn — 4 Aelod o'r Awdurdod (yn cyfarfod fel bo'r angen)

3 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Elwyn Edwards
- (2) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- (3) Cyng. John Pughe Roberts

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Mr Brian Angell (yna Mr Rhys Evans)

4.2 Fforwm Eryri — 5 Aelod o'r Awdurdod (4 cyfarfod y flwyddyn – pob chwarter)

Cadeirydd

Is-gadeirydd

2 wedi'u penodi gan Awdurdod Lleol:

- (1) Cyng. Annwen Hughes
- (2) Cyng. Meryl Roberts

1 gan Lywodraeth Cymru:

- (1) Mr Brian Angell (yna Ms Delyth Lloyd)

4.3 Fforymau Mynediad Lleol — 2 Aelod o'r Awdurdod (4 cyfarfod y flwyddyn – pob chwarter)

1 Aelod ar Fforwm Mynediad y De:

- (1) Cyng. John Pughe Roberts

1 Aelod ar Fforwm Mynediad y Gogledd:

- (1) Mr Tim Jones

4.4 Is-bwyllgor Cynllunio Strategol (CBC) — 1 Aelod o'r Awdurdod

Un aelod i'w ddewis o:

- (i) Gadeirydd yr Awdurdod
- (ii) Is-gadeirydd yr Awdurdod
- (iii) Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad
- (1) Cadeirydd yr Awdurdod

4.5 Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd (CJC) — Cadeirydd yr Awdurdod

Mae'r Cadeirydd wedi ei gyfethol i'r is-bwyllgorau isod:

- (i) Is-bwyllgor Economaidd a Llesiant
- (ii) Is-bwyllgor Cynllunio Strategol

5. GRWPIAU TASG A GORFFEN A GRWPIAU LLYWIO

5.1 Is-grŵp Asedau — 6 Aelod o'r Awdurdod

- (1) Cyng. Ifor Glyn Lloyd
- (2) Cyng. Meryl Roberts
- (3) Cyng. Einir Wyn Williams
- (4) Mr Brian Angell (yna Cyng. Nia Owen)
- (5) Mr Tim Jones
- (6) Mr Wyn Thomas

5.2 Grŵp Llywio Cyfrif Carbon a Newid Hinsawdd — 5 Aelod o'r Awdurdod

- (1) Cyng. John Pughe Roberts
- (2) Mr Brian Angell (yna Cyng. Einir Wyn Williams)
- (3) Mr Tim Jones
- (4) Ms Naomi Luhde-Thompson
- (5) Dr Salamatu Fada

5.3 Grŵp Llywio Enwau Lleodedd — 3 Aelod o'r Awdurdod

- (1) Cyng. Elwyn Edwards
- (2) Ms Delyth Lloyd
- (3) Cyng. Nia Owen

6. CYRFF ERAILL

6.1 Grŵp Budd-ddeiliad Safle Trawsfynydd (1 Aelod) – Cyng. Elfed Powell Roberts

6.2 Cyd Gyngor Cymru (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

6.3 Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol – Cytunwyd bod 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru yn cael eu cynrychioli gan Aelod o'r Awdurdod sy'n dal Ysgrifenyddiaeth Parciau Cenedlaethol Cymru

6.4 Y Gynghair dros Dirweddau Dynodedig Cymru (1 Aelod) – Mr Tim Jones

6.5 Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

6.6 AGA Pen Llŷn a'r Sarnau (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes

- 6.7 **Grŵp Darparu Trafnidiaeth, Parcio a Theithio Llesol Eryri** (1 Aelod) – Cyng. Einir Wyn Williams
- 6.8 **Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni** (1 Aelod) – Cyng. Elfed Powell Roberts
- 6.9 **Partneriaeth Biosffer Dyfi** (1 Aelod) – Cyng. Louise Hughes
- 6.10 **Cynhadledd Gyswilt Rheilffordd Arfordir y Cambrian** (1 Aelod) – Cyng. Meryl Roberts
(Cyng. Delyth Lloyd Griffiths wrth gefn)

12. **Presenoldeb Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgorau o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025.

Adroddwyd:

- bod y cofnod o bresenoldeb y Cynghorydd Edgar Wyn Owen yng nghyfarfodydd yr Awdurdod yn anghywir, a'i fod mewn gwirionedd wedi mynychu 6 cyfarfod o'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ac nid 4 fel roedd y rhaglen yn dweud (presenoldeb cyfartalog o 100%).
- Presenoldeb ganrif yr Aelodau ar gyfer y flwyddyn felly oedd 90% yn hytrach nag 88%, a'r cyfanswm ar gyfer yr holl gyfarfodydd oedd 85% (nid 84%).

Penderfynwyd: — derbyn y cywiriadau a **nodi'r** adroddiad, er gwybodaeth.

13. **Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Adroddwyd:

- ar weithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn;

Diolchodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro i Mr Martin Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau am ei adroddiad a hefyd, ac yntau ar fin ymddeol o'r swydd, am ei waith fel Cadeirydd ac aelod o'r Pwyllgor dros y naw mlynedd flaenorol.

Argymhellwyd: – trafod a chytuno ar gynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

14. **Gefeillio Parc Cenedlaethol Los Alerces, Talaith Chubut, a Pharc Cenedlaethol Eryri: Arwyddo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth / Cytundeb Gefeillio'n Ffurfiol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro.

Adroddwyd:

- bod arwyddo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth / Cytundeb Gefeillio wedi ei ohirio oherwydd newid staff ym Mharc Cenedlaethol Los Alerces;
- bod hyn yn golygu fod yn rhaid newid yr argymelliadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.

Argymhellwyd felly bod yr Aelodau'n cytuno: —

- (i) ar gynnwys y MoDd/Cytundeb Gefeillio yn ffurfiol;
- (ii) i'r Cadeirydd arwyddo'r MoDd/Cytundeb Gefeillio;
- (iii) i swyddogion barhau i drefnu achlysur yn ystod wythnos Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam i ddathlu'r gefeillio, os yn ymarferol;

- (iv) i swyddogion barhau â thrafodaethau i sefydlu opsiynau cydweithio rhwng y ddau Barc Cenedlaethol.

*Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.*

15. **Ethol Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i Banel Ymgynghorol Ffermio Bro**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.

Adroddwyd:

- y disgwyliad i'r Panel gyfarfod 2-3 gwaith y flwyddyn i graffu ar brosiectau dros £10,000;
- byddai ceisiadau'n cael eu sgorio gan swyddogion cyn eu cyflwyno i'r Panel;
- bod cyfarwyddyd wedi'i dderbyn i gynnwys amaethwyr ar y Panel.

Argymhellwyd: — Nodi'r cynnwys ac ethol cynrychiolydd a dirprwy ar y panel

*Penderfynwyd: — **ethol** Mr Brian Angell (ac yna Dr Salamat Fada i'w olynu yn dilyn ei ymddeoliad) yn gynrychiolydd ar y panel, a Mr Tim Jones yn ddirprwy.*

16. **Mabwysiadu Cynllun Yr Wyddfa 2025 yn swyddogol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Partneriaethau

Adroddwyd:

- bod copi drafft o'r Cynllun wedi ei rannu ar-lein;
- bod copi drafft wedi ei rannu gyda phartneriaid a rhan-ddeiliaid mewn gweithdai a sesiynau galw-i-mewn
- mai'r bwriad oedd lansio'r Cynllun newydd ym mis Gorffennaf.

Argymhellwyd: — bod yr Awdurdod yn mabwysiadu *Cynllun Yr Wyddfa 2025* yn swyddogol

*Penderfynwyd: — **mabwysiadu** Cynllun yr Wyddfa 2025.*

17. **Safonau'r Iaith Gymraeg**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Adroddwyd:

- ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar ei berfformiad yn erbyn y Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt o dan yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg;
- bod tair rhan i'r adroddiad, sef
 - Crynodeb Gweithredol, a oedd yn crynhoi'r prif faterion o bwys mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a godwyd yn ystod y flwyddyn;
 - Crynodeb byr o berfformiad yr Awdurdod yn erbyn y 176 o safonau a osodwyd ar yr Awdurdod;
 - Atodiad, a oedd yn rhoi data ar staff yr Awdurdod a'u gallu i siarad Cymraeg.

Trafodwyd yr adroddiad a *nodwyd*:

- nad oedd modiwlau “Llysgennad Eryri” yn dod o dan y pennawd, “Cyrsiau Addysg” (Safonau 84-86) am eu bod yn fodiwlau a oedd yn cael eu cynnig ar-lein (yn ddwyieithog) lle'r oedd yr unigolyn yn ymgymryd â'r cwrs ei hunan, a bod y safonau yn ymwneud yn fwy ag iaith y tiwtor a oedd yn arwain cwrs;
- deuai cwynion a dderbynnid gan yr Awdurdod ar faterion iaith i sylw'r Aelodau trwy adroddiad blynyddol a gyflwynid i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, ac yna i'r Pwyllgor Safonau; câi unrhyw faterion eraill ynglŷn â hyrwyddo'r iaith eu hadrodd yn Rhaglen Waith Corfforaethol yr Awdurdod;
- nad oedd geiriad pwynt 2.8 (ymateb i gynnig cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4) yn eglur a byddai'n cael ei wella.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

18. Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer

Adroddwyd:

- bod y datganiad yn darparu crynodeb o holl faterion llywodraethiant o bwys a ddigwyddodd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf;
- byddai'r datganiad yn ffurfio rhan o gyfrifon terfynol yr Awdurdod am 2024-25;
- byddai'r ffigyrau a oedd yn y datganiad ar bresenoldeb aelodau yn cael eu diweddarau, yn dilyn y cywirdeb a gyflwynwyd i'r cyfarfod yn eitem 12, gynt.

Trafodwyd y datganiad a *nodwyd*:

- byddai'n briodol ychwanegu gwybodaeth ar gydymffurfiaid yr Awdurdod â Safonau'r iaith at yr adroddiad yma;
- dylai Aelodau adrodd yn ôl a chynnig adborth ar y gefnogaeth a roddid i Aelodau i gyflawni eu rôl;
- nad oedd Aelodau oedd wedi eu penodi gan Lywodraeth Cymru yn cael nemor ddim cefnogaeth nac arweiniad, er bod hyn wedi ei godi fwy nag unwaith gyda'r Gweinidog perthnasol;
- dylid ychwanegu gwybodaeth am y sesiynau galw-i-mewn a gynhaliwyd ynglŷn â'r Plas at yr eitem ar Ymgynghori Uniongyrchol;
- bod Adroddiad Archwiliad Cymru yn amlygu diffyg eglurder ac anghysondeb o ran sut mae aelodau awdurdodau lleol yn cael eu henwebu i eistedd ar APCau a'u bod yn argymhell bod APCau yn gweithio gyda CLILC a Llywodraeth Cymru i adolygu'r protocol. Nodwyd hefyd fod y rhain yn faterion oedd y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Fodd bynnag fe ofynnwyd a fu unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â hyn, a chynigiwyd y dylai'r Prif Weithredwr ddiweddarau'r Aelodau'n ffurfiol ar y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25, yn amodol ar ddiweddarau rhifau presenoldeb yr Aelodau, ychwanegu pennawd ar gydymffurfiaid yr Awdurdod â Safonau'r iaith, ac ychwanegu gwybodaeth am yr ymgynghoriad a gafwyd yn y sesiynau galw-i-mewn a gynhaliwyd ynglŷn â'r Plas.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

19. **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn nodi cynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

20. **Adroddiad Blynyddol ar y Ddyletswydd Bartneriaeth Gymdeithasol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro

Adroddwyd:

- cefndir y ddyletswydd a'r gofynion statudol;
- bod dyletswydd gan yr Awdurdod geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig wrth osod amcanion lles ac i adrodd yn flynyddol i ddangos sut y mae wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd;
- nad oedd yr Awdurdod wedi adolygu ei Amcanion Llesiant yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25, ei fod yn fwriad dechrau'r broses o adolygu'r Amcanion Llesiant ddechrau'r flwyddyn ariannol 2026-27, ac y byddai ymgynghoriad ffurfiol â chynrychiolwyr undebau llafur yn cael eu cynnal bryd hynny.

Argymhellwyd: – bod yr Awdurdod yn cytuno'n ffurfiol ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol fel y gellid ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol fel Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr argymhelliad.

23. **Cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025 er gwybodaeth.

Penderfynwyd: — **nodi'r** cofnodion.

24. **Adroddiad y Gweithgor Aelodau**

Cyflwynwyd adroddiad ar gyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2025.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

25. **Adroddiad y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynwyd adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2025.

Penderfynwyd: — **nodi'r** adroddiad.

26. **Cyfarfodydd Sefydliadau Eraill**

Adroddwyd:

- bod Mr Tim Jones wedi mynychu cyfarfod Fforwm Mynediad y Gogledd, lle trafodwyd:
 - trafferthion a gaiff rhai pobl wrth ddringo'r Wyddfa a'r hyn a ellid ei wneud yn ei gylch,

- y bwriad i greu llwybr newydd at yr Wyddfa a fyddai'n osgoi Victoria Terrace, Llanberis ac felly'n torri ar y niferoedd sy'n cerdded ar hyd y teras ddydd a nos gan amharu ar y trigolion.

27. **Penodi Cyfarwyddwr Rheoli Tir – Pecyn Rhestr Fer Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972: Eithrio rhag datgelu dogfennau**

Esboniodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro mai'r eithriadau perthnasol i'r adroddiad oedd ei fod yn cynnwys gwybodaeth a oedd yn:

- Berthnasol i unigolyn penodol
- Debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn
- Ymwneud â materion ariannol neu fusnes rhywun penodol

Nododd nad oedd ffactorau o blaid datgelu.

Penderfynwyd: — bod yr Awdurdod yn **eithrio'r** adroddiad, "Penodi Cyfarwyddwr Rheoli Tir – Pecyn Rhestr Fer".

RHAN 2

28. **Penodi Cyfarwyddwr Rheoli Tir – Pecyn Rhestr Fer**

Cyflwynwyd pecyn gyda ffurflenni cais gwahanol ymgeiswyr ar gyfer y swydd o Gyfarwyddwr Rheoli Tir.

Trafodwyd y ceisiadau.

Penderfynwyd: — gwahodd pedwar o'r ymgeiswyr i'w cyfweld.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:20



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 08.02.2023

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
16. Telerau ac Amodau Gwasanaeth Uwch Dîm Rheoli APCE: Cyfarwyddwyr	- bod gan y Panel, ynghyd â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Swyddog Adran 151 newydd, y dasg a'r awdurdod i fynd i'r afael â materion posibl yn deillio o drosiant personél yn yr Uwch Dîm Rheoli.	Angen cynnal cyfarfod i roi ystyriaeth i'r materion, dyddiad eto i'w gytuno.	NM	Wedi ei nodi ac yn monitro'r sefyllfa.	IE



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

CYFARFOD YR AWDURDOD – 11.06.2025

RHIF EITEM A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
4. Diweddariad Corfforaethol	Y Prif Weithredwr i gyflwyno Adroddiad Diweddarau ar Blas Tan y Bwlch yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Medi 2025		PW		
18. Datganiad Llywodraethu Blynnyddol 2024/25	Y Prif Weithredwr i gyflwyno adroddiad diweddarau ar y protocol enwebu Aelodau gan Awdurdodau lleol		PW		

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	10 Medi 2025
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-25
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Argymell mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol a chymeradwyo ei gyhoeddi

1. CEFNDIR

1.1 Rwyf wedi atodi drafft o'r Adroddiad Blynyddol gyda'r adroddiad hwn. Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw adrodd yn ffurfiol ar y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod o ran gwireddu ei Amcanion Llesiant. Mabwysiadwyd Amcanion Llesiant yr Awdurdod gan yr Awdurdod yn ei Ddatganiad Llesiant 2021-26. Bydd mwyafrif y gwaith a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol wrth gwrs yn faes cyfarwydd gan fod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi bod yn monitro cynnydd ar hynny ar sail chwarterol. Fodd bynnag, mae'r Adroddiad hwn yn ceisio rhoi trosolwg o'r sefyllfa ar ddiwedd 2024-25 er mwyn deall yn well y cynnydd a wnaed hyd yma yn ogystal â'r heriau sy'n parhau.

1.2 Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwelliant sydd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- 1.2.1 Adroddiad y Cadeirydd am y cyfnod 2024/25 sy'n nodi sut mae'r Awdurdod wedi perfformio yn ystod y flwyddyn flaenorol (mis Ebrill i fis Mawrth), yr hyn a gyflawnwyd, yr hyn na chyflawnwyd a'r problemau a gafwyd;
- 1.2.2 Manylion am yr ardal a gwmpesir gan y Parc yn ogystal â sail statudol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri;
- 1.2.3 Manylion Gweledigaeth Gorfforaethol yr Awdurdod sy'n nodi'r hyn yr ydym yn ymdrechu i'w gyflawni a'i adael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- 1.2.4 Manylion Datganiad Llesiant yr Awdurdod a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy;
- 1.2.5 Sut y gosodwyd Amcanion Llesiant yr Awdurdod;
- 1.2.6 Gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cyrraedd Amcanion Llesiant yr Awdurdod;
- 1.2.7 Rheoli Perfformiad;
- 1.2.8 Y Fframwaith Gwelliant; a
- 1.2.9 Manylion cyswllt

2. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

- 2.1 Mae'r Cynllun yn nodi sut y perfformiodd yr Awdurdod o ran cyflawni ei flaenoriaethau yn ystod 2024/25 ac felly ni fydd yn effeithio ar sut y caiff cyllideb yr Awdurdod ei gwario.

3. ARGYMHELLIAD

- 3.1 **Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Adroddiad Blynyddol ac yn cymeradwyo ei gyhoeddi.**

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2024/25



Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr asesiadau a nodir o'i fewn, a'r rhagdybiaethau a'r rhagamcanion y maent yn seiliedig arnynt. Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am sefydlu systemau rheoli mewnol a rheoli perfformiad priodol ac o'r rhain y deilliodd y wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y Cynllun. Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr wybodaeth a'r asesiadau sydd yn y cynllun yn gywir a chyflawn yn eu hanfod a bod y cynllun yn realistig ac yn gyraeddadwy.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd, LL48 6LF
www.eryri.llyw.cymru

☎ 01766 770274

📠 01766 771211

✉ parc@eryri.llyw.cymru

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ADRODDIAD BLYNYDDOL
AR GYFER 2024/25

1. ADRODDIAD Y CADEIRYDD	3
2. AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI	8
3. GWELEDIGAETH.....	9
4. DATGANIAD LLESIANT A'R EGWYDDOR	10
<u> </u> DATBLYGU CYNALIADWY	10
5. GOSOD AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD	12
6. AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD GYDA GWERTHUSIAD CRYNO O'R CYNNYDD A WNAED HYD YMA .	15
7. RHEOLI PERFFORMIAD	53
8. Y FFRAMWAITH GWELLIANT.....	53
9. MANYLION CYSWLLT	55

1. ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Rhagymadrodd

Mae'n anrhydedd gennyf gyflwyno Adroddiad y Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024–25 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bu'r ddeuddeg mis diwethaf yn gyfnod o gyflawni, o newid ac o adlewyrchu, ond hefyd yn gyfnod o uchelgeisiau newydd.

Fel mae'r aelodau, staff, partneriaid a'n cymunedau yn gwybod yn barod, ein dyletswydd yw nid yn unig i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, ond hefyd i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r rhinweddau arbennig hyn.

Mae gennym hefyd gyfrifoldeb statudol i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y rhai sy'n byw ac yn gweithio o fewn y Parc Cenedlaethol.

Nid pwrpasau ysgafn yw'r rhain. Maent yn llywio pob penderfyniad a wnawn, o atgyweirio llwybrau cerdded ar Yr Wyddfa i ymgynghori ar faterion tai fforddiadwy a gweithredu cynlluniau grant cymunedol fel enghreifftiau. Maent yn ein hatgoffa nid yn unig bod Eryri yn dirwedd o safon byd-eang ond hefyd yn gartref i bobl, iaith, traddodiadau a bywoliaeth.

Mae'r adroddiad yma'n rhoi trosolwg o waith y flwyddyn ddiwethaf, yn dathlu ein llwyddiannau, yn myfyrio ar yr heriau a wynebwyd ac yn edrych ymlaen at y cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Tirweddau Amrywiol

Rheoli Pwysau Ymwelwyr

Mae Eryri'n parhau i fod yn un o'r tirweddau mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Rydym yn hynod falch bod cymaint o bobl yn dymuno profi her cyrraedd copa'r Wyddfa, prydferthwch y Carneddau, a threftadaeth ddiwylliannol ein tirweddau a'n cymunedau. Ond law yn llaw gyda'r niferoedd uchel o ymwelwyr daw heriau megis erydiad llwybrau, tagfeydd parcio, sbwriel, a phwysau ar gynefinoedd bregus.

Eleni gwnaethom gynydd sylweddol wrth reoli'r effeithiau hyn. Trwy ein ymgyrchoedd cyfathrebu, gan gynnwys parhau gyda *Eryri Ni* mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd, cyrhaeddwyd cynulleidfaoedd ar-lein ac ar lawr gwlad, gan bwysleisio cynaliadwyedd ac annog pobl i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ac i gynllunio eu hymweliadau ymlaen llaw.

Mae ein gwasanaeth wardeinio wedi gweithio'n ddiflino i fonitro llwybrau, cynnal y llwybrau yr ydym yn hyrwyddo, ac integreiddio cynlluniau ardal gyda rhaglenni ehangach yr Awdurdod. Mae'r cownteri ymwelwyr ar draws Eryri yn darparu data gwerthfawr inni, gan ein galluogi i gynllunio camau gweithredu lle mae'r niferoedd ar eu mwyafrwyd, yn enwedig er mwyn cydweithio gyda'r timau achub mynydd yn Ogwen a Llanberis oherwydd y pwysau cynyddol sydd arnyn nhw.

Newid Hinsawdd

Efallai mai'r her fwyaf yr ydym yn gwynebu yw'r argyfwng newid hinsawdd. Eleni fe wnaethom symud ymlaen gyda'n Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri. Gwnaeth yr Awdurdod hefyd ddatblygu uchelgais mewnol i gyrraedd niwtraliaeth carbon erbyn 2030, gyda staff ac aelodau yn arwain drwy esiampl gan ostwng defnydd ynni a gwella'r defnydd o gerbydau ffylid.

Cynhadledd Ieuenctid

Uchafbwynt arbennig oedd cynnal COPA1 ym mis Medi, y Gynhadledd Hinsawdd Ieuenctid cyntaf ar Yr Wyddfa. Cyflwynodd dros 200 o bobl ifanc syniadau creadigol i leihau llygredd plastig untro. Cyflwynodd y grwpiau buddugol eu syniadau i banel o arbeingwyr, a sicrhawyd cyllid cychwynol i weithredu eu prosiectau.

Roedd y gynhadledd yn fwy na dim ond cystadleuaeth, roedd yn ddatganiad fod lleisiau ein pobl ifanc yn hollbwysig wrth lunio ein dyfodol. Cynladwyedd oedd blaenoriaeth y digwyddiad drwy annog teithio ar fws Sherpa'r Wyddfa a hyrwyddo poteli dŵr aildddefnyddiadwy yn ogystal ag arlwygo di-blastig. Cyn y digwyddiad, glanhawyd y *Trinity Gullies* gan wirfoddolwyr, gan ddiogelu rhywogaethau artig-alpaidd bregus a dangos y buddiannau o weithio mewn partneriaeth.

Adfer Natur

Mae dirywiad bioamrywiaeth yn parhau'n un o'n prif bryderon. Eleni cyflawnodd prosiectau megis Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, a chynlluniau adfer mawndiroedd gynnydd sylweddol. Nid yn unig y mae'r prosiectau hyn yn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau prin, ond maent hefyd yn cyfrannu at liniaru newid hinsawdd drwy ddal carbon.

Cymunedau Cydnerth

Cronfeydd Cymunedau

Unwaith eto eleni profodd y Gronfa Cymunedau Eryri ei gwerth, gan gefnogi prosiectau er budd ein trigolion. Ymhlith yr prosiectau llwyddiannus roedd:

- Gosod ardaloedd saff i feiciau a datblygu safleoedd awyr agored mewn Partneriaeth a Bwyd Bendigedig Port yn Ysgol Eifion Wyn, Porthmadog er mwyn annog teithio cynladwy i'r ysgol a sesiynau dysgu newydd i'r disgyblion.
- Creu paneli dehongli newydd mewn hosteli YHA ar draws Eryri, gan hyrwyddo'r iaith Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol i ymwelwyr o bob cwr o'r byd.

- Gosod mannau gwefru beiciau trydan a gorsaf ail-lenwi dŵr ym Metws y Coed, gan hyrwyddo profiadau teithio cynaliadwy a lleihau plastig untro.

Gall pob un o'r prosiectau hyn ymddangos yn fach ar ei ben ei hun, ond gyda'i gilydd maent yn rhan o fudiad mwy: un lle mae cynaliadwyedd, grymuso cymunedol, a balchder diwylliannol yn mynd law yn llaw.

Tai a Chynllunio

Mae tai fforddiadwy yn parhau i fod yn un o'r heriau mwyaf i'n cymunedau. Eleni rhoddodd yr Awdurdod eu sêl bendith ar gyfer symud ymlaen gyda Cyfarwyddyd Erthygl 4, a fydd yn addasu'r hawliau datblygu sy'n caniatau troi tai yn ail gartrefi neu lety gwyliau. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn, gyda'r bwriad bod y cyfarwyddyd yn dod i rym ym mis Mehefin 2025.

Treftadaeth Gymreig: Aill-frandio a logo newydd

Penderfyniad pwysig eleni oedd dewis yr Awdurdod i fabwysiadu'r enwau Eryri ac Yr Wyddfa yn unig ym mhob cyfathrebiad yn barhaol ac addasu ein logo swyddogol. Mae'r cam hwn yn adlewyrchu ein pwrpas statudol i warchod treftadaeth ddiwylliannol a'n cefnogaeth at *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru.

Datgelwyd y logo newydd yn Nhachwedd 2024, gyda'r Prif Weithredwr, Jonathan Cawley, yn disgrifio'r newid fel arwydd o'n "ymroddiad i warchod treftadaeth ddiwylliannol yr ardal a dros werthoedd yr iaith Gymraeg." Caiff y broses ei weithredu fesul cam ar hyd ein arwyddion, cerbydau, paneli dehongli, gwisgoedd a llwyfannau digidol i sicrhau cysondeb ac er mwyn rheoli costau yn effeithiol.

Er bod rhai cynulleidfaoedd yn parhau i ddefnyddio'r termau Saesneg "Snowdon" a "Snowdonia", rydym wedi ymrwymo i arwain drwy esiampl. Mae'r penderfyniad yma'n ein gosod ochr yn ochr â thirweddau byd-eang eraill sy'n gwarchod eu henwau brodorol, gan ddangos nad penderfyniad symbolaidd yn unig yw'r ymrwymiad i iaith a diwylliant, ond yn weithredol ac yn weladwy ar bob lefel.

Ieuenctid a Gwirfoddoli

Parhawyd i ehangu'r cyfleoedd i bobl ifanc. Tyfodd cynllun Ceidwaid Ifanc yn gryfach, gan ddatblygu sgiliau, profiad a hyder i genhedlaeth newydd o warchodwyr amgylcheddol. Paratowyd Maniffesto Ieuenctid drafft, yn nodi dyheadau pobl ifanc ar gyfer dyfodol y Parc Cenedlaethol.

Bu ein prosiectau gwirfoddoli hefyd yn ffynnu, trwy raglen Caru Eryri, rhoddodd ein gwirfoddolwyr filoedd o oriau i godi sbwriel, cynnal llwybrau ac adfer cynefinoedd.

Treftadaeth Ddiwylliannol

Bu treftadaeth ddiwylliannol yn ffocws cryf ar ein gwaith. Parhaodd Partneriaeth Tirwedd y Carneddau gyda'i rhaglen uchelgeisiol, gan weithredu prosiectau cadwraeth, darparu hyfforddiant sgiliau, ac ymgysylltu'n gymunedol.

Parhaodd Yr Ysgwrn i ddatblygu ei rôl fel canolfan ddiwylliannol o arwyddocâd cenedlaethol, gan ddenu ymwelwyr o ar draws Cymru a thu hwnt i ddysgu am fywyd Hedd Wyn a hanes pwysig yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Parhaodd y prosiect Enwau Lleoedd y Carneddau yn ei flaen gan warchod hanes llafar a safoni enwau lleoedd gan nid yn unig sicrhau bod yr enwau yn cael eu diogelu ond eu dathlu hefyd.

Ffyrdd o Weithio

Newid Arweinyddiaeth

Bu'r flwyddyn hefyd yn gyfnod o newid arweinyddiaeth. Ar ôl 37 mlynedd o wasanaeth, gan gynnwys 11 mlynedd fel Prif Weithredwr, ymddeolodd Emyr Williams ym mis Mehefin. Mae ei etifeddiaeth yn un i'w ddathlu: o bryniant Yr Ysgwrn i sicrhau prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE, o lunio Cynllun Eryri i arwain yr Awdurdod drwy gyfnodau o newid polisi cenedlaethol a heriau covid-19. Ar ran yr Awdurdod, estynnaf ein diolch dwysaf i Emyr am ei weledigaeth, ei ymroddiad a'i arweinyddiaeth.

Llywodraethu a Chyfrifoldebau

Rydym yn parhau i foderneiddio ein trefniadau llywodraethu. Mae Aelodau wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant ar lywodraethu, tra bo monitro perfformiad wedi ei gryfhau. Adolygwyd presenoldeb mewn cyfarfodydd i sicrhau tryloywder, ac mae'r Awdurdod wedi cyfrannu'n sylweddol at drafodaethau cenedlaethol ar safonau ledled teulu Parciau Cenedlaethol Prydain.

Partneriaethau

Bu gweithio mewn partneriaeth yn gonglfaen i'n dulliau gweithredu. Ar lefel genedlaethol rydym wedi cydweithio â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro, yn enwedig ar brosiectau adfer natur a dal carbon. Trwy Tirweddau Cymru, rydym wedi gweithio gyda Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i rannu arbenigedd a gweithio ar y cyd i amddiffyn ein tirweddau dynodedig.

Ar lefel Prydeinig rydym wedi chwarae rôl bwysig yng ngwaith Parciau Cenedlaethol y DU a Phartneriaeth y Parciau Cenedlaethol, gan sicrhau bod llais Eryri i'w glywed mewn trafodaethau cenedlaethol am newid hinsawdd, bioamrywiaeth a rheoli ymwelwyr.

Ymgysylltu Cynhwysol

Rydym yn gweithio'n galed i ymgysylltu gyda'n cynulleidfaoedd amrywiol. Rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol ymhlith ymwelwyr ac rydym wedi ymrwymo i gydweithio'n agos gyda'r Swyddog sy'n gyfrifol am gynhwysiant o dan faner Tirweddau dynodedig Cymru i ddatblygu ein cyfathrebu a sicrhau bod pob rhan o'r gymdeithas yn cael eu cynrhychioli.

Edrych at y Dyfodol

Wrth edrych ymlaen at flwyddyn ariannol 2025–26, mae nifer o flaenoriaethau'n sefyll allan:

- Paratoi ar gyfer adolygu Cynllun Eryri a chyhoeddi Adroddiad Cyflwr y Parc newydd, gan sicrhau bod ein penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymgysylltu cymunedol.
- Monitro gweithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4, gan asesu ei effaith ar gyflenwad tai a chydnerth cymunedol.
- Parhau i weithredu'r Cynllun Gweithredu Carbon Isel, gan wreiddio hynny ym mhob agwedd o'n gwaith.
- Ehangu prosiectau diwylliannol a dehongli trwy gyfleoedd ariannu.
- Cadw at ein hymrwymiad i gynhwysiant, ymgysylltu ieuenctid a'r iaith Gymraeg, gan sicrhau bod Eryri'n Barc Cenedlaethol i bawb.

Casgliad

Bu blwyddyn ariannol 2024–25 yn un o gyflawni sylweddol, ond hefyd un sy'n ein hatgoffa o'r heriau sy'n parhau. Gwelsom gynnydd mewn gweithredu ar newid hinsawdd, cefnogi cymunedau, hyrwyddo diwylliant, a llywodraethu, ond gwyddom fod y pwysau ar ein tirweddau a'n cymunedau yn bwysig i'w rheoli.

Rwy'n hynod falch o ymroddiad ein staff, ein aelodau, ein gwirfoddolwyr a'n partneriaid. Gyda'n gilydd, rydym nid yn unig wedi cyflawni prosiectau a pholisïau, ond hefyd wedi ymgorffori ysbryd Eryri: ardal o harddwch, diwylliant a chymunedau cydnerth.

Fel Cadeirydd, diolchaf i bawb a gyfrannodd at lwyddiannau'r flwyddyn hon. Nid yw'r daith o'n blaen yn un hawdd, ond gyda chryfder ein hymrwymiad ar y cyd, rwy'n hyderus y gallwn wynebu'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd sydd o'n blaenau



Cadeirydd, Awdurdod y Parc Cenedlaethol

2. AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

2.1. Parc Cenedlaethol Eryri

Dynodwyd Parc Cenedlaethol Eryri ym 1951 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymestyn dros 213,200 hectar o gefn gwlad sy'n amrywio o fynyddoedd a gweundir i goetir ac arfordir. Mae tua 25,000 o bobl yn byw yn y Parc a chredir bod 10.5 miliwn yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn.

Mae tua 59% o drigolion y Parc Cenedlaethol yn siarad Cymraeg.

2.2. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 fel awdurdod lleol un pwrpas. Mae ganddo'r pwrpasau canlynol yn ôl diffiniad y Ddeddf:

- Gwarchod a gwella'r harddwch naturiol, y bywyd gwyllt a'r dreftadaeth ddiwylliannol; a
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parc (Cenedlaethol).

Erys y cyfrifoldeb am gynllunio, cadwraeth, rheoli tir, mynediad a hamdden â'r Awdurdod, ond nid yw'n gyfrifol am ofalu am yr henoed, ysgolion, priffyrdd, gwagio biniau ysbwriel a dyletswyddau eraill Awdurdod Lleol.

Â'r Ddeddf yn ei blaen i ddweud bod yn rhaid i Awdurdod y Parc Cenedlaethol feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol er mwyn bodloni Pwrpasau'r Parciau Cenedlaethol ac i'r diben hwnnw bydd yn cydweithredu ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus y mae eu swyddogaethau'n cynnwys hybu datblygiad economaidd a chymdeithasol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.

At hyn, o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer y Parc Cenedlaethol cyfan. Mae'r Awdurdod felly'n gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Rheolaeth y Parc, y Cynllun Datblygu Lleol ac am benderfynu ceisiadau cynllunio.

3. GWELEDIGAETH

Mabwysiadodd yr Awdurdod weledigaeth ar gyfer y Parc ym mis Rhagfyr 2009 yn dilyn ymgynghoriad allanol helaeth â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc (yng Nghynllun Rheolaeth y Parc) fel a ganlyn:

Erbyn 2035, bydd Eryri'n parhau i fod yn dirlun a warchodir, yn cael ei ddiogelu a'i wella i ddarparu amgylchedd naturiol gyfoethog ac amrywiol; yn rhoi buddiannau cymdeithasol, economaidd a lles yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Cyflenwir pwrpasau'r Parc Cenedlaethol trwy economi amrywiol a ffyniannus sydd wedi addasu i heriau newid yn yr hinsawdd, wedi ei seilio ar adnoddau naturiol – nodweddion y tirlun, cyfleoedd i ddysgu a mwynhau, treftadaeth ddiwylliannol a naturiol. Gyda chymunedau dwyieithog bywiog a chynhwysol, bydd gweithio mewn partneriaeth wedi dangos y gellir cyflawni mwy trwy undod.

Bydd cymunedau wedi mabwysiadu datrysiadau arloesol mewn Byd sy'n newid - bydd economi carbon isel wedi cryfhau cysylltiad y preswylwyr â'r amgylchedd, gan roi gwell safon byw a sicrhau enw da Eryri fel Parc Cenedlaethol sy'n enwog yn rhyngwladol ac un o'r lleoedd i enaid gael llonydd.

4. DATGANIAD LLESIANT A'R EGWYDDOR

DATBLYGU CYNALIADWY

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") yn rhoi pwrrpas cyffredin cyfreithiol rwymol, sef y saith nod lles. Y saith nod lles yw fel a ganlyn:

Cymru Lewyrchus	Cymru Gydnerth	Cymru Iachach	Cymru Fwy Cyfartal	Cymru o Gymunedau Cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd- eang
--------------------	-------------------	------------------	-----------------------	----------------------------------	--	---

I'r Awdurdod, dyletswydd graidd y Ddeddf (dyletswydd llesiant) yw bod yn rhaid i ni bennu amcanion llesiant sy'n gwneud y gorau o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau llesiant a nodir uchod. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i ni gymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion llesiant hynny yn unol â'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy.

Dylai amcanion llesiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid tymor hir. Byddwn yn cwrdd â'n hamcanion llesiant drwy gyfres o gamau a gall y camau gweithredu hyn fod yn rhai tymor byr, canolig neu hir ar gyfer newid, neu yn gyfuniad o'r rhain.

Mae amcanion llesiant yr Awdurdod wedi'u nodi yn Natganiad Llesiant yr Awdurdod 2021-26 ac maent hefyd wedi'u nodi yn Adran 6 y ddogfen hon. Maent yn cael eu gosod allan yn y fath fodd fel eu bod yn dangos yn glir sut mae pob un ohonynt yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. O dan yr amcanion llesiant unigol, ceir gyfres o gamau sydd angen eu cyflawni ac mae'r rhain unwaith eto wedi eu hasesu'n unigol o ran sut y maent yn berthnasol i bob un o'r saith nod llesiant. Bydd y camau sydd i'w cymryd fel y nodir uchod ac yn Adran 5 yn cael eu cefnogi gan Raglen Waith fanwl yr adroddir arni ac a archwilir gan yr Awdurdod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Yna gellir mesur y cynnydd yn ôl y Dangosyddion Perfformiad Lleol a fabwysiadwyd at y diben penodol hwnnw.

Mae cefnogi'r nodau llesiant yn ddyletswydd gyfochrog y mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ei chyflawni drwy ddatblygu cynaliadwy. Gweler isod fanylion pellach ynghylch yr hyn a olygir gan ddatblygu cynaliadwy.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n hamcanion llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. **Tymor Hir** - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.

2. **Integreiddio** - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. **Cynnwys** - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.
4. **Cydweithio** - Gallai gweithredu ar y cyd gydag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. **Atal** - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

Ar ôl asesu gofynion datblygu cynaliadwy gydag amcanion llesiant yr Awdurdod, mae'n ymddangos bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'n hamcanion llesiant, a nodir manylion pellach isod:

Tymor Hir: Mae pob un o nodau llesiant yr Awdurdod yn cwmpasu dyheadau tymor hir yr Awdurdod, yn benodol sut y byddwn fel Awdurdod yn cynnal ein busnes yn y dyfodol ac ethos ein ffordd o feddwl. Mae hyn yn cynnwys mwy o gydweithio gyda'n rhanddeiliaid, mwy o ymwybyddiaeth o fanteision iechyd y Parc Cenedlaethol i bobl yn gyffredinol, heriau newid yn yr hinsawdd, grymuso ein cymunedau tra'n cydnabod bod rhaid i'r Awdurdod barhau i weithredu o fewn yr adnoddau ariannol llai sydd ar gael iddo.

Integreiddio: Mae rhai o'n hamcanion llesiant yn cael mwy o effaith ar nodau llesiant unigol nag eraill. Fel rhan o'r broses o fabwysiadu ein hamcanion llesiant, ystyriodd yr Awdurdod sut maent yn cwrdd â'r nodau llesiant, a nodir y rhain nid yn unig mewn perthynas â phob un o'r amcanion llesiant ond hefyd ar gyfer y camau gweithredu tymor byr a thymor canolig penodol sy'n gysylltiedig ar hyn o bryd â'n amcanion llesiant.

Cynnwys: Mae'r rhan fwyaf o'n hamcanion llesiant yn cynnwys pobl eraill. Trwy gyfathrebu'n effeithiol ac ehangu dealltwriaeth y cyhoedd ar bynciau mor amrywiol â'r heriau a wynebwr gan Eryri wrth ymateb i newid hinsawdd, mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol hamdden tra'n gwella dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol, disgwylir y bydd cyfathrebu o'r fath yn adlewyrchu poblogaeth Cymru. Yn yr un modd bydd sicrhau bod ein cymunedau'n gydnerth yn wyneb yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth gwrs yn ymwneud nid yn unig â phoblogaeth ardal ddaearyddol yr Awdurdod ond hefyd boblogaeth Cymru gyfan, gan mai dim ond trwy gynnwys pawb ym mhopeth rydym yn ei wneud y gallwn fod yn llwyddiannus yn y pen draw. Mae ein hamcan Ffyrdd Cydnerth o weithio, er nad yw'n cynnwys pobl eraill yn uniongyrchol, yw'r amcan sy'n sicrhau bod uchelgeisiau hirdymor yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyraeddadwy.

Cydweithio: Fel Awdurdod Parc cymharol fach, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bob amser wedi cydnabod y manteision sylweddol a geir drwy gydweithio ag eraill a thrwy weithio mewn partneriaeth barhaus. Erbyn hyn, mae'r ffordd hon o feddwl wedi treiddio i mewn i ffabrig yr Awdurdod a'i staff, ac nid yw'n syndod bod ein holl amcanion llesiant yn golygu cydweithio. Bydd ein holl amcanion llesiant yn cynnwys cymysgedd o gydweithio mewnol ac allanol.

Atal: Ni ddylai fod yn syndod bod atal yn elfen ganolog o amcanion llesiant yr Awdurdod, o ystyried ein pwrpasau statudol. Trwy gynnwys ein cymunedau ac eraill yng ngwaith yr Awdurdod; trwy gyfathrebu'n effeithiol o ran y cyfleoedd go iawn sydd gan y Parc Cenedlaethol i'w cynnig; drwy sicrhau ein bod yn cynnig amodau ffafriol ar gyfer adfer cynefinoedd; drwy gymryd y camau gweithredu hyn, a rhai eraill, yn awr, gallwn ddechrau ar y broses o addasu i heriau newid yn yr hinsawdd. Os nad yw adnoddau'n cael eu defnyddio'n awr i ymdrin â'r materion hyn, mae perygl gwirioneddol y bydd yr heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yn anorchfygol.

Mae amcanion llesiant yr Awdurdod wedi'u nodi yn Adran 6. Mae cynnydd ar weithredu ei amcanion llesiant yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod. Mae'r ddogfen hon, sef Adroddiad Blynnyddol yr Awdurdod, yn cael ei hystyried gan yr Awdurdod ar ôl i'r flwyddyn ariannol ddod i ben ac mae'n rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

5. GOSOD AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD

Yn 2018-19 cyfunodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ei amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol (datganiad llesiant) a chynhyrchodd un ddogfen. Roedd y dull hwn yn gyson ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol ac fe'i cefnogir gan ac fe'i archwiliwyd gan Archwilio Cymru.

Trwy'r adroddiad "Gwerthfawr a Chydnerth" ym mis Gorffennaf 2018, a oedd ar y pryd yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru, roedd yn ofynnol i amcanion llesiant yr Awdurdod fodloni'r 10 thema drawsbynciol.

Mae hwn bellach wedi'i ddisodli gan Lythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru, ac asesir cynnydd o ran cyrraedd y targedau a nodir ynddo yn rheolaidd fel rhan o'r adroddiadau ar gynnydd y Rhaglen Waith Gorfforaethol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ogystal ag i'r Awdurdod yn flynyddol.

Roedd datgymhwysiad Mesur Llywodraeth Leol 2009 yn caniatáu i'r Awdurdod fabwysiadu amcanion tymor hwy a oedd yn hwyluso gwell aliniad rhwng gwaith yr Awdurdod a Chynllun Rheoli'r Parc, y Cynllun Datblygu Lleol, mecanweithiau adrodd a sefydlu amcanion realistig a CAMPUS ar gyfer rhaglenni gwaith blynnyddol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i'r Awdurdod gyflawni datblygu cynaliadwy ac wrth wneud hynny mae'n rhaid iddo osod a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) er mwyn cyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod adlewyrchu'r pwrpasau a'r dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 1995.

Yn 2019 cytunodd yr Aelodau ar yr angen i adolygu amcanion yr Awdurdod i sicrhau eu bod yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd yn well â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y dogfennau a nodir uchod ac yn darparu ar gyfer blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru.

Mabwysiadwyd amserlen gan yr Awdurdod i fabwysiadu amcanion llesiant a strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2021-26.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu wedi'u hwyluso gan Aelodau a/neu staff drwy gydol 2020 pryd y nodwyd meysydd allweddol. Daeth tair prif thema i'r amlwg, dwy yn wynebu allan ac un yn wynebu i mewn. Yn unol â'r tair prif thema, datblygwyd pum is-thema arall er mwyn canolbwyntio ar:

AMGYLCHEDDAU CYDNERTH:

1. Gwellu rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden,
2. Ymateb i heriau newid hinsawdd,
3. Gwellu rheolaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios / amgylchiadau perthnasol i reoli tir ar ôl Brexit, a
5. Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur.

CYMUNEDAU CYDNERTH:

1. Cynnal a chynyddu ansawdd bywyd trigolion,
2. Cefnogi pobl ifanc,
3. Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth at gymunedau lleol,
4. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol, a
5. Datblygu economi leol sy'n cefnogi'r dynodiad a'r rheolaeth o Eryri fel Parc Cenedlaethol.

FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO:

1. Datblygu gweithlu medrus,
2. Datblygu a hyrwyddo arfer gorau,
3. Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol,
4. Moderneiddio trefniadau llywodraethu, a
5. Cynnal a gwellu dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol.
6. Cydbwyso Adnoddau ac Ymdrechion yr Awdurdod*

Yn ystod haf 2020, cynhaliodd yr Awdurdod ymgynghoriad anffurfiol cychwynnol gyda rhanddeiliaid i bennu a oedd y themâu cychwynnol yn adlewyrchu'r amcanion a gweledigaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol tra'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y ffordd fwyaf cynaliadwy. Roedd yr adborth yn cadarnhau'r themâu ac yn cynnig awgrymiadau ar gyfer newidiadau a gwelliannau pellach.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ddiwedd 2020 cyn sesiynau Aelodau/Staff pellach i drafod, ystyried a datblygu amcanion llesiant drafft terfynol a Rhaglen Waith Gorfforaethol.

Newidiodd sefyllfa'r Awdurdod fel pob sector arall yn ddramatig oherwydd yr angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn erbyn pandemig Covid-19 a'r gofynion i ymdrin â'r bygythiad i gymdeithas. Yn unol â hynny, roedd hyn yn golygu bod angen newidiadau i Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac i rai elfennau o'r amcanion llesiant eu hunain er mwyn galluogi'r Awdurdod i ganolbwyntio ymdrechion ac adnoddau ble mae eu hangen.

Gellir gwneud sylwadau ar hwn neu fersiynau ar gyfer y dyfodol o'r Adroddiad Blynnyddol trwy anfon e-bost at ewan.jones@eryri.llyw.cymru neu yn ysgrifenedig at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF.

Mae'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod wedi'u nodi'n llawn yn Adran 6 y ddogfen hon ynghyd â chrynodeb o werthusiad o gynnydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

*Ychwanegwyd Cydbwyso Adnoddau ac Ymdrechion yr Awdurdod at Amcanion Llesiant yr Awdurdod o 2024 ymlaen yn dilyn adolygiad o'r Amcanion Llesiant a'r sefyllfa ariannol heriol sy'n wynebu'r Awdurdod.

6. AMCANION LLESIANT YR AWDURDOD GYDA GWERTHUSIAD CRYNO O'R CYNNYDD A WNAED HYD YMA

AMGYLCHEDDAU CYDNERTH	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Byddwn yn cyflawni hyn drwy:							
AC1 Wella rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden	✓	✓	✓		✓		✓
AC2 Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd	✓	✓	✓	✓	✓		✓
AC3 Wella rheolaeth a dealltwriaeth o'n treftadaeth ddiwylliannol	✓			✓	✓	✓	✓
AC4 Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
AC5 Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur		✓	✓				✓

AC1 – Gwellu rheolaeth hamdden ac unrhyw effeithiau negyddol hamdden

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Gweithredu Ymgyrch Gyfathrebu Gwynedd ac Eryri ar yr Economi Ymweld Cynaliadwy.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)</i>	Gweithredwyd ymgyrch ar yr economi ymweld ar gyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod.	Parhau i fonitro data ar gyfer unrhyw dueddiadau.
AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)</i>	Cynhaliwyd Sesiynau hyfforddi cyfryngau cymdeithasol yn y Pencadlys ar gyfer busnesau a mentrau cymunedol Gwynedd ac Eryri.	

	Cwblhawyd ymgyrch ymwelwyr ar y cyd â Chyngor Gwynedd (comisiynwyd cwmnïau cyfathrebu Alaw ac Equinox). Cwblhawyd gwaith paratoi ar gyfer cyflawni ymgyrch gyfathrebu ar economi ymweld gynaliadwy ar gyfer haf 2025.	
--	---	--

Darpariaeth well ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ym Mhen y Pass drwy uwchraddio cyfleusterau ymwelwyr a dehongli: Cwblhau a gosod gwelliannau i ddehongli ym Mhen y Pass.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)</i> AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)</i>	Dechreuwyd gwaith cynllunio a chostiadau yn Chwarter 1 a 2. Cwblhawyd gwaith dehongli a gwaith dylunio wedi hynny. Cwblhawyd y dylunio a'r gwaith gosod/ sefydlu yn Chwarter 4.	Cwblhawyd.

Monitro niferoedd ymwelwyr drwy osod offer cyfri pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Adroddiad wedi'i gynhyrchu yn seiliedig ar ddata ar gyfer 2023.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)</i> AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)</i> AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)</i>	Adroddiad wedi'i gynhyrchu a'i gyflwyno i'r Aelodau yn ystod y Gweithgor ym mis Mehefin 2024. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri.	Parhau i fonitro data am unrhyw dueddiadau.

Nodi a meintoli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl ac adolygu'n flynyddol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2) AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)	Mae amrywiol fathau o waith yn parhau i gael ei wneud ar draws y Parc Cenedlaethol ynghyd â phrosiectau mawr fel – Mynydd Moel (Cadair Idris) a Llwybr y Mwynwyr (Yr Wyddfa).	Parhaus.

Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau troed yn Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Byddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1) AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2) AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)	Strategaeth Ddrafft wedi'i chwblhau. Mae'r gwaith wedi llithro, rhagwelir y bydd drafft yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn ystod Hydref 2025.	Drafft i'w ystyried gan Weithgor yr Awdurdod erbyn Hydref 2025.

Cynhyrchu canllawiau ar gyfer gwneud gwaith llwybrau mynediad yn Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Byddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1) AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu	Angen adolygu a chyflwyno drafft i'r Tîm Rheoli am sylwadau cychwynnol cyn i'r mater gael ei ystyried gan Weithgor yr Awdurdod. Mae'r gwaith wedi llithro. Rhagwelir y bydd drafft yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli ym mis Medi 2025.	Bydd hyn yn cyd-fynd â'r Strategaeth Ymgysylltu y cyfeirir ati uchod. Mae angen y ddau erbyn mis Hydref 2025.

cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2) AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)		
--	--	--

Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2) AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)	Gwaith yn parhau. Bydd meddalwedd rheoli rhwydwaith newydd yn cynorthwyo gyda rheoli ac adrodd ar y gwaith.	Gweithredu parhaus.

Wardeniaid Ardal i weithio gyda chymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2) AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)	Mae'r gwaith yn barhaus ac yn cael ei flaenoriaethu yn rhaglenni gwaith y Wardeiniaid Ardal.	Gweithredu parhaus.

Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)</i> AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)</i> AC1: Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)</i>	Mae gan bob Warden gynllun ardal sy'n cael ei arolygu'n rheolaidd gan yr Uwch Wardeniaid. Anogir y Wardeniaid i gydweithio ag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw gwaith prosiect natur Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy a ariennir gan grant Llywodraeth Cymru gyda'r Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.	Gweithredu parhaus.

Cefnogi gwaith Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)</i> AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)</i> AC1: Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad <i>(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)</i>	Roedd COPA 1 yn llwyddiant mawr. Cytunodd pawb fod angen gwaddol a dechrau cynllunio COPA2 ar gyfer 2026. Daeth gwaith y prosiect i ben ym mis Hydref 2024 a chyflwynodd y Swyddog i'r Aelodau mewn Gweithgor ym mis Hydref. Cynhyrchwyd adroddiad terfynol a chynhaliwyd cynllunio ar gyfer gwaddol y prosiect yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2024.	Prosiect yn parhau tan fis Hydref 2024.

AC2 – Ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Sicrhau gweithrediad y polisiau CDLI cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4</i>) AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1</i>) AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2</i>)	Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLI presennol, gan gynnwys strategaeth aneddiadau (lle mae tai'n cael eu datblygu), lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni drwy ddulliau adnewyddadwy. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) o gynnydd holl bolisiau'r CDLI i'r Aelodau ac yna i Lywodraeth Cymru bob Hydref, ac mae hwn wedi dod i'r casgliad y cydymffurfiwyd yn fras â'r polisiau hyn. Mae'r maes polisi hwn wedi esblygu'n sylweddol yn y blyneddau diwethaf, a bydd hyn yn codi nifer o faterion pwysig yn yr adolygiad o'r CDLI yn 2025.	I'w symud ymlaen ymhellach yn yr adolygiad o'r CDLI.

Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl troed carbon adeiladau'r Awdurdod i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (CRA - i'w fabwysiadu o fis Rhagfyr 2024) ac yn cyd-fynd â thargedau Ffyniant i Bawb Cymru - Ystâd Gyhoeddus Carbon Isel. Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn, ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1</i>)	Nid yw addasu a diweddaru'r Cynllun Rheoli Asedau blaenorol wedi symud ymlaen fel y cynlluniwyd oherwydd gwaith ychwanegol yn deillio o farchnata Plas Tan y Bwlch a chyfarfodydd cymunedol. Mae'r sefyllfa wedi'i chymhlethu ymhellach oherwydd llwyth gwaith a chwblhau ceisiadau am grantiau cyfalaf pellach er mwyn ymateb i broblemau sydd wedi codi oherwydd prysurdeb safleoedd penodol, yn ogystal â chyfran sylweddol o amser yn delio ag ymweliadau a	Parhau gyda'r gwaith yn y flwyddyn ariannol nesaf.

	thrafodaethau ar Blas Tan y Bwlch. Awgrymir ail-raglennu'r cam gweithredu hwn ar gyfer 2025-26 a bod yr Is-grŵp Asedau yn ymgynnull ym mis Mai 2025 gyda mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau i ddilyn.	
--	---	--

Datblygu Cynllun Gweithredu i'r Awdurdod fod yn garbon niwtral yn seiliedig ar argymhellion adroddiad yr Astudiaeth Garbon ac ystyried pa adnoddau staff sydd eu hangen i weithredu unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1</i>) AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2</i>)	Mae'r angen i weithio ar draws adrannau a chefnogi pryniannau Carbon isel ledled yr Awdurdod wedi'i adnabod ac mae swydd newydd "Swyddog Carbon" wedi'i chreu, ei hysbysebu a'i recriwtio. Dechreuodd y Swyddog newydd yn y rôl ym mis Tachwedd 2024. Ers i'r Swyddog Carbon Isel ddechrau yn ei swydd, cynhaliwyd a rhaglennwyd cyfarfodydd rheolaidd i drafod yr Astudiaeth Garbon wrth i'r swyddog asesu blaenoriaethau datgarboneiddio y gall yr Awdurdod ei rheoli neu ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt. Bydd y Swyddog Carbon Isel yn adolygu'r cynllun gweithredu ac yn ei ailgyflwyno i'r Aelodau.	Datblygu Strategaeth Garbon Gorfforaethol.

Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri, gan sicrhau bod hyn yn cynnwys ymrwymiad i: Amcanion carbon isel yn y CDLI a Chynllun Eryri, Cynhyrchu Strategaeth Goed a Choetiroedd; a Chynhyrchu Strategaeth Mawndiroedd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1</i>) AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2</i>)	Mae'r Strategaeth Goed a Choetiroedd yn agosáu at gam olaf ei chreu. Rhagwelir y bydd yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod llawn yn y gwanwyn. Bydd y strategaeth mawn yn cael ei diweddarw wrth i adnoddau staff ganiatáu yn y gwanwyn/haf wrth i'r rhaglen waith (sy'n dymhorol) lacio rhywfaint.	Parhaus.

Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod wedi ymrwymo i egwyddorion 'Ras i Sero', drwy fabwysiadu rôl arweiniol ac eiriolaeth gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd wedi'u cynnwys yn y 'Ras i Sero'. Gweithio gydag NPUK/NPP ar negeseuon strategol am newid hinsawdd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1</i>) AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2</i>)	Yn dilyn penodi'r Swyddog Carbon Isel, mae'r swyddog wedi bod yn mynychu cyfarfodydd Sero Net rhanbarthol perthnasol a chyfarfodydd Ynni a Hinsawdd NPUK, yn ogystal â mapio'r strategaethau, adroddiadau a pholisïau perthnasol (mewnol ac allanol) er mwyn i'r Awdurdod gyflawni ei ymrwymadau datgarboneiddio. Mae meysydd targed allweddol fel Teithio Busnes a Fflyd Fusnes (fel y'u nodwyd gan Small World Consulting) yn cael eu trafod trwy ffurfio pwyllgor mewnol.	Parhaus.

Cefnogi partneriaeth strategol â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Sir Benfro ar Adfer Natur a Dal a Chadw Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a chynnal swydd yr arweinydd strategol.

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1</i>) AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2</i>)	Mae ffocws yr arweinydd strategol wedi bod yn fframio canfyddiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf yng nghynhyrchion ysgrifenedig y rôl. Mae teitlau gwaith 'Strategaeth Galluogi' a 'Llyfr Bach o Opsiynau' wedi'u disodli gan 'Tirweddau Dynodedig: Canllawiau Swyddogion er Budd Natur' a 'Ffermio Budd Deuol'. Nod y gwaith hwn yw i staff yr Awdurdod gael 'cydymaith bwrdd gwaith' defnyddiol i'w helpu i gyflawni eu rolau ac i ffermwyr / rheolwyr tir gael cyfeirnod defnyddiol i'w helpu trwy gyfnod o newid dwys gyda rhywbeth a ddylai gyd-fynd yn dda ag unrhyw gynlluniau ffermio sy'n gysylltiedig â'r tirweddau dynodedig. Cwblhawyd drafft terfynol o'r ddogfen/llyfryn ym mis Chwefror. Yn hytrach na chyhoeddi'r llyfryn yn ffurfiol, cytunwyd i drosglwyddo'r gwaith i wefan Tirweddau Dynodedig Cymru i eistedd ochr yn ochr â chanllawiau Rheoli Cynllunio diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y llyfryn yn parhau i fod yn ddogfen fyw ar gyfer ei diweddarau/addasu yn ôl yr angen. Daeth swydd Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal Carbon yn Eryri i ben ddiwedd mis Mawrth.	Cwblhawyd.

AC3 – Gwella rheolaeth a dealltwriaeth o’n treftadaeth ddiwylliannol

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni’r amcan gwella pan:

Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol i’r Awdurdod.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i’w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy’n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i’r amgylchedd hanesyddol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3</i>)	Mae’r gwaith ymchwil pen-desg a chasglu gwybodaeth wedi’u cwblhau. Mae’r gwaith drafftio wedi dechrau. Bwriedir cyflwyno’r drafft i’r Gweithgor Haf 2025.	Gwaith i’w gwblhau erbyn yr Haf 2025.

Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2024/25 wedi’i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i’w gwblhau erbyn 2025. Paratoi adroddiad diweddar i’r Aelodau.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i’w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy’n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i’r amgylchedd hanesyddol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3</i>)	Mae’r cynllun yn mynd rhagddo o fewn yr amserlen a’r gyllideb. Cyflwynir adroddiad diweddar i gyfarfod y Gweithgor Aelodau ym mis Medi. Mae swyddogion yn canolbwyntio ac yn gwneud cynnydd da ar brosiectau etifeddiaeth wrth baratoi ar gyfer diwedd y cynllun.	Parhau i fonitro cynnydd o ran cwblhau erbyn 2025.

Mae Datganiad o Ddiddordeb wedi'i gyflwyno ac mae cyllid Loteri wedi'i sicrhau: Symud ymlaen a chyflawni prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3</i>)	Penderfynwyd cyflawni'r prosiect o fewn cwrpas cyllid grant Tirweddau Cynaliadwy Lleodedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith bellach ar y gweill. Mae sawl agwedd ar y prosiect ar y gweill: gwaith arolwg a chloddio archeolegol gyda Phrifysgol Sheffield, gwaith maes gydag ysgolion cynradd lleol, llyfr dehongli cymunedol Harlech ac arolwg Lidar a fydd yn cael eu cwblhau ym mis Mawrth 2025.	Yn parhau tan Hydref 2025.

Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Cwblhau a gosod Dehongliad o safle Ynysypandy.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3</i>)	Dehongliad Ynysypandy wedi'i gwblhau. Cynhaliwyd gweithdy ar y cyd â Chyngor Gwynedd yng nghymuned Dolbenmaen, i ymgysylltu â'r gymuned a chasglu enwau tirweddau yn yr ardal. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a bwriedir cynnal digwyddiadau o'r fath mewn cymunedau eraill o Safle Treftadaeth y Byd yn ystod 2025.	Gwaith yn mynd rhagddo.

Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3</i>)	Mae swyddogion yn cyfrannu at waith y grŵp drwy fynychu cyfarfodydd chwarterol, gweithdai a chyflawni rhaglen y grŵp.	Monitro cynnydd.

Cynnal a datblygu'r Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3</i>)	Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Awdurdod ym mis Mehefin 2024. Agorwyd arddangosfa o waith celf dros yr haf yn seiliedig ar "Yr Ysgwrn yn Ysbrydoli ~ Yr Ysgwrn Inspires". Mae'r Ysgwrn ar gau dros y gaeaf. Cynhaliwyd tri digwyddiad tymhorol cyn y Nadolig, gan gynnwys gwasanaeth Plygain hynod lwyddiannus. Bwriedir ymestyn y digwyddiad hwn i Gymuned Trawsfynydd yn 2025.	Bydd yr Ysgwrn yn cael ei fonitro'n barhaus yn ystod 2025-26.

Yn dilyn cwblhau'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardaloedd Cadwraeth, cyflawni rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn ategu Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3</i>)	Mae 5 sesiwn sgiliau traddodiadol wedi'u cynnal hyd yma, pob un yn llawn. Cynhelir sesiynau pellach yn 2025. Mae swyddogion yn gweithio tuag at sicrhau achrediad LANTRA i'r Awdurdod ac un contractwr er mwyn ei uwchsgilio i gynnal hyfforddiant codi waliau a phlygu gwrychoedd trwy'r iaith Gymraeg. Mae rhaglen sgiliau'r gwanwyn yn cael ei threfnu ar hyn o bryd.	I'w symud ymlaen fel y cynlluniwyd.

AC4 – Mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd senarios rheoli tir ar ôl Brexit

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2</i>) AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A4.2</i>)	Roedd gan swyddogion rôl flaenllaw yn natblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) yn ogystal â datblygu cynllun Ffermio Cymunedol (Ffermio Bro) ar gyfer y Tirweddau Dynodedig. Mae 2 gais Cronfa Rhwydweithiau Natur (CRhN) 4 wedi'u datblygu a 2 gais Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (CANI). Mae gwaith CFfC yn parhau. Mae'r Cynllun Ffermio Cymunedol (Ffermio Bro) wedi dechrau. Gwrthodwyd ceisiadau CRhN 4 ond fe'u gwahoddwyd i'w hailgyflwyno i CRhN 5 (2025). Mae cynlluniau CANI yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.	Parhaus.

Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos â'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1</i>) AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2</i>) AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>)	Fel uchod, mae gwaith CFfC yn parhau. Mae'r Cynllun Ffermio Cymunedol (Ffermio Bro) wedi dechrau. Gwrthodwyd ceisiadau CRhN4 ond fe'u gwahoddwyd i'w hailgyflwyno i CRhN5 (2025). Mae cynlluniau CANI yn cael eu hasesu ar hyn o bryd.	Parhaus.

AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A4.2</i>)		
--	--	--

AC5 – Mynd i'r afael â'r dirywiad mewn natur

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC5: Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2</i>) AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A4.2</i>)	Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda, bydd dogfen ymgynghori yn cael ei chyflwyno yn ystod gaeaf 2024-25. Rhagwelir y bydd fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod yn haf 2025.	Gwaith parhaus.

Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiaid ag unrhyw ganllawiau sydd ar ddod a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC5: Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau	Mae swyddogion achos yn parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau gwelliant bioamrywiaeth i ymgeiswyr/asiantwyr drwy'r broses cyn ymgeisio a cheisiadau cynllunio. Er mwyn ceisio cynorthwyo ymgeiswyr i ddarparu'r wybodaeth berthnasol, mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi canllaw a ffurflen y gellir eu defnyddio ar gyfer datblygiadau ar raddfa lai	Parhaus.

cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2</i>) AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A4.2</i>)	a datblygiadau gan ddeiliaid tai i gynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen; mae hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r newidiadau a wnaed i Bennod 6 o fewn Polisi Cynllunio Cymru, h.y. y gofyniad i gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Mae tudalen we newydd wedi'i chreu ar wefan yr Awdurdod i esbonio'r manylion sydd eu hangen yn y Datganiad Seilwaith Gwyrdd.	
--	--	--

Unwaith y bydd canllawiau LIC wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol ar fioamrywiaeth yn cael eu cynhyrchu i gefnogi'r broses Rheolaeth Datblygu.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac hangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol anwyddau cyhoeddus ehangach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1</i>) AC5: Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2</i>) AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (<i>yn unol â Chynllun Eryri A4.2</i>)	Dal i aros am canllawiau LIC.	Aros am ganllawiau Llywodraeth Cymru.

Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Cynllun Eryri (e.e. CTL Carneddau, LIFE Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) a datblygu rhaglenni pellach.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1) AC5: Mae dirywiad bioamrywiaeth cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2) AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (yn unol â Chynllun Eryri A4.2)	Mae'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy Dinas Mawddwy bellach wedi'i gwblhau. Treuliwyd llawer o amser yn datblygu Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda'r Llywodraeth. Gwnaed gwaith sylweddol i ddatblygu'r syniad o raglen Ffermio Bro gyda'r Llywodraeth. Mae trafodaethau cynnar ar gynllun ôl-LIFE wedi dechrau.	Mae angen monitro'r prosiectau hyn yn ofalus. Gall trosiant staff fod yn risg i brosiectau o'r fath ac mae angen i'r Awdurdod fod yn ymwybodol o hynny.

Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS).		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1) AC5: Mae dirywiad bioamrywiaeth cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2) AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (yn unol â Chynllun Eryri A4.2)	Mae'r rhaglen hon yn mynd rhagddi'n dda iawn ac yn ein galluogi i ddatblygu nifer o raglenni gwaith cyfalaf a phrosiectau newydd posibl o ganlyniad.	Parhaus.

CYMUNEDAU CYDNERTH	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Byddwn yn cyflawni hyn drwy:							
CC1 Cynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC2 Cefnogi pobl ifanc	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC3 Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC4 Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
CC5 Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

CC1 – Cynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl (<i>yn unol â Chynllun Eryri B1.2</i>) CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2</i>)	Mae gwaith cydweithredol yn parhau rhwng gwasanaethau Cyfathrebu a'r Wardeiniaid. Mae llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo i gyd wedi'u uwchlwytho ar ein gwefan ac mae'r wybodaeth wedi'i chysoni. Mae swyddogion yn chwilio am ffyrdd ychwanegol o hyrwyddo a chyfleu teithiau cerdded gan ddefnyddio adnoddau fel "dronau" i greu clipiau ffilm. Mae mwy o waith hyrwyddo digidol ar deithiau misol y Wardeiniaid a sesiynau Meddwlgarwch wedi golygu cynnydd yn y niferoedd sy'n mynychu'r digwyddiadau. Mae gwaith wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r timau achub mynydd, yr Heddlu a Thrafnidiaeth Cymru mewn ardaloedd poblogaidd i hyrwyddo ymweliadau cynaliadwy a chyfrifol.	Parhaus.

Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr yr Awdurdod ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl (<i>yn unol â Chynllun Eryri B1.2</i>)	Cefnogwyd a chyfranogwyd yng nghynllun gwirfoddoli Caru Eryri 2023-24 gyda phartneriaid gan gynnwys Cymdeithas Eryri. Adlewyrchwyd ac adolygwyd digwyddiadau Gwirfoddoli a Llesiant 2022, diweddarwyd DPA a gosod targedau ac argymhellion newydd ar gyfer 2023. Sefydlwyd rhaglen wirfoddoli am y flwyddyn. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau lles. Mae'r Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant wedi cwblhau'r rhain restrir uchod a chyflwynwyd Adroddiad Blynyddol i'r Aelodau (ym mis Gorffennaf 2024).	Cwblhawyd.

Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer grwpiau a dangynrychiolir, grwpiau agored i niwed a difreintiedig.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl (<i>yn unol â Chynllun Eryri B1.2</i>)	Derbyniwyd a chanmolwyd yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau. Mae'r Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant yn symud ymlaen â'i gwaith mewn ffordd arloesol a blaengar. Bydd y swyddog yn bwydo i'r gyfres o ddigwyddiadau sy'n rhan o adolygiad o Gynllun Eryri (Cynllun Rheoli) a llunio polisiau newydd.	Parhaus.

Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLI.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai	Penderfynir ar geisiadau am dai yn unol â CDLI Eryri, a phennir y ddarpariaeth o dai fforddiadwy o dan Bolisi Datblygu 30. Lle na ellir cyflawni'r targedau tai fforddiadwy dangosol	Parhaus.

fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1)	oherwydd hyfywedd safle, bydd yr Awdurdod yn negodi cyfraniad tai fforddiadwy priodol ar safleoedd unigol. Gall hyn gynnwys yr angen i'r Awdurdod gynnal asesiad hyfywedd annibynnol ac ymgysylltu ag adran Dai'r Cyngor Sir i ganfod y galw lleol a'r gofynion o ran cymysgedd tai ar gyfer yr ardal berthnasol, er mwyn sicrhau y bydd y ddarpariaeth tai yn diwallu'r angen lleol.	
--	---	--

Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i ohirio cynhyrchu'r Adolygiad o CDLI Eryri tan 2025 er mwyn canolbwyntio ar gyflawni Cyfarwyddyd Erthygl 4: Parhau â bwriad yr Awdurdod i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i newid cartref preswyl parhaol yn llety gwyliau neu ail gartref, gyda cherrig milltir allweddol yn cynnwys: Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol cyn Haf 2024; Adrodd yn ôl ar y canfyddiadau a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r dull yn ystod Hydref 2024; Paratoi Canllaw Cynllunio Atodol erbyn Mawrth 2025 a fydd yn darparu canllawiau mwy manwl ar weithredu; a Anelu at gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Mehefin 2025.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC 4: Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad yr iaith Gymraeg (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1) CC1, 2, 4: Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1)	Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, ystyriodd Aelodau'r Awdurdod yr adroddiad ymgynghori yn ystod Pwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ar 22.01.25. Penderfynwyd cadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd canllaw Erthygl 4 yn dod i rym ar y 1af o Fehefin 2025. Yn dilyn y penderfyniad ym Mhwyllgor Cynllunio mis Ionawr, ystyriwyd cynnwys Canllaw Cynllunio Atodol drafft a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Gwanwyn 2025.	Gwaith parhaus.

Parhau i ddarparu cyllid a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol trwy Gronfa Gymunedol Eryri, yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan y cymunedau eu hunain - mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden er mwyn iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis sbwriel a rheoli gwastraff, datblygu cymunedol a'r iaith Gymraeg. Bydd ffenestr ariannu newydd ar gyfer 2024-5 yn agor ac yn cael ei hyrwyddo o'r 18fed o Fawrth 2024.

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl (<i>yn unol â Chynllun Eryri B1.2</i>)	Mae cyllid wedi'i ddyfarnu i 10 prosiect, cyfanswm o £102,688.13. Cwblhawyd yr holl brosiectau o fewn y dyddiad cwblhau a derbyniwyd y grant llawn.	Cwblhawyd.

CC2 – Cefnogi pobl ifanc

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Aelodau i ystyried Maniffesto leuenctid drafft.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC2, 3, 4: Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>)	Cyflwynwyd y Maniffesto i'r Gweithgor Aelodau ar yr 22ain o Fai 2024 a derbyniwyd sylwadau. Wedi hynny, mabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar yr 11eg o Fedi 2024.	Cwblhawyd.

Datblygu cynllun Ceidwaid Ifanc i sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun..

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC2, 3, 4: Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>)	Mae gwaith wedi parhau i greu cyfleoedd i'r ceidwaid ifanc ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae cyfleoedd wedi amrywio ac mewn cydweithrediad â gwasanaethau eraill. Mae gwaith wedi dechrau gyda'r Loteri i geisio cyllid. Yn dilyn ymadawiad y Swyddog Pobl Ifanc, hysbysebwyd y swydd a phenodwyd swyddog newydd i'r swydd. Penderfynwyd adleoli'r swyddog i'r gwasanaeth Partneriaethau a bydd y swyddog yn dechrau yn ei swydd ym mis Ebrill 2025 i weithredu'r Maniffesto a chynlluniau'r Ceidwaid Ifanc.	Wedi'i ohirio ar hyn o bryd.

CC3 – Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy i ychwanegu gwerth i gymunedau lleol

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy a gweithredu Cynllun Strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig. Mae cyfarfod cyntaf y Bartneriaeth Economi Ymweld Cynaliadwy wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2024. Cwblhau Cynllun Gweithredu a gweithredu targedau a dangosyddion cysylltiedig.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2</i>)	Mae'r Cynllun Gweithredu cyntaf wedi'i gynhyrchu a'i gytuno gan y Partneriaid. Bydd pawb yn bwydo i mewn i hyn erbyn mis Mawrth 2025 pan fydd adolygiad a chynllun gweithredu newydd yn cael eu datblygu ar gyfer 2025-26. Mae'r Grŵp Tasg Data yn cael ei ailsefydlu i weithio ar ddangosyddion hirdymor ar gyfer y Cynllun a'u datblygu.	Gwaith yn parhau.
CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafndiaeth wyrddach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2</i>)	Cynhaliwyd y gynhadledd flynyddol gyntaf ar 14.02.25 gyda 130 o fynychwyr - ac roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus. Bydd swyddogion yn dechrau gweithio ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025-26 dros y misoedd nesaf.	

Mae cyfleoedd i annog trafndiaeth fwy gwyrdd yn cael eu datblygu trwy: Mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gyfrannu at Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru a fydd yn helpu i gefnogi gweledigaeth trafndiaeth gynaliadwy ar gyfer Eryri. Gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun darparu parcio a thrafnidiaeth Gogledd Eryri drwy'r Grŵp Cyflawni. Parhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Nantgwynant. Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid i fynd i'r afael â materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2</i>)	Mae cyfarfodydd rheolaidd yn parhau i gael eu cynnal. Fe wnaethom ni weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru o fis Mehefin – Tachwedd 2024 drwy secondiad er mwyn gwella cyswllt rhwng Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru/ Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth	Parhau i weithredu a monitro cynnydd/problemau.

CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2</i>)	Cymru a'r Heddlu. Atebodd y gwaith broblemau tymor byr – bydd angen canllawiau strategol rhanbarthol i gytuno ar ymatebion tymor hir. Parhau i bwysu am ganllawiau strategol gan Lywodraeth Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Cynghorau Gwynedd a Chonwy drwy ein perthynas â Thrafnidiaeth Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.	
--	---	--

Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri. Cyflwyno dau fodiwl newydd yn 2024 ar y Coedwigoedd Law Geltaidd a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2</i>) CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2</i>) CC2, 3, 4: Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>)	Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd. Mae'r swyddogion/gwasanaethau perthnasol yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer modiwlau newydd. Mae'r cynllun yn mynd o nerth i nerth ac mae dros 1200 o bobl bellach wedi cymhwyso fel Llysgenhadon Eryri. Gwaith parhaus – mae gwaith wedi'i gwblhau ar gyfer modiwl ail-gymhwyso ar gyfer 2025 ac wedi'i lansio. Bydd modiwl ar Gynllun y Carneddau yn mynd yn fyw ddechrau 2025 a bydd modiwl penodol ar negeseuon diogelwch a Mentrau'n Gall yn cael ei lansio yn 2025.	Parhau i ddatblygu Llysgenhadon Eryri.

Sicrhau bod y CDLI presennol yn gweithredu ei bolisïau'n gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth i gymunedau lleol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2</i>) CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2</i>)	Mae polisïau CDLI Eryri sy'n ymwneud â thwristiaeth gynaliadwy yn cael eu gweithredu'n effeithiol.	Gwaith yn mynd rhagddo'n dda.

Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni drwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth gynaliadwy yn llwyddiannus.

Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun.

Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLI fel rhan o'r broses CDLI mewn perthynas â pholisïau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.

Cynorthwyo'r Grŵp Cyflawni i gwblhau a gweithredu Cynllun Cyflawni.

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2</i>) CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafndiaeth wyrddach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2</i>)	Mae swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri yn gwneud eu gorau glas i symud y gwaith ymlaen – mae angen ymrwymiad partneriaid eraill er mwyn i'r gwaith ddigwydd. Cafodd y Grŵp Cyflawni ei gyfarfod diwethaf ym mis Mawrth. Ni fydd Trafnidiaeth Cymru yn cydlynu'r cyfarfod/gwaith o hyn ymlaen oherwydd newid mewn staff a swyddogion. Bydd angen i'r Partneriaid ystyried y ffordd orau o symud ymlaen.	Gwaith yn parhau.

CC4 – Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg yn weithredol

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Diogelu a hyrwyddo defnydd enwau lleoedd Cymraeg drwy gwblhau cam nesaf safoni enwau lleoedd Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 4: Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl (<i>yn unol â Chynllun Eryri B1.2</i>) CC2, 3, 4: Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>) CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>) CC4: Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2</i>)	Rhaglennwyd a chwblhawyd rhaglen o ddigwyddiadau haf. Cwblhawyd rhaglen gweithgareddau'r hydref yn llwyddiannus, gan gynnwys Gŵyl Amgueddfeydd Cymru. Cynhaliwyd rhaglen gweithgareddau'r Nadolig yn llwyddiannus a bwriedir ehangu ar y cynnig hwn yn 2025 trwy brosiectau yng nghymuned Trawsfynydd.	Parhaus.

Diogelu a hyrwyddo defnydd enwau lleoedd Cymraeg drwy gwblhau cam nesaf safoni enwau lleoedd Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>) CC4: Byddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3</i>)	Mae gwaith ar y rhestr o enwau copaon, rhaeadrau a bylchau ar y gweill. Cwblhawyd y gwaith yn yr hydref ac mae wedi'i drosglwyddo i swyddogion yr Awdurdod am eu mewnbyn. Bydd y grŵp craffu "Enwau Lleoedd" yn cyfarfod dros yr haf yn 2025 i gymeradwyo'r rhestr derfynol o enwau copaon, rhaeadrau, bylchau a llynnoedd. Mae wardeiniaid yr Awdurdod bellach wedi creu cannoedd o glipiau sain o enwau nodweddiol tirwedd Eryri sydd bellach ar gael ar Wicipedia a gwefan Comisiynydd y Gymraeg. Dros yr haf bydd swyddogion yn trafod sut y gall APC Eryri ddefnyddio'r rhestr er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac annog defnydd o'r enwau safonol.	Parhaus.

Datblygu cyfleoedd i ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Gymraeg yr ardal gan gynnwys: Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>) CC4: Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2</i>)	Mae gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu partneru â'r rhai sy'n siaradwyr rhugl ac mae'r holl wybodaeth a deunyddiau ar gyfer gwirfoddolwyr ar gael yn y ddwy iaith.	Yn parhau.

Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweiliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>) CC4: Byddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3</i>)	Cynhaliwyd dwy sesiwn cofnodi enwau lleoedd lleol yn ardal y Carneddau. Roedd sesiynau Penmachno a Chapel Curig wedi'u rhaglennu ar gyfer dechrau 2025. Bydd enwau gweddill ardal y Carneddau yn cael eu casglu yng Ngwanwyn/Haf 2025. Mae diwrnodau cofnodi enwau lleoedd wedi'u cynllunio ar gyfer 2024.	Gwaith yn parhau.

Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: Yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>) CCC 4: Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>)	Mae'r Adroddiad Monitro Blyneddol a gyflwynir i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i'r casgliad bod y polisi uchod yn cael ei weithredu'n effeithiol.	Parhaus.

CC5 – Datblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad a rheolaeth Eryri fel Parc Cenedlaethol

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisiâu cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2</i>) CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2</i>)	Daeth Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) y CDLI a gyflwynir i Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod y polisiâu uchod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn 2025 yn rhoi cyfle i adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol i ganfod a oes angen newid unrhyw bolisi neu ddulliau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd.	Parhaus.

Cyflwyno adroddiad monitro blyneddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CC1, 3, 5: Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-dddefnyddwyr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1</i>) CC1, 2, 3, 5: Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2</i>) CC1,3,5: Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2</i>) CC4, 5: Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth (<i>yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1</i>)	Mae hyn wedi ei wneud gan swyddogion, a phenderfynwyd i'r adolygiad gychwyn yn 2025 (penderfynwyd ei ohirio am flwyddyn er mwyn caniatáu amser i swyddogion weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4).	Parhaus.

FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Mwy Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant Bywiog	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Byddwn yn cyflawni hyn drwy:							
CW1 Datblygu gweithlu medrus	✓	✓	✓				
CW2 Datblygu a hyrwyddo arfer gorau	✓	✓	✓	✓			
CW3 Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth	✓	✓	✓	✓	✓		
CW4 Moderneiddio trefniadau llywodraethu	✓	✓		✓			✓
CW5 Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol		✓	✓	✓	✓	✓	✓
CW6 Cydbwyso Adnoddau ac Ymdrechion yr Awdurdod		✓					✓

CW1 – Datblygu gweithlu medrus

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad: Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis. Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW1, 2: Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.	Cafwyd cefnogaeth gan y Cyfarwyddwyr i annog rheolwyr llinell i gwblhau gwerthusiadau'n brydlon, sydd wedi cynyddu nifer y gwerthusiadau a gynhaliwyd hyd yn hyn eleni. Mae'r fformat gwerthuso yn asesu lefelau perfformiad staff ac yn nodi gofynion hyfforddi i wella perfformiad gwaith neu hyfforddiant a fyddai'n paratoi staff ar gyfer dilyniant gyrfa o fewn yr Awdurdod. Anogir rheolwyr llinell i gynllunio eu gwerthusiadau staff mewn da bryd, gan sicrhau eu bod yn cyd-daro â chyfnodau tawelach.	Gweithrediad parhaus.

	Mae Swyddog Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod wedi dechrau adolygiad manwl o hyfforddiant penodol ar gyfer swyddi o fewn yr Awdurdod. Hyd yn hyn mae'r broses wedi tynnu sylw at anghenion hyfforddi allweddol i sicrhau bod gan staff y sgiliau angenrheidiol i ragori yn eu rolau. Wrth i'r adolygiad barhau, gallwn ddisgwyl gweld mwy o argymhellion ar gyfer hyfforddiant penodol i swyddi sy'n helpu i gefnogi datblygiad proffesiynol ymhellach a chryfhau ein gweithlu.	
--	---	--

Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau.

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW1, 2: Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.	Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cyfoedion. Mae llawer mwy o gyrsiau wedi cael eu hychwanegu at ELMS, ein system hyfforddi ar-lein sy'n darparu nifer o gyrsiau hyfforddi dwyieithog i gynorthwyo staff a'u hysbrydoli i symud ymlaen a dysgu disgyblaethau newydd.	Parhaus.

Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol.

Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW1, 2: Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.	Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol. Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol. Rhwng y cyrsiau hyfforddi allanol sydd wedi'u trefnu a'r nifer sydd ar gael trwy ELMS (porth dysgu ar-lein) mae llawer mwy o gyfleoedd hyfforddi ar gael i staff. Mae polisi dysgu a datblygu wedi'i greu sy'n amlinellu cefnogaeth yr Awdurdod i staff i wella eu gallu ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'w cynorthwyo.	Parhaus.

CW2 – Datblygu a hyrwyddo arfer gorau

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystad gyhoeddus ehangach.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.	Gwaith yn parhau. Mae'r Pennaeth Eiddo yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru, a bydd y Swyddog Carbon newydd yn ymuno pan fydd yn ymgymryd â'r rôl er mwyn nodi cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio â phartneriaid.	Parhaus.

Gwella Ymgysylltiad a Mentrau Llesiant Staff. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu gweithredu sawl strategaeth i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles: Ymchwilio a mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd ar gyfer staff i flaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch. Dadansoddi Absenoldebau Salwch: Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldebau salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo llesiant cyffredinol a lleihau absenoldeb. Cynyddu Rhwydweithio Staff: Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff yn amlach, gan gynnwys ciniawau a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW1, 2: Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.	Dechreuwyd cynnal asesiadau iechyd staff gyda'r grŵp cyntaf yn cael profion pwysedd gwaed, golwg, clyw, ysgyfaint a chlefyd sigwr. Rydym wedi dechrau adrodd yn chwarterol i'r tîm rheoli ar nifer yr absenoldebau oherwydd salwch fesul adran er mwyn creu ffocws ar y lefelau a'r rhesymau dros yr absenoldebau. Mae asesiadau risg straen a Chynlluniau Gweithredu Llesiant yn cael eu creu gydag aelodau staff sy'n absennol oherwydd materion sy'n gysylltiedig â straen neu sydd wedi dychwelyd yn ddiweddar o gyfnod o absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen. Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i staff, cynhaliwyd cyfarfod i'r holl staff,	Gwaith parhaus

	gan roi cyfle i'r Prif Weithredwr newydd siarad yn uniongyrchol â staff ac roedd y digwyddiad yn cynnwys sesiwn benodol ar lesiant staff, straen yn y gweithle ac iechyd meddwl. Cefnogaeth Iechyd Meddwl a Llesiant: Mae'r Awdurdod wedi penodi a hyfforddi Cynorthwyydd Cymorth Iechyd Meddwl a Hyrwyddwr Llesiant o fewn ein gweithlu presennol. Bydd yr unigolion hyn yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi staff, hyrwyddo mentrau llesiant, ac annog agwedd gadarnhaol tuag at iechyd a llesiant ar draws y sefydliad. Offeryn Dangosydd Straen HSE: Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno offer dangosydd straen (HSE – Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch). Bydd hyn yn ein galluogi i asesu lefelau straen ar draws y gweithlu ac i nodi meysydd allweddol lle gallai fod angen cefnogaeth neu adnoddau ychwanegol. Bydd yr adborth yn amhrisiadwy i'n helpu i ddeall ac ymdrin ag unrhyw heriau y mae staff yn eu hwynebu.	
--	---	--

CW3 – Gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus a chyflwyno'r adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf a'r ail i'r Awdurdod. Cyflwyno trydydd adroddiad blynyddol i'r Awdurdod.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.	Cyflwynwyd y trydydd adroddiad cynnydd blynyddol i'r Aelodau yn ystod y Gwanwyn ac mae copi ar gael ar wefan yr Awdurdod. Bydd Cynllun Eryri yn cael ei adolygu yn 2025 gyda gwaith paratoi eisoes ar y gweill.	Monitro parhaus yn ystod oes Cynllun Eryri.

Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (PTDC) yng Nghymru.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.	Rhennir arfer da a gwybodaeth am ddod o hyd i grantiau a'u cael rhwng aelodau'r bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd. Cynhaliwyd seminar Partneriaeth 2024 ym mis Mai. Cafwyd trafodaethau diddorol ac addysgiadol ymhlith y nifer dda a oedd yn bresennol.	Parhaus.

Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.	Mae'r Prif Weithredwr yn mynychu pob cyfarfod yn ôl yr angen. Mae mentrau cydweithredol yn cael eu datblygu gan wahanol wasanaethau ledled yr Awdurdod wrth i gyfleoedd godi.	Adolygu trefniadau maes o law.

Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth gynllunio Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru (CJC).		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.	Mae'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn parhau i fynychu cyfarfodydd. Mae swyddog o Barc Cenedlaethol Eryri wedi cael ei gyfethol ar Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol Gogledd Cymru. Mae Cadeirydd Eryri wedi cael ei gyfethol ar yr is-grwpiau Economaidd a Llesiant a Chynllunio.	Parhaus.

Er mwyn cyflawni adolygiad Cynllun Eryri 2025 yn unol â'r amserlen, mae data ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc wedi'i gasglu a'i ddehongli gyda mewnbwn gan gydweithwyr mewnol ac allanol erbyn diwedd 2023. Cyflwyno adroddiad cryno i'r Aelodau.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW2, 3: Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.	Mae'r adroddiad wedi'i gyflwyno i Aelodau a Phartneriaid drwy gyfrwng Fforwm Eryri. Mae gwaith i ddatblygu Micro-wefan wedi'i gwblhau a bydd gwefan yn cael ei chreu a'i rhannu gyda staff ac aelodau ym mis Mawrth 2025. Bydd y Wefan yn cael ei lansio'n llawn yn ddiweddarach yn y mis.	Mae'r amserlen wreiddiol wedi llithro ond mae'r gwaith nawr wedi'i gwblhau.

CW4 – Moderneiddio trefniadau llywodraethu

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW2, 4: Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.	Mae presenoldeb yr Aelodau wedi bod yn gyson ac yn uchel drwy gydol 2024-25.	Cwblhawyd.

Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygiad. Parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i fireinio a chyflawni rhaglen hyfforddi ar egwyddorion arfer llywodraethu da ac atebolrwydd i Aelodau'r Awdurdod.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW2, 4: Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.	Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi "Llywodraethu Ariannol Effeithiol" ym mis Mehefin ac mae dyddiad wedi'i drefnu ar gyfer sesiwn hyfforddi "Risgiau Llywodraethu" ar gyfer diwedd y flwyddyn. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi Llywodraeth Cymru ar "Llywodraethu Risg" ym mis Tachwedd. Yn anffodus, roedd	Parhau i gefnogi'r Aelodau drwy hyfforddiant a datblygiad.

	nifer yr Aelodau a oedd ar gael i ymuno â'r sesiwn yn isel. Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Aelodau ym mis Mawrth gyda 56% o'r Aelodau'n bresennol. Yn ystod mis Mawrth cynhaliwyd sesiwn hyfforddi Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Cynaliadwy gyda 37.5% o'r Aelodau'n mynychu'r sesiwn.	
--	---	--

CW5 – Cynnal a gwella dealltwriaeth a chefnogaeth cymunedau lleol i waith y Parc Cenedlaethol

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. <i>(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)</i> CW5: Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol <i>(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2)</i> CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol <i>(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)</i>	Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn greiddiol i fodel busnes Yr Ysgwrn ac yn allweddol i gyflawni sawl agwedd o weithgaredd, e.e. ymweliadau grŵp ac ysgolion, ac mae nifer sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd. Mae denu mwy o wirfoddolwyr rheolaidd yn parhau i fod yn her.	Parhaus.

Gweithredu a monitro mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu Cyfathrebu trwy'r adroddiad blynyddol ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi (yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1) CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)	Llithrodd y gwaith ar gasglu data ac ni chafodd ei adrodd i'r Aelodau ym mis Mawrth 2025 fel y cynlluniwyd. Fodd bynnag, fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2025.	Parhaus.

Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi (yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1) CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)	Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i roi diweddariad i a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill yn cael eu codi a'u trafod yn ôl yr angen. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad y CDLI.	Mynd rhagddo.

Chydgysylltu gyda pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu	Cynhelir cysylltiad parhaus drwy gyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol a gynhelir 3 gwaith y flwyddyn yng ngogledd a de'r Parc Cenedlaethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd y Fforwm yn y gwanwyn a'r haf	Yn parhau.

nodi (<i>yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1</i>) CW5: Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (<i>yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2</i>) CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (<i>yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1</i>)	gyda chyfarfodydd pellach wedi'u trefnu i ddigwydd ym mis Chwefror 2025. Fel diweddariad, oherwydd salwch swyddogion, canslwyd cyfarfodydd mis Chwefror 2025.	
--	---	--

Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi (<i>yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1</i>) CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (<i>yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1</i>)	Cyfarfod Blynnyddol y Grŵp Cyswllt Amaethyddol wedi'i gynnal ar yr 8fed o Ionawr 2025.	Cwblhawyd.

Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflawni Cynllun Eryri, Ilunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW5: Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi (<i>yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1</i>)	Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned ar gyfer yr Awdurdod. Cynhyrchwyd Strategaeth ddrafft, a chaiff ei chyflwyno i'r Tîm Rheoli ac yna i'r Awdurdod pan fydd wedi'i chwblhau.	Parhaus.

CW5: Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (<i>yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2</i>) CW5: Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (<i>yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1</i>)		
--	--	--

CW6 – Cydbwysio Adnoddau ac Ymdrechion yr Awdurdod

Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan gwella pan:

Gan ddefnyddio dull deul, adolygu model gweithredu Plas Tan y Bwlch: Ceisio gweithio mewn partneriaeth ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch; a symud ymlaen â pharatoadau ar gyfer gwerthu'r eiddo ar y farchnad agored rhag ofn nad yw gweithio mewn partneriaeth yn ymarferol.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW6: Byddwn yn cyflawni o fewn y gyllideb a ddyrannwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy	Cyflwynwyd papur i'r Awdurdod ym mis Tachwedd pan gytunwyd y byddai swyddogion yn symud ymlaen â thrafodaethau – ar y pryniant posibl, mynediad i'r coetiroedd a Llyn Mair cyn adrodd yn ôl i'r Awdurdod ar 30 Ebrill 2025.	Ers hynny mae datblygiadau wedi golygu newid cyfeiriad a fydd yn cael ei adlewyrchu yn rhaglen waith y flwyddyn nesaf.

Adolygu ffioedd parcio ceir yr Awdurdod ac, os yw'n berthnasol, symud ymlaen â gwaith paratoadol ar gyfer cynyddu'r ffioedd yn unol â darparwyr parcio ceir eraill yn yr ardal.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW6: Byddwn yn cyflawni o fewn y gyllideb a ddyrannwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy	Mae cyngor cyfreithiol wedi dod i law yn cadarnhau y gellid defnyddio systemau camera adnabod rhifau (ANPR) ar safleoedd APC Eryri. Dim ond ar gyfer meysydd parcio Betws y Coed, glannau Llyn Tegid a Llangywer y bydd treialon a chasglu data yn digwydd yn ystod tymor yr haf 2025 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw sgîl-ffeithiau negyddol. Mae ceisiadau	Parhaus.

	cynllunio priodol ar y gweill. Cyflwynwyd papur diweddarau yn ystod cyfarfod y Gweithgor ym mis Mawrth 2025 a chynhaliwyd trafodaethau yn ystod Diwrnod Datblygu Aelodau ym mis Mawrth a chytunwyd i adolygu'r strwythur a'r ffioedd parcio ym mis Hydref 2025 i'w gweithredu o 1af Ebrill 2026.	
--	--	--

Datblygu adolygiad o botensial masnachol Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod.		
Dangosydd Perfformiad	Canlyniad	Camau i'w Cymryd
CW6: Byddwn yn cyflawni o fewn y gyllideb a ddyrannwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy	Mae cwmni Penseiri Cadwraeth, Donald Insall Associates, wedi cael eu penodi i arwain y gwaith, gan gynnwys rhaglen ymgysylltu cymunedol. Mae'r grŵp prosiect wedi cadarnhau bod y prif themâu gyda'r penseiri a'r opsiynau yn parhau. Mae cais wedi'i gyflwyno i Croeso Cymru am gymorth ariannol i wireddu cam 1 y prosiect datblygu.	Parhaus.

Gwerthusiad o'r cynnydd hyd yma:

Gellir gweld bod cynnydd da wedi'i wneud wrth gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn. O ystyried yr ystod eang o waith efallai nad yw'n syndod bod rhai agweddau nad ydynt wedi'u cwblhau yn unol â'r cynllun, yn enwedig o ystyried maint y gwaith dan sylw o ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'n galonogol nodi bod mwyafrif y prosiectau naill ai wedi'u cwblhau neu ar amser. Er bod pryderon am sefyllfa gyllido uniongyrchol yr Awdurdod wedi lleihau rhywfaint, mae ariannu'r Awdurdod yn y dyfodol yn parhau i fod yn achos pryder mawr. Mae'r Awdurdod yn parhau i ddangos cadernid sylweddol wrth addasu a pharhau i ddarparu gwasanaeth tra ar yr un pryd yn cynllunio ar gyfer y dyfodol yn ystod y cyfnod anodd hwn ond mae toriad yn y byd go iawn sydd ohoni yn sicr o effeithio ar ei allu i gyflawni.

7. RHEOLI PERFFORMIAD

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, gwnaed nifer o gynigion ar gyfer gwella a chafodd y rhain eu hailadrodd yn yr adroddiad. Bydd Archwilio Cymru yn monitro cynnydd yn eu herbyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn yr adroddiadau cenedlaethol fel rhan o'u gwaith asesu gwelliant.

8. Y FFRAMWAITH GWELLIANT

Mae gan Aelodau'r Awdurdod ran annatod i'w chwarae wrth sicrhau bod y fframwaith gwelliant yn darparu proses gadarn ar gyfer sicrhau ein bod yn cyflawni allbynnau llwyddiannus.

Fel rhan o'r broses hon, mae'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystyried adroddiadau chwarterol ar weithrediad Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod am y flwyddyn sy'n asesu llwyddiant yr Awdurdod wrth gyflawni ei Amcanion Llesiant.


Mae'r broses werthuso a ddilynir gyda holl staff yr Awdurdod yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro ac mae'n gyfle i'r staff gael adrodd ar ddiwedd tasgau unigol mewn perthynas â'r Amcanion Gwelliant yn ogystal ag unrhyw broblemau y deir ar eu traws.

Mae'r fframwaith gwelliant wedi'i nodi ar y dudalen nesaf.



Yr EDEFYN AUR

Fframwaith Cynllunio Corfforaethol Parc Cenedlaethol Eryri



9. MANYLION CYSWLLT

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon, cysylltwch naill ai drwy ysgrifennu neu e-bostio:

Iwan Jones

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Director of Corporate Services

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri / Eryri National Park Authority®

Ffôn / Phone: 01766 772204

e-bost / e-mail: ewan.jones@eryri.llyw.cymru

www.eryri.llyw.cymru

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	10 Medi 2025
TEITL	PLAS TAN Y BWLCH – DIWEDDARIAD
ADRODDIAD GAN	Y Prif Weithredwr
PWRPAS	I roi diweddariad byr ar gynnydd prosiect Plas Tan y Bwlch

1. Cyflwyniad

- Efallai y bydd yr Aelodau'n cofio i mi gyflwyno eitem i'r Awdurdod ar Blas Tan y Bwlch fis Ebrill diwethaf. Cymeradwywyd sawl argymhelliad o dan yr eitem hon, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yn y Cofnodion Drafft isod. Fel y gallwch weld, roedd ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yng Nghyfarfod nesaf yr Awdurdod, a dyna pam mae'r adroddiad hwn ger eich bron heddiw.

Detholiad o Gofnodion Drafft Cyfarfod yr Awdurdod Llawn, Ebrill 2025:

“Argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo:—

- Bod Swyddogion yn ceisio cadw Plas Tan y Bwlch yn amodol ar sicrhau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda'r bwriad o adleoli swyddfeydd o Benrhyndeudraeth i'r Plas, gan gynnwys cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ar gyfer yr eiddo;*
- Bod Swyddogion yn dilyn y llwybr hwn ymhellach trwy wneud cais am Grant y Loteri Genedlaethol yr haf hwn;*
- Bod Swyddogion yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli disgwyliadau drwy gydol y broses hon, gan nodi y byddai'r Plas yn mynd yn ôl ar werth pe bai'r cais am grant yn methu; ac*
- Os bydd y dull ariannu grant yn aflwyddiannus, dylai'r Awdurdod gadw rheolaeth ar y coetiroedd a Llyn Mair yn unol â'r cynllun yn Atodiad A, beth bynnag fo'r penderfyniad a wneir ar Blas Tan y Bwlch;*
- Bod Swyddogion yn parhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn agos drwy gydol y broses hon, gan gynnwys cyflwyno mesurau i leihau'r diffyg presennol yn y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol hon;*
- Bod yr Awdurdod yn ystyried y mater hwn ymhellach ac unrhyw gynnydd a wneir yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.*

Penderfynwyd: — mabwysiadu'r argymhelliad.”

3. Trosolwg Byr o'r Sefyllfa Bresennol

4. I'ch atgoffa yn fyr, y weledigaeth gyffredinol ar gyfer Plas Tan y Bwlch yw adleoli pencadlys Awdurdod y Parc Cenedlaethol o'n canolfan bresennol ym Mhenrhyndeudraeth i'r Plas. Byddai'r Plas yn dod yn safle cymysg ei ddefnydd – a fyddai nid yn unig yn gartref i'n swyddfeydd ond hefyd i ddefnyddiau eraill – a allai fod yn addysgol, cymunedol, preswyl, manwerthu a/neu gaffi. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd hwn yn brosiect gwerth £9M – bydd y gost gyffredinol hon yn gliriach erbyn diwedd y flwyddyn galendr.
5. Byddai cael ein pencadlys yn y Plas yn darparu 'angor' i'r adeilad gan ddarparu rhywfaint o ddiogelwch ar gyfer ei ddyfodol, nad yw wedi bodoli o'r blaen. Byddai sicrhau dyfodol yr adeilad eiconig hwn (rhestredig Gradd II*) a'r Parc a'r Ardd Hanesyddol Gofrestredig cyfagos (hefyd wedi'u rhestru Gradd II*) yn etifeddiaeth bwysig i'r ardal leol a'r Parc Cenedlaethol ehangach. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y bu eisoes cryn graffu ar fater tynged yr adeilad oherwydd y cyddestun ariannol heriol yr ydym yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd (fel llawer o'r sector cyhoeddus). Byddai hefyd yn gyfle i greu amgylchedd cyffrous a chreadigol i'n swyddfeydd, a dod â'r Awdurdod yn llawer agosach at y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill a allai ddefnyddio'r safle.
6. Sefydlwyd 'grŵp swyddogion' i helpu i symud y prosiect hwn ymlaen, ac mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwahanol agweddau ar y gwaith sydd o'n blaenau – gan gynnwys materion yn ymwneud â chynllunio, treftadaeth, cynllunio ariannol, cyfathrebu, rheoli ystadau, ac ati.
7. Naomi Jones (Cyfarwyddwr Rheoli Tir) yw rheolwr y prosiect am gais Grant Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac rwyf fi, ynghyd â sawl aelod o staff, hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn cefnogi'r broses hon. Byddwn wrth gwrs yn ymdrechu i gadw'r Aelodau'n gyfredol wrth i'r prosiect hwn ddatblygu.

8. Cais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF)

9. Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod y prosiect hwn yn ddibynnol ar gyllid allanol, ac ystyrir mai'r NLHF yw'r cyfle gorau i sicrhau'r lefel o grant sydd ei hangen i wneud y prosiect yn llwyddiannus. Wrth gwrs, rydym hefyd yn monitro ffynonellau eraill o gyllid grant - er enghraifft, bydd y grant a fydd yn olynu cronfa Ffyniant Bro'r flwyddyn ariannol nesaf yn cael ei ystyried yn ofalus.
10. Fe wnaethom adrodd ar lafar yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod ein bod wedi cyflwyno 'Mynegiant o Ddiddordeb' i'r NLHF ac wedi derbyn ymateb cadarnhaol ym mis Ebrill yn ein gwahodd i gyflwyno cais am grant. Darparwyd rhywfaint o adborth gan yr NLHF ar y cam hwn ac roedd rhai o'r materion allweddol a gododd o'r adborth hwn yn cynnwys:

- Ymholiad ynghylch capasiti sefydliadol yr Awdurdod o ystyried ymrwymadau cyllid grant eraill sydd gan yr Awdurdod – ac i sicrhau bod digon o adnoddau staff i gyflenwi ceisiadau cyfnod datblygu a chyflenwi.
- Y “gallu i gynnal buddsoddiad gan gyllidwyr” – yn y bôn, mae hyn yn cyfeirio at yr angen i'r Awdurdod ystyried yn llawn hyfywedd hirdymor yr adeilad i'r dyfodol.
- Gofynnir am well disgrifiad ynghylch nifer y swyddi a'r rolau posibl a grëir gan y cais.
- Angen ystyriaeth lawnach i “Egwyddor Buddsoddi Amgylcheddol” yr NLHF; ac
- Anogaeth i roi pwyslais llawn ar gynaliadwyedd hirdymor unrhyw fuddsoddiad a'i etifeddiaeth gysylltiedig.

11. Rydym wedi ystyried yr adborth a ddarparwyd a bydd hyn yn cael ei ymgorffori yn ein cais am gyllid grant NLHF.

12. Yn dilyn proses dendro gystadleuol, mae Donal Insall Associates bellach wedi cael y comisiwn i weithio gyda'r Awdurdod i baratoi cynlluniau a dogfennaeth i gefnogi ein cais ar gyfer 'cyfnod datblygu' cais y Loteri. Dechreusant eu gwaith ar ddechrau'r mis hwn a'u briff yw:

- paratoi cynllun busnes wedi'i gostio a fydd yn asesu'r canlynol:
 - i. gofynion ar gyfer gofod pencadlys APCE
 - ii. y potensial ar gyfer mannau busnes a chymunedol (e.e. caffi, siop, hyfforddiant sgiliau, llogi ystafelloedd cyfarfod, digwyddiadau, ac ati)
 - iii. gofynion / potensial gweithgareddau eraill a allai gynnwys coetiroedd, llwybrau a gerddi Plas.
 - iv. Defnyddio effeithlonrwydd ynni a chyfleoedd i leihau ôl troed carbon a chostau rhedeg Plas.
 - v. Cyfleusterau cynadledda, ystafelloedd cyfarfod, mannau cymunedol, gofod arddangos (mannau hyblyg, aml-ddefnydd).
- Asesu opsiynau pensaernïol ar gyfer y datblygiad arfaethedig
- Asesu opsiynau pensaernïaeth tirwedd ar gyfer adfer y parc a'r ardd hanesyddol gofrestredig, gan gynnwys cynhyrchu arolwg cyflwr o erddi Plas Tan y Bwlch.
- Asesu opsiynau ar gyfer defnyddio ynni cynaliadwy a charbon isel a chyfleoedd i osod systemau adnewyddadwy a fydd yn lleihau costau rhedeg.

13. Bydd rhaid i waith Donal Insall Associates ar y cais gael ei gwblhau erbyn mis Ionawr 2026 er mwyn i'r Awdurdod ei gyflwyno i'r NLHF ym mis Chwefror 2026. Erbyn yr Haf, byddwn yn gwybod a ydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer y Cyfnod Datblygu – bydd hyn tua £325,000, a bydd yn cynnwys 2 swyddog am gyfnod o

tua 18 mis. Bydd y cais ar gyfer y Cyfnod Cyflenwi tua £9M gyda thua 80% o hyn yn dod o'r grant NLHF. Bydd y Cyfnod Cyflenwi yn para hyd at 5 mlynedd.

14. Os bydd amser yn caniatáu, byddwn yn rhoi crynodeb i'r Aelodau o'r gwaith sy'n dod i'r amlwg mewn cyfarfod o'r Gweithgor yn ddiweddarach yn y flwyddyn (Tachwedd neu Ragfyr, yn fwyaf tebygol). Mae'n debyg y bydd sesiwn galw heibio gyhoeddus i eraill weld y cais grant ar gyfer y cyfnod datblygu sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud cyn hynny.

15. Ymgysylltiad y Gymuned

16. Rwy'n credu ei bod yn hanfodol ein bod yn gweithio ochr yn ochr â'r gymuned leol ar y prosiect hwn, a byddwn yn eu hysbysu am gynnydd wrth i'r gwaith ddatblygu. Rydym eisoes wedi eu hysbysu o'n bwriad trwy sesiynau galw heibio, e-byst a thrwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ac mae'r Cyfarwyddwr Rheoli Tir wedi mynychu cyfarfodydd y 6 Chyngor Cymuned a Thref sydd agosaf at Blas Tan y Bwlch (Maentwrog, Ffestiniog, Porthmadog, Penrhyndeudraeth, Talsarnau a Llanfrothen). Hyd yma, mae'r adborth a gawsom gan y gymuned leol wedi bod yn gadarnhaol, ac rydym yn dymuno adeiladu ar y berthynas gadarnhaol hon dros y misoedd nesaf.

17. Y Weledigaeth

18. Er bod y weledigaeth gyffredinol yn dal i esblygu ar hyn o bryd, credaf fod y prosiect hwn wedi dal dychymyg llawer o'n staff, Aelodau, partneriaid allweddol, a gobeithio'r gymuned ehangach hefyd. Mae'n gyfle gwych i ailddefnyddio un o adeiladau a gerddi mwyaf arwyddocaol y Parc Cenedlaethol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol.

19. Rheoli Disgwyliadau

20. Fel yr ydym eisoes wedi pwysleisio sawl gwaith, mae rheoli disgwyliadau yn rhan bwysig iawn o'r prosiect hwn. Er bod cyffro cynyddol ynghylch yr hyn y gallai'r prosiect ei gyflawni, mae'n bwysig deall bod y prosiect yn ddibynnol ar grantiau. Pe bai unrhyw gais am grant yn methu, mae'n debygol y byddai'n rhaid i ni ddychwelyd i'r sefyllfa flaenorol o roi'r Plas ar werth ar y farchnad agored. Hefyd, os, am ba bynnag reswm, y byddwn yn dod i'r casgliad nad yw'r prosiect hwn yn gwneud synnwyr ariannol (ddim yn hyfyw yn weithredol i'r Awdurdod) nac yn swyddogaethol (ddim yn gallu darparu ar gyfer swyddogaeth bencadlys ymarferol), yna'n amlwg ni fyddem yn mynd ar drywydd yr opsiwn ymhellach.

21. Adnoddau

22. Ar hyn o bryd, y prif oblygiad o ran adnoddau yw'r defnydd o amser swyddogion. Sefydlwyd grŵp swyddogion, er y bydd y prif ymrwymiad amser yn disgyn ar Naomi Jones sydd, fel yr eglurwyd, yn rheoli'r prosiect cais Cyfnod Datblygu

NLHF. Defnyddiwyd adnoddau presennol yr Awdurdod i gomisiynu Donald Insall Associates i helpu i baratoi cais yr NLHF. Bydd y cais am gyllid Cyfnod Datblygu tua £325,000, a rhagwelir y bydd tua 90% o hyn yn dod o grant NLHF. Mae hyn yn gadael cyfraniad o tua £32,500 gan yr Awdurdod a/neu sefydliadau partner. Bydd y sefyllfa hon yn dod yn gliriach wrth i'r broses ddatblygu dros y misoedd nesaf, a byddwn yn diweddarau'r Awdurdod unwaith y bydd mwy o fanylion yn hysbys.

23. Y Pencadlys Presennol

24. Mae nifer o bobl wedi holi am ddyfodol y pencadlys presennol ym Mhenrhyndeudraeth. Mae'n llawer rhy gynnar ar hyn o bryd i ddod i unrhyw gasgliad pendant. Os byddwn yn llwyddiannus ac yn derbyn cyllid y Cyfnod Datblygu'r flwyddyn nesaf, byddem mewn sefyllfa i archwilio rhai opsiynau ymhellach. Byddai'r gymuned leol wrth gwrs yn ystyriaeth bwysig, a byddai'n rhan bwysig o unrhyw drafodaethau. Os bydd proses grant yr NLHF yn llwyddiannus, byddai'r Awdurdod yn dal i fod yn y pencadlys presennol tan o leiaf 2030, ac o bosibl 2031.

25. Casgliad

26. Fel yr addawyd i'r Aelodau ym mis Ebrill, mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sefyllfa hyd yma ar y prosiect i adleoli pencadlys Awdurdod y Parc Cenedlaethol o'r swyddfa bresennol ym Mhenrhyndeudraeth i ganolfan newydd ym Mhlas Tan y Bwlch. Naomi Jones sy'n rheoli'r prosiect ar gyfer y cais am grant NLHF ac mae Donald Insall Associates wedi cael eu comisiynu i'n cefnogi yn hyn o beth. Cyflwynir y cais am gyllid Cyfnod Datblygu ym mis Chwefror 2026 (a fyddai'n £325,000, ac a fyddai'n cynnwys 2 swyddog am gyfnod o 18 mis). Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am unrhyw gynnydd.

27. Argymhelliad:

I'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad a rhoi unrhyw adborth ar y broses.

CYFARFOD:	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD:	10 Medi, 2025
TEITL:	LLYTHYR GRANT STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU ➤ Targedau a Mekanwaith Adrodd
AWDUR:	Prif Weithredwr
PWRPAS:	I hysbysu'r Aelodau am y targedau a osodwyd a'r mecanwaith adrodd sydd ar waith ar gyfer darparu diweddariad i'r Gweithgor

1. CEFNDIR :

- 1.1. Ar ddiwedd proses gyllidebol flynyddol Llywodraeth Cymru, mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn derbyn cadarnhad o'r grant refeniw craidd a ddyfarnwyd. Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod Llythyr Grant Strategol (sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad A er gwybodaeth) yn cyd-fynd â'r cadarnhad Grant Strategol sy'n amlinellu blaenoriaethau'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ar gyfer y Parciau Cenedlaethol, yn ychwanegol at gyfrifoldebau statudol.
- 1.2 2025-26 yw blwyddyn olaf y Rhaglen Lywodraethu gyfredol lle mae'r Prif Weinidog wedi ymrwmo i yrru cynnydd ymlaen ar draws 4 maes allweddol:
 - Iechyd da – Cymru iachach
 - Swyddi gwyrdd a thwf
 - Cyfle i bob teulu
 - Cysylltu cymunedau
- 1.3 Mae'r Llythyr Grant Strategol yn rhoi fframwaith clir i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol weithio ynddo yn 2025-26, mae'n cadarnhau'r blaenoriaethau craidd y disgwylir i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol chwarae rhan sylweddol yn ogystal â blaenoriaethau eraill lle gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol chwarae rhan gyfrannol, lle bo'n briodol.
- 1.4 Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u mapio i'n Rhaglen Waith Gorfforaethol yr ydym yn adrodd arni bob chwarter i'r Aelodau yn ystod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

2. Targedau Monitro Perfformiad Newydd

- 2.1 Eleni, er mwyn sicrhau asesiad a chyflawniad cyson yn erbyn y blaenoriaethau strategol, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targedau monitro perfformiad newydd - gweler Atodiad C. Dylid monitro ac adrodd ar y data perfformiad bob 6 mis, gydag asesiad canol blwyddyn byrrach ac adroddiad diwedd blwyddyn mwy cyflawn. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

- 2.2 Mae'r data allweddol wedi'i grwpio i dri maes allweddol:
- Yr Amgylchedd
 - Pobl a Lleoedd
 - Llywodraethu a Chydweithio
(Gweler Atodiad B - Canllawiau Adrodd ar Lythyrau Grant Strategol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a
Atodiad C - Templed Adrodd)
- 2.3 Ein nod fydd adrodd ar y canfyddiadau ar gyfer 6 mis cyntaf y flwyddyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd. Gan mai set ddata perfformiad newydd yw hon, efallai y bydd rhai prosesau dysgu ar hyd y ffordd ac mae wedi cael ei gydnabod y gallai fod rhai bylchau data wrth i'r broses esblygu.

3. GOBLYGIADAU ADNODDAU (os o gwbl):

- 3.1 Amser swyddogion wrth gynhyrchu'r adroddiad perfformiad

4. ARGYMHELLIAD:

- 4.1 **Bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

5. DOGFEN GEFNDIROL/DOLENNI PERTHNASOL I'R DDOGFEN:

Atodiad A: Llythyr Grant Strategol APC

Atodiad B: Canllawiau Adrodd ar Lythyrau Grant Strategol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

Atodiad C: Templed Adrodd Llythyr Grant Strategol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol



Y Cyngorydd Edgar Wyn Owen
Cadeirydd
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

15 Ebrill 2025

Annwyl Edgar,

2025–26 yw blwyddyn olaf ein Rhaglen Lywodraethu bresennol. Roeddwn i am amlinellu'r hyn sydd, yn fy marn i, ein blaenoriaethau pwysicaf ar y cyd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn adeiladu ar y Llythyr Tymor Llywodraeth a anfonwyd atoch yn 2022. Mae hefyd yn cynnig arweiniad ar sut y dylech flaenoriaethu eich gwaith o fewn y cyd-destun gwleidyddol ac ariannol presennol, yn ychwanegol at eich cyfrifoldebau statudol. Gobeithiaf y bydd hyn yn ddefnyddiol ichi.

Cyllid yn 2025–26

Gallaf hefyd gadarnhau eich dyraniadau cyllid ar gyfer 2025–26, yn dilyn casgliadau proses gyllidebol Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi dyrannu Grant Refeniw craidd gwerth £4,325,806 i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn 2025–26. Dylech ddefnyddio'r ffigur hwn i bennu'r ardoll gan eich Awdurdodau Lleol sy'n cyfrannu. Mae hyn yn gynydd o 5% o'i gymharu â'ch dyraniad grant gwreiddiol ar gyfer 2024–25, i gydnabod y pwysau rydych yn ei wynebu o ran costau cynyddol, yn enwedig chwyddiant mewn costau staff.

Yn ogystal â'r dyraniad hwn, byddaf hefyd yn darparu amrediad o gyllid arall ar gyfer mesurau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyllid cyfalaf cyffredinol gwerth £330,000 i gael ei ddefnyddio ar gyfer eich blaenoriaethau cyfalaf yn 2025–26;
- £500,000 o gronfa Natur a Chyfalaf carbon y cynllun Tirweddau Cynaliadwy, Lleodedd Cynaliadwy;
- £433,208 ar gyfer cynllun Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig.

Mae rhagor o wybodaeth am eich dyraniad cyllideb yn Atodiad B.

Blaenoriaethau

Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chynnydd ar draws pedwar maes allweddol. Rwy'n disgwyl ichi chwilio am gyfleoedd i gefnogi'r meysydd hyn, pan fydd hynny'n cyd-fynd â'ch cylch gwaith:

- Iechyd da' – Cymru iachach
- Swyddi a thwf gwyrdd
- Cyfle i bob teulu

- Cysylltu cymunedau

Yn ogystal, dylech barhau i alinio gwaith â'n Hamcanion Llesiant allweddol, gan gynnwys:

- Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni wneud cymaint o gynnydd ag y bo modd tuag at ddatgarboneiddio;
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn;
- Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math;
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a chelfyddydau i ffynnu;
- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell byth i fyw a gweithio ynddynt.

Rhaid i gyrff Tirweddau Dynodedig barhau i ganolbwyntio ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur fel mater o flaenoriaeth gyffredinol a brys.

Datganodd y Senedd argyfwng natur yn 2021 ac rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i'r nod bydeang 30x30. Mae gennych rôl allweddol i'w chwarae wrth ein helpu i weithredu dros natur; mae hyn wedi cael ei fynegi drwy'r Archwiliad Manwl i Fioamrywiaeth a'r grŵp arbenigol Tirweddau Dynodedig. Rwy'n disgwyl ichi weithio'n agos gyda'r grŵp arbenigol a bydd y grŵp hwn yn ategu eich gwaith yn hyn o beth.

Ein huchelgais yw i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyda'i gilydd fod yn sero net erbyn 2030. Rydych eisoes wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau allyriadau eich sefydliadau. Rhaid ichi ddal ati hefyd i edrych ar yr amgylchedd, y cymunedau a'r ymwelwyr sydd y tu hwnt i'ch sefydliadau. Felly, rwy'n disgwyl gweld cynnydd parhaus, a arweinir gan dystiolaeth, wrth leihau allyriadau a galluogi dal a chadw carbon yn y dirwedd.

Mae ffermio cynaliadwy'n rhan annatod o'n tirwedd ac mae'n allweddol i gyflawni ein hamcanion dros natur a'r hinsawdd. Wrth inni symud yn nes at ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd, rwyf wrth fy modd ein bod yn cyflwyno cynllun pwrpasol ar gyfer Tirweddau Dynodedig yn 2025–26. Rydyn ni wedi datblygu Ffermio Bro: Ffermio mewn Tirweddau Dynodedig i fod yn elfen allweddol o gyfnod paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), ac mewn ymateb i alwadau gan eich sector. Edrychaf ymlaen at sicrhau canlyniadau mwy a gwell ar gyfer yr amgylchedd, pobl a chymunedau ar draws ein holl dirweddau dynodedig fel rhan o'r pecyn SFS ehangach.

Ein huchelgais yw tyfu twristiaeth er lles Cymru. Mae pobl yn dewis ymweld â Chymru i fwynhau'n hamgylchedd naturiol arbennig yn ogystal â phrofi'n diwylliant, gan gynnwys y Gymraeg. Mae rôl eich cyrff, wrth alluogi rheoli ymwelwyr yn well i leihau effaith twristiaeth ar yr amgylchedd ac ar eich cymunedau, yn hanfodol.

Rwyf hefyd yn awyddus i weld yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn dod yn enghreifftiau o lywodraethu da ac mae rhaglen lywodraethu barhaus Llywodraeth Cymru yn allweddol i hyn. Rwy'n disgwyl gweld Llawlyfr Llywodraethu'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cael ei ymgorffori yn y broses gynefino ar gyfer aelodau newydd a datblygu ar gyfer pob aelod presennol. Mae adnoddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen lywodraethu sydd ar gael i'ch aelodau drwy wefan Tirweddau Cymru ac rwy'n gofyn ichi annog aelodau i'w defnyddio.

Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydyn ni wedi ymrwymo i sefydlu Parc Cenedlaethol newydd yn y gogledd-ddwyrain, a hoffwn ichi gefnogi'r broses yn ôl yr angen.

Rwyf am weld ein perthynas yn parhau'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch tuag at ein gilydd, ac ar gyfathrebu gonest ac agored. Mae'r llythyr hwn wedi'i gynllunio i roi fframwaith i'w ddilyn ar gyfer eich gwaith yn 2025–26. Yn Atodiad A, rwyf wedi amlinellu blaenoriaethau craidd lle rwy'n disgwyl ichi chwarae rôl sylweddol yn ogystal â blaenoriaethau eraill lle gallwch chwarae rôl gyfrannol, lle bo hynny'n briodol. Dylech fapio'r blaenoriaethau a nodir yn yr Atodiad hwn i'ch Cynllun Corfforaethol blyneddol (neu gyfwerth) a darparu ddiweddariadau bob chwe mis, gan ddefnyddio data fel y bo'n briodol, i Lywodraeth Cymru a all fod yn sail i drafodaethau yn eich cyfarfodydd gyda mi a'm swyddogion. Byddwn yn croesawu trafodaeth a chytundeb ar nifer o'r cyflawniadau allweddol hyn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni dros bobl ac amgylchedd Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i'r Prif Swyddog Gweithredol.

Yn gywir,



Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

ATODIAD A: Amcanion a Gweithredoedd â Blaenoriaeth ar gyfer tymor y Senedd

Mae fy mlaenoriaethau wedi'u grwpio yn unol â thair thema weithredu: **Yr Amgylchedd; Pobl a Lleoedd; Llywodraethu a Chydweithredu.**

Yr Amgylchedd

Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNARR) CNC a gyhoeddwyd yn 2020 ynghyd â'i adroddiad llinell sylfaen ar Safleoedd Gwarchodedig yn 2020 yn creu darlun enbyd. Dros y 100 mlynedd diwethaf, mae bioamrywiaeth y mwyafrif o fathau o gynefinoedd wedi dirywio, gyda'r dirywiad hwnnw'n prysuro o'r 1970au ymlaen. Ychydig iawn o gynefinoedd Cymru sydd mewn cyflwr da. Er gwaethaf yr amddiffyniad a ddaw o'u dynodi, nid yw cyflwr safleoedd gwarchodedig o fewn Tirweddau Dynodedig fawr gwell na'r rhai y tu allan iddyn nhw. Rhaid newid hynny.

Bydd angen dull systematig ar gyrff rheoli ar gyfer ymdrin â'r ecosystemau a'r safleoedd gwarchodedig ar eu tirwedd a arweinir gan ddata, sy'n galluogi targedu'r ardaloedd sydd â'r potensial mwyaf i gyrraedd y targed 30x30. Oherwydd natur frys y sefyllfa, mae angen gwneud penderfyniadau anodd i wella cysylltiadau, cyflwr, ehangder ac amrywiaeth cynefinoedd, a hefyd i ganolbwyntio mwy ar ffynonellau cyllid amgen.

Ein huchelgais yw i'r sector cyhoeddus yng Nghymru gyda'i gilydd fod yn sero net erbyn 2030. Rydych eisoes wedi gwneud cynnydd da fel sefydliadau i leihau eich allyriadau, a disgwyliaf i hyn barhau. Rhaid ichi ddal ati hefyd i edrych ar yr amgylchedd, y cymunedau a'r ymwelwyr sydd y tu hwnt i'ch sefydliadau.

Blaenoriaethau Craidd:

- Cefnogi'n weithredol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio
- Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coetiroedd lle bo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP)
- Cymryd camau i wella cysylltiadau, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30
- Cyflawni Cronfa Natur a Charbon Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio.

Blaenoriaethau Cefnogol:

- Cefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth
- Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas
- Cymryd rhan mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteision i'ch cymunedau
- Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir.

Pobl a Lleoedd

Rwyf am ichi barhau i geisio annog pobl i fwynhau mewn ffordd sy'n sensitif o safbwynt amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, ac i chwilio am atebion cynaliadwy lle mae tensiynau a phroblemau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i gymryd camau i reoli nifer yr ail gartrefi ac i drwyddedu llety gwyliau. Gall Awdurdodau Parc Cenedlaethol ddylanwadu ar yr agenda hon drwy eu gwaith fel Awdurdodau Cynllunio Lleol a dylen nhw weithio gyda'r Awdurdod Tai, cymunedau lleol a datblygwyr i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael.

Mae cynaliadwyedd hirdymor llawer o'n tirweddau mwyaf sensitif a'u cymunedau hefyd yn cydblythu â'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Gymraeg; hoffwn eich gweld yn parhau i wireddu'n hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050.

Blaenoriaethau Craidd:

- Cyfrannu at weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Bro
- Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai aciwt a chyfrannu at Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg
- Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafndiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamdden cyfrifol
- Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth, diwylliant a threftadaeth
- Datblygu polisiau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu, gan gyflawni yn unol â *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*
- Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych yn eu rheoli
- Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.

Blaenoriaethau Cefnogol:

- Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol
- Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy
- Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

Llywodraethu a Chydweithredu

Rwy'n gwerthfawrogi cyfraniad holl benodeion yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Pan fydd yn gweithio'n dda, mae persbectif lleol penodeion yr Awdurdodau Lleol yn ategu persbectif cenedlaethol penodeion gweinidogol.

Mae strwythur cadarn eisoes ar waith ar gyfer craffu ar waith Awdurdodau Parc Cenedlaethol drwy Archwilio Cymru, trefniadau archwilio mewnol a threfniadau monitro Llywodraeth Cymru. Mae sawl maes lle y gallwn wneud mwy gyda'n gilydd i gefnogi aelodau Awdurdodau Parc Cenedlaethol, er mwyn iddyn nhw allu cyfrannu mor effeithiol â phosibl. Dylai cyfranogiad mwy gweithredol a mabwysiadu'r fframwaith rhagoriaeth llywodraethu a gefnogir gan Lywodraeth Cymru fod yn flaenoriaeth.

Rwy'n falch o weld cynnydd partneriaeth Tirweddau Cymru ac o'i chefnogi wrth iddi ddatblygu fframwaith llywodraethu a chyflawni cryfach ac adnoddau gwell yn 2025.

Blaenoriaethau Craidd:

- Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethu gan gynnwys Awdurdodau Parc Cenedlaethol a chyrff eraill yn rhannu arferion gorau a hyfforddiant â'i gilydd
- Sicrhau bod amrywiaeth a safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel o fewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd rhagweithiol i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd
- Ymgorffori'r adnoddau a grëwyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywodraethu yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu Aelodau, recordiadau hyfforddi a phecynnau cymorth cysylltiedig, mewn trefniadau cynefino a datblygu aelodau
- Rhannu profiad a'r arferion gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo.

Blaenoriaethau Cefnogol:

- Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y CJC a thrwy gydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i roi polisiâu Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd).

ATODIAD B: ADNODDAU ARIANNOL AR GYFER 2025–26

Grant Craidd yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol (APCau)	£4,325,806	I'w hawlio'n chwarterol: • £1,081,451.50 yn Chwarter 1 • £1,081,451.50 yn Chwarter 2 gyda diweddariad ar flaenoriaethau'r llythyr Grant Strategol • £1,081,451.50 yn Chwarter 3 • £1,081,451.50 yn Chwarter 4 gyda diweddariad ar flaenoriaethau'r llythyr Grant Strategol
---	-------------------	--

General Capital Funding	£330,000	I'w hawlio'n chwarterol: • £82,500 yn Chwarter 1 • £82,500 yn Chwarter 2 • £82,500 yn Chwarter 3 • £82,500 yn Chwarter 4
--------------------------------	-----------------	--

- Pwrpas y cyllid Cyfalaf Cyffredinol yw caniatáu hyblygrwydd i'r APCau wrth fynd i'r afael â'r pwysau o fewn ardal y Parc Cenedlaethol drwy brosiectau wedi'u targedu. Nid yw'n ofynnol cyflwyno cynigion prosiect i uned Tirweddau Dynodedig Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo, ond bydd pob prosiect yn destun adrodd ar ddiwedd y flwyddyn a monitro ad hoc drwy gydol y cyfnod cyllido.
- Rhaid gwario'r cyllid yn ystod y flwyddyn o fewn neu gerllaw (parth glustogi) ffin y Parc Cenedlaethol a rhaid iddo ategu'r Dibenion Statudol/Cynllun Rheoli.
- Rhaid i'r cyllid gael ei ddefnyddio gan yr APC. Dylid ei wario'n llawn o fewn y flwyddyn ariannol y mae'r grant yn ymwneud â hi.
- Ni ddylid defnyddio cyllid fel cynllun grant neu gymorth ar gyfer cyrff y sector preifat, a dim ond ar ôl proses dryloyw ac archwiliadwy y dylid talu unrhyw gyllid i gyrff cymunedol.

Cyllid Cyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy	£500,000	Grant wedi'i ddyrannu drwy lythyr ar wahân yn manylu ar brosiectau I'w hawlio bob 6 mis: • £100,000 ym mis Tachwedd 2025 • £400,000 ym mis Mawrth 2026
--	-----------------	--

Ffermio Bro: Cyllid Cyfalaf	£361,433*	Gweler Rheolau Cynllun RPW
Ffermio Bro: Cyllid Refeniw	£71,775*	Gweler Rheolau Cynllun RPW

* noder nid yw hyn yn cynnwys dyraniadau y gallech fod yn eu rheoli ar ran partneriaid eraill

Llythyr Grant Strategol yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol 2025–26: Canllawiau Adrodd

Canllawiau Adrodd

1. Gofynnir i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddarparu gwybodaeth yn erbyn eu Blaenoriaethau Strategol LIC.
2. Bydd gwybodaeth yn feintiol ac ansoddol.
3. Dylech ddarparu data cymharol (%+ neu -) o'r flwyddyn flaenorol yn unig lle rydych eisoes yn cadw'r data hyn yn yr un fformat; fel arall dylech drin data 2025-26 fel eich man cychwyn.
4. Darperir gwybodaeth yn ysbeidiol drwy gydol y flwyddyn fel a ganlyn:
 - i. Erbyn diwedd mis Hydref, dylid darparu Uchafbwyntiau, unrhyw amcanestyniadau ar berfformiad yn erbyn dangosyddion, a naratif byr iawn ar gyfer gweithgareddau yn ystod 6 mis cyntaf y flwyddyn (1 Ebrill – 30 Medi).
 - ii. Erbyn diwedd mis Mai y flwyddyn ganlynol, dylid darparu data, naratif, cyfyngiadau ac unrhyw dueddiadau hirdymor yn erbyn y blaenoriaethau a'r dangosyddion penodedig.
 - iii. Pan nad oes data ar gael mor gynnar â hynny (er enghraifft allyriadau carbon Awdurdodau Lleol), dylid darparu hyn erbyn diwedd mis Medi y flwyddyn ganlynol.
5. Yn enwedig o ran blaenoriaethau ategol, efallai y byddwch chi'n teimlo nad oes fawr ddim y gall yr Awdurdod Parc Cenedlaethol adrodd arno. Byddai'n well gennym ddatganiad 'dim' na'ch bod yn ceisio darparu cyfraniad nad yw'n bodloni'r flaenoriaeth yn uniongyrchol. Gall datganiad 'dim' helpu i adeiladu achos bod angen rhagor o gymorth/ buddsoddiad, yn hytrach na dangos eu bod yn methu â chyflawni. Yn yr un modd, gall naratif byr ar gyfyngiadau yn erbyn rhai o'r blaenoriaethau ategol ein helpu i esbonio'n fewnol pam nad yw'r rhain yn arbennig o berthnasol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a/neu na ellir eu cyflawni gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Yn anffodus, ni allwn ddiwygio na dileu'r blaenoriaethau hyn am eu bod yn llythyr gwreiddiol Tymor y Llywodraeth.
6. Bydd templed adrodd yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

A. YR AMGYLCHEDD

EN1: Cefnogi ymrwymiad LIC i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy waith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio

Canllawiau: a) Dylai cyfanswm allyriadau'r Awdurdod fod yn un ffigur fesul Awdurdod a adroddir i LIC yn [Adrodd ar Sero Net: Allyriadau Carbon Sector Cyhoeddus Cymru 2023](#) (gan gynnwys Adeiladau, Trafnidiaeth, Gwastraff, Cadwyn Gyflenwi, Defnydd Tir, Ynni Adnewyddadwy). Dylech gynnwys ffigurau sy'n perthyn i'r categorïau cyfatebol hyn. *I'w adrodd erbyn mis Medi y flwyddyn ganlynol*
b) Dylai'r ffigur gynnwys cymorth **ariannol uniongyrchol** ar gyfer ynni adnewyddadwy cymunedol, datgarboneiddio cymunedol (e.e. prosiectau ynni adnewyddadwy ag arian cyfatebol trydydd parti, cyllid grant i gyrff cymunedol ar gyfer datgarboneiddio) *I'w adrodd erbyn mis Mehefin y flwyddyn ganlynol*
Gall cyrff ategu data ar gyfer a) a b) gyda thystiolaeth ansoddol.

EN2: Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coetiroedd lle bo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP).

Canllawiau: Dylai ffigurau gynnwys dim ond prosiectau yn y Parc Cenedlaethol pan fo Awdurdod Parc Cenedlaethol yn arweinydd neu'n bartner arwyddocaol. Gallai hyn gynnwys pan fo'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi hwyluso, ariannu neu gyflawni cam gweithredu ei hun. Sylwch na fydd cerdyn sgorio, ac efallai y bydd rhesymau amgylcheddol (e.e. lefel isel o fawn dwfn) dros lai o ffocws gan rai Awdurdodau Parciau Cenedlaethol mewn rhai ardaloedd). Gallwch hefyd adrodd ar fesurau eraill lle dymunwch:

- Hyd (Metrau) y perthi/gwrychoedd a blannwyd
- Nifer y coed a blannwyd (Noder: Coed safonol neu mewn caeau, nid yw'n cynnwys y rhai sy'n cael eu plannu fel rhan o berthi/gwrychoedd er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith)
- Arwynebedd (hectarau) o ddolydd a blannwyd

EN3: Cymryd camau i wella cysylltiadau, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol gwydn, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30

Canllawiau: Dylid dehongli 'Rheolir ar gyfer Bioamrywiaeth' fel tir y mae ei reolaeth yn cael ei bennu yn bennaf gan benderfyniadau sy'n seiliedig ar resymau ecolegol yn hytrach na rhesymau masnachol neu resymau eraill.

Dylai ffigurau gynnwys prosiectau yn y Parc pan fo Awdurdod Parc Cenedlaethol yn arweinydd neu'n bartner arwyddocaol yn unig. Gallai hyn gynnwys pan fo'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi hwyluso, ariannu neu gyflawni cam gweithredu ei hun.

a) dylai gynnwys safleoedd lle mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol gytundeb rheoli ar waith ond gallai gynnwys Ffermio Bro neu brosiectau eraill ar yr amod bod y rhain yn cael eu cyflawni ar raddfa fawr ar gyfer bioamrywiaeth (h.y. yn hytrach na gwelliannau unigol ar eu pennau eu hunain fel ffensys).

Bydd y dangosydd hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru o bosibl pan fydd fframwaith adrodd 30x30 cyson ar waith ledled Cymru sy'n caniatáu i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol adrodd yn gywir.

EN4: Cyflawni'r Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Natur a Charbon a chynlluniau eraill LIC i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio

Canllawiau: Rhewch grynoded o ffigur Cyfalaf a Refeniw ar gyfer eich gwariant ar waith Adfer Natur a lliniaru Newid Hinsawdd/datgarboneiddio yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai hyn gynnwys cyllid o bob ffynhonnell. Gallwch hefyd ddarparu allbynnau a chanlyniadau o brosiectau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy allweddol. Sylwch y dylai'r rhain fod yn gryno ac yn ddethol a pheidio ag ailadrodd adroddiadau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy manwl a ddarperir eisoes i DLCA. O ystyried yr amrywiaeth o brosiectau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, nid ydym wedi rhagnodi fformat, ond mae cyfrifo lleihau carbon / newid cadarnhaol o ran bioamrywiaeth yn cael ei groesawu pan fo modd.

EN5 – EN8: Dim ond tystiolaeth naratif sydd ei hangen. Dylai'r rhain fod yn uchafbwyntiau cryno yn unig. Os nad ydych wedi cyflawni gweithgaredd penodol yn erbyn y flaenoriaeth hon, nodwch 'Amherthnasol'.

B - POBL A LLEOEDD

PP1: Cyfrannu at weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Bro

Canllawiau: Dylid adrodd ar allbynnau lefel uchel Ffermio Bro yn unig. Bydd allbynnau manwl yn erbyn dangosyddion y cynllun yn cael eu hadrodd yn ystod proses reoli barhaus y cynllun.

Gallwch hefyd ddarparu tystiolaeth ansoddol ar unrhyw gamau a gymerir i gefnogi datblygiad a gweithrediad ehangach y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

PP2: Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Canllawiau: Enghreifftiau naratif, ac unrhyw allbynnau perthnasol yr hoffech adrodd arnynt.

PP3: Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafndiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol.

Canllawiau: Enghreifftiau naratif, ac unrhyw allbynnau perthnasol yr hoffech adrodd arnynt.

PP4: Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth, diwylliant a threftadaeth.

Canllawiau: Enghreifftiau naratif, ac unrhyw allbynnau perthnasol yr hoffech adrodd arnynt. Gallai hyn gynnwys nifer yr ymwelwyr â safleoedd diwylliannol rydych chi'n eu gweithredu a chynnwys treftadaeth anniriaethol fel sgiliau traddodiadol, a gwaith ar droseddau treftadaeth.

PP5: Datblygu polisiâu sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu, gan gyflawni yn unol â *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026*

Canllawiau: Enghreifftiau naratif, ac unrhyw allbynnau perthnasol yr hoffech adrodd arnynt.

PP6: Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych yn eu rheoli.

Canllawiau: Dylid diffinio hyn fel unigolion, grwpiau neu gymunedau rydych chi wedi ceisio gweithio gyda nhw neu eu targedu mewn rhyw ffordd. Gallai hyn gynnwys grwpiau ysgol rydych chi wedi'u targedu am resymau economaidd-gymdeithasol neu resymau eraill (yn hytrach nag archebion ysgolion cyffredinol). Gallwch hefyd adrodd ar brosiectau cyfalaf rydych chi wedi'u cyflawni sydd wedi'u cynllunio i wella mynediad i'ch Parc Cenedlaethol i ddefnyddwyr heb gynrychiolaeth ddigonol, fel pobl ag anableddau.

PP7: Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.

Canllawiau: Dylai hyn fod ar gyfer cyfleoedd a gynigir ac a reolir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, neu pan fo'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn bartner cyflawni allweddol mewn rhyw ffordd. Mae oriau Gweithredu Cymdeithasol yn cael eu dosbarthu fel gweithgareddau sy'n rhoi cyfleoedd i unigolion neu grwpiau (e.e. plant

ysgol, pobl ar gyfnod prawf) brofi/ennill sgiliau drwy gymryd rhan mewn sesiynau ymarferol e.e. cynnal a chadw a chadwraeth Hawliau Tramwy ond ni ellir eu dosbarthu fel prentisiaethau neu wirfoddoli strwythuredig.

PP8-PP10: Dim ond tystiolaeth naratif sydd ei hangen. Dylai'r rhain fod yn uchafbwyntiau cryno yn unig. Os nad ydych wedi cyflawni gweithgaredd penodol yn erbyn y flaenoriaeth hon, nodwch 'Amherthnasol'.

LLYWODRAETHIANT A CHYDWEITHREDU

GC1: Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethiant, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill yn rhannu arferion gorau a hyfforddiant â'i gilydd

Canllawiau: Crynhowch y camau a gymerwyd i ymgorffori llywodraethu da yn eich sefydliad.

GC2: Sicrhau bod amrywiaeth a safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau

Canllawiau: Crynhowch y camau a gymerwyd i ymgorffori amrywiaeth. Mae hyn yn ymwneud â safbwyntiau amrywiol yn helpu i lunio eich penderfyniadau strategol, felly dylid cyfeirio at aelodau, fforymau a dulliau strategol eraill sy'n llywio gweithgarwch a chyfeiriad yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

GC3: Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd ragweithiol i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd

Canllawiau: Crynhowch y camau a gymerwyd i ymgorffori cydweithio. Dylai hyn gynnwys hyrwyddo nodau Tirweddau Cymru a chefnogi ei uchelgeisiau a'i ffyrdd o weithio, a beth yw'r gwerth i chi wrth gyflawni eich uchelgais. Dylai hefyd gynnwys partneriaethau strategol eraill sy'n cael eu ffurfio, er enghraifft trwy lofnodi Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, cyflawni ar y cyd ac ati.

GC4: Ymgorffori'r adnoddau a grëwyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywodraethu yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu Aelodau, darpariaeth hyfforddi a phecynnau cymorth, mewn trefniadau cynefino a datblygu aelodau

Canllawiau: Dylech ddarparu data ar bresenoldeb aelodau mewn hyfforddiant Llywodraethu a/neu ymgysylltu ag adnoddau ar-lein, yn ogystal â sut rydych chi'n rhoi'r llawlyfr Llywodraethu newydd ar waith yn eich sefydliad.

GC5: Rhannu profiad ac arferion gorau wrth i'r broses ddynodi ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddi.

Canllawiau: Dim ond tystiolaeth naratif sydd ei hangen. Dylai'r rhain fod yn uchafbwyntiau cryno yn unig. Os nad ydych wedi cyflawni gweithgaredd penodol yn erbyn y flaenoriaeth hon, nodwch 'Amherthnasol'.

GC6: Cyfrannu'n rhagweithiol at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a thrwy gydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i roi polisiâu Cymru'r Dyfodol ar waith

Canllawiau: Dim ond tystiolaeth naratif sydd ei hangen. Dylai'r rhain fod yn uchafbwyntiau cryno yn unig. Os nad ydych wedi cyflawni gweithgaredd penodol yn erbyn y flaenoriaeth hon, nodwch 'Amherthnasol'.

ATODIAD A: Yr amgylchedd

Cyf	Blaenoriaethau Craidd	Tystiolaeth 6 mis	Tystiolaeth Flynyddol	Dangosyddion (uned) (mesuriad)
EN1	Cefnogi ymrwymiad LIC i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy waith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	- Cyfanswm allyriadau'r Awdurdod (kgCO₂e) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) £ a fuddsoddwyd mewn prosiectau datgarboneiddio cymunedol
EN2	Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coetiroedd pan fo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr (e.e. drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP))	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	- Cyfanswm creu coetir (hectarau) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Pan fo hynny'n bosibl, rhwch ddadansoddiad o rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol - Adfer coetir (hectarau) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) - Arwynebedd o Fawn sy'n bresennol yn y Parc (N.B. mae hyn ar gyfer cyd-destun). - Gwaith adfer mawndir a gyflawnwyd (hectarau) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) drwy NPAP neu waith arall - Hyd (metrau) o berthi/gwrychoedd a blannwyd - Coed a blannwyd (ac eithrio plannu perthi/gwrychoedd/coetiroedd) - Arwynebedd (hectarau) o ddolydd a blannwyd
EN3	Cymryd camau i wella cysylltiadau, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol gwydn, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	- tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â pherchnogion tir preifat (hectarau) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) - tir sy'n eiddo i'r Awdurdod neu dir sy'n cael ei lesio gan yr Awdurdod a reolir ar gyfer bioamrywiaeth (hectarau) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)
EN4	Cyflawni'r Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Natur a Charbon a chynlluniau eraill LIC i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	- Cyfanswm y buddsoddiad ariannol mewn mentrau Natur a Charbon (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) - Allbynnau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy pan fo hynny'n berthnasol
EN5	<u>Blaenoriaethau Ategol:</u> Cefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i ddulliau trafniadaeth mwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau ymhlith staff, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaeth	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif

EN6	Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun wedi'i dargedu i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas.			
EN7	Ymwneud â Chynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteision i'ch cymunedau			
EN8	Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastigau untro drwy annog pobl i beidio â'u defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl.			

ATODIAD B: Pobl a Lleoedd

Cyf	Blaenoriaethau Craidd:	Tystiolaeth 6 mis	Tystiolaeth flynyddol	Dangosyddion (uned) (mesuriad)
PP1	Cyfrannu at weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Bro	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	- Daliadau fferm a gefnogwyd (niferoedd) - Grwpiau ffermwyr a gefnogwyd (cydweithrediadau presennol/newydd) - Manteision ecolegol a adroddwyd o fewn blaenoriaeth ecosystem - Enghreifftiau naratif
PP2	Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg	Naratif byr	Naratif, tueddiadau hirdymor	Enghreifftiau naratif
PP3	Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafndiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol.	Naratif byr	Naratif, tueddiadau hirdymor	Enghreifftiau naratif
PP4	Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth, diwylliant a threftadaeth.	Naratif byr	Naratif, tueddiadau hirdymor	% o'r Hawliau Tramwy ar agor (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) - Km o hawliau tramwy wedi'u gwella neu eu creu - Enghreifftiau naratif gan gynnwys nifer yr ymwelwyr i safleoedd diwylliannol rydych chi'n eu gweithredu, treftadaeth anniriaethol fel sgiliau traddodiadol, a gwaith i frwydro yn erbyn troseddau treftadaeth
PP5	Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu, gan gyflawni yn unol â <i>Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026</i>		Naratif, tueddiadau hirdymor	Enghreifftiau naratif
PP6	Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych yn eu rheoli	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, tueddiadau hirdymor	- cyfranogwyr yng ngweithgareddau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer cynhwysiant, allgymorth, cynyddu mynediad (nifer) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) - Prosiectau i gael gwared ar rwystrau mynediad ffisegol - Enghreifftiau naratif
PP7	Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, tueddiadau hirdymor	- Cyfleoedd hyfforddi (nifer) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) - Prentisiaethau (nifer) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol)

				- Oriau gwirfoddoli (nifer) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) - Oriau Gweithredu Cymdeithasol a gyfrannwyd - Enghreifftiau naratif
PP8	<u>Blaenoriaethau Atebol:</u> Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol	Naratif byr	Naratif, tueddiadau hirdymor	Enghreifftiau naratif
PP9	Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy			
PP10	Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol			

ATODIAD C: Llywodraethiant a Chydweithredu

Cyf	Blaenoriaethau Craidd:	Tystiolaeth 6 mis	Tystiolaeth flynyddol	Dangosyddion (uned) (mesuriad)
GC1	Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethiant gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill yn rhannu arferion gorau a hyfforddiant a'i gilydd	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif
GC2	Sicrhau bod amrywiaeth a safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif
GC3	Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd ragweithiol i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif
GC4	Ymgorffori'r adnoddau a grëwyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywodraethu yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu Aelodau, darpariaeth hyfforddi a phecynnau cymorth, mewn trefniadau cynefino a datblygu aelodau	Data ar hyfforddiant Llywodraethu, naratif byr	Data ar ymgysylltu â hyfforddiant Llywodraethu, Enghreifftiau naratif, tueddiadau hirdymor	% yr aelodau sydd wedi mynychu pob un o'r pedair sesiwn hyfforddiant ar-lein ar lywodraethu neu wedi gwyllo'r recordiadau - Enghreifftiau naratif
GC5	Rhannu profiad ac arferion gorau wrth i'r broses ddynodi ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddi.	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif
GC6	<u>Blaenoriaethau Ategol:</u> Cyfrannu'n rhagweithiol at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a thrwy gydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i roi polisiau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyniad i gynnal rhwydweithiau ecolegol gwydn a seilwaith gwyrdd).	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif

2025-26

BLAENORIAETHAU STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU: TEMPLED ADRODD

Awdurdod Parc Cenedlaethol:

Cyfeiriwch at y canllawiau ar wahân cyn llenwi.

RHAN A: Yr Amgylchedd

Cyf	Blaenoriaethau Craidd	Tystiolaeth 6 mis	Tystiolaeth Flynyddol	Dangosyddion (uned) (mesuriad)
EN1	Cefnogi ymrwymiad LIC i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy waith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data a ddarparwyd ym mis Medi y flwyddyn ganlynol + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	Cyfanswm allyriadau'r Awdurdod (kgCO₂e) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] £ a fuddsoddwyd mewn prosiectau datgarboneiddio cymunedol [Teipiwch yma]
EN2	Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coetiroedd pan fo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr (e.e. drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP))	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	Cyfanswm creu coetir a gyflawnwyd (hectarau) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Pan fo hynny'n bosibl, rhwch ddadansoddiad o rôl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol e.e. cyflawni, ariannu, o fewn ffiniau Awdurdod Parc Cenedlaethol. [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Adfer coetir a gyflawnwyd (hectarau) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Arwynebedd o Fawn sy'n bresennol yn y Parc (N.B. mae hyn ar gyfer cyd-destun). [Teipiwch yma] Gwaith adfer mawndiroedd a gyflawnwyd (hectarau) (% -/+ o' gymharu â'r flwyddyn flaenorol) drwy NPAP neu waith arall [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Hyd (metrau) o berthi/gwrychoedd a blannwyd (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Nifer y coed a blannwyd (Noder: coed safonol/mewn caeau, ac eithrio coed a blannwyd mewn perthi/gwrychoedd neu goetir) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Arwynebedd (hectarau) o ddolydd a blannwyd (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma]

EN3	Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol gwydn, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	tir a reolir ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â pherchnogion tir preifat (hectarau) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] tir sy'n eiddo i'r Awdurdod neu sy'n cael ei lesio gan yr Awdurdod a reolir ar gyfer bioamrywiaeth (hectarau) (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma]
EN4	Cyflawni'r Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Natur a Charbon a chynlluniau eraill LIC i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	Cyfanswm y buddsoddiad ariannol mewn mentrau Natur a Charbon (% -/+ o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Allbynnau Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy pan fo hynny'n berthnasol [Teipiwch yma]
EN5	Blaenoriaethau Ategol: Cefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau ymhlith staff, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaeth	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
EN6	Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun wedi'i dargedu i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas.			
EN7	Ymwneud â Chynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteision i'ch cymunedau			
EN8	Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastigau untro drwy annog pobl i beidio â'u defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl.			

RHAN B: Pobl a Lleoedd

Cyf	Blaenoriaethau Craidd:	Tystiolaeth 6 mis	Tystiolaeth flynyddol	Dangosyddion posibl (uned) (mesuriad)
PP1	Cyfrannu at weithredu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chyflwyno'r Cynllun Ffermio Bro	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, unrhyw dueddiadau hirdymor	Daliadau fferm a gefnogwyd (niferoedd) [Teipiwch yma] Grwpiau ffermwyr a gefnogwyd (grwpiau neu gydweithrediadau presennol neu newydd) [Teipiwch yma] Dylid adrodd am fanteision ecolegol o fewn EN3 Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
PP2	Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
PP3	Gan weithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafndiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol.	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
PP4	Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer twristiaeth, diwylliant a threftadaeth.	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir	% o'r Hawliau Tramwy ar agor (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Km o hawliau tramwy wedi'u gwella neu eu creu [Teipiwch yma] Enghreifftiau naratif gan gynnwys nifer yr ymwelwyr i safleoedd diwylliannol rydych chi'n eu gweithredu, treftadaeth anniriaethol fel sgiliau traddodiadol, a gwaith i frwydro yn erbyn troseddau treftadaeth [Teipiwch yma]
PP5	Datblygu polisiâu sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu, gan gyflawni yn unol â <i>Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026</i>		Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
PP6	Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych yn eu rheoli	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, tueddiadau hirdymor	Cyfranogwyr mewn gweithgareddau sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol / a gefnogir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar gynhwysiant, allgymorth a chynyddu mynediad i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (nifer) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma]

				Prosiectau i gael gwared ar rwystrau mynediad ffisegol. [Teipiwch yma]
				Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
PP7	Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli.	Uchafbwyntiau, amcanestyniadau a naratif byr	Data + Naratif, tueddiadau hirdymor	Cyfleoedd hyfforddi a ddarparwyd (nifer) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Prentisiaethau a ddarparwyd (nifer) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Oriau gwirfoddoli a ddarparwyd (nifer) (% +/- o gymharu â'r flwyddyn flaenorol) [Teipiwch yma] [Teipiwch yma] Oriau Gweithredu Cymdeithasol a gyfrannwyd [Teipiwch yma] Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
PP8	<u>Blaenoriaethau Ategol:</u> Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, tueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
PP9	Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy			
PP10	Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol			

RHAN C: Llywodraethiant a Chydweithredu

Cyf	Blaenoriaethau Craidd:	Tystiolaeth 6 mis	Tystiolaeth flynyddol	Dangosyddion (uned) (mesuriad)
GC1	Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethiant, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill yn rhannu arferion gorau a hyfforddiant â'i gilydd	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
GC2	Sicrhau bod amrywiaeth a safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
GC3	Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel o fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd ragweithiol i ddarparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
GC4	Ymgorffori'r adnoddau a grëwyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywodraethu yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu Aelodau, darpariaeth hyfforddi a phhecynnau cymorth, mewn trefniadau cynefino a datblygu aelodau	Data ar hyfforddiant Llywodraethu, naratif byr	Data ar ymgysylltu â hyfforddiant Llywodraethu, Enghreifftiau naratif, tueddiadau hirdymor	% yr aelodau sydd wedi mynychu pob un o'r pedair sesiwn hyfforddiant ar-lein ar lywodraethu neu wedi gwyllo'r recordiadau [Teipiwch yma] Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
GC5	Rhannu profiad ac arferion gorau wrth i'r broses ddynodi ar gyfer creu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddi.	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]
GC6	<u>Blaenoriaethau Ategol:</u> Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a thrwy gydweithio ar lefel ranbarthol a chenedlaethol i roi polisiâu Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyniad i gynnal rhwydweithiau ecolegol gwydn a seilwaith gwyrdd).	Naratif byr	Enghreifftiau naratif, unrhyw dueddiadau tymor hir	Enghreifftiau naratif [Teipiwch yma]

CYFARFOD	AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
DYDDIAD	10 Medi 2025
TEITL	AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
DIBEN	Cytuno ar y broses ar gyfer penodi Aelod Annibynnol newydd ar y Pwyllgor Safonau

1. CEFNDIR:

- 1.1 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dwy swyddogaeth gyffredinol sef:
 - Hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymhlith aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod
 - Cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod i gadw at god ymddygiad yr Awdurdod.
- 1.2 Mae gan y Pwyllgor Safonau hefyd y swyddogaethau penodol canlynol:
 - 1.2.1 Cynghori'r Awdurdod ar fabwysiadu codau ymddygiad yr Awdurdod neu eu diwygio
 - 1.2.2 Monitro gweithrediad codau ymddygiad yr Awdurdod
 - 1.2.3 Cynghori ar hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig yr Awdurdod ar faterion yn ymwneud â chodau ymddygiad yr Awdurdod
 - 1.2.4 Ystyried a phenderfynu ar faterion a gyfeiriwyd ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru lle bo'n briodol.
 - 1.2.5 Ystyried Cwynion yn erbyn Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig
 - 1.2.6 Rhoi goddefebau i aelodau neu aelodau cyfetholedig sydd â diddordeb personol mewn unrhyw fusnes yn yr Awdurdod
 - 1.2.7 Awdurdodi taliadau gan y Swyddog Monitro lwfansau sydd a wnelo treuliau i bersonau sydd wedi cynorthwyo mewn ymchwiliad gan y Swyddog Monitro
 - 1.2.8 I sefydlu'r weithdrefn ar gyfer penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato i'w hystyried.
- 1.3 Yn olaf, mae gan y Pwyllgor Safonau rai swyddogaethau staff hefyd megis apêl fewnol derfynol ar faterion disgyblu ac fel apêl derfynol ar gwynion neu ar amodau gwasanaeth.

- 1.4 Tan yn ddiwedddara roedd aelodaeth y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod Awdurdod Lleol (y Cynghorydd Elfed Roberts a'r Cynghorydd Nia Owen), un Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru (Ms Naomi Luhde-Thompson) a thri Aelod Annibynnol, sef Mr Martin James Hughes (Cadeirydd), Mr Mark Jones (Is-gadeirydd) a Mr Robert Gwilym Lewis. Yn unol â'r rheoliadau sy'n llywodraethu Pwyllgorau Safonau penodwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o blith yr Aelodau Annibynnol.

2. SWYDD WAG – AELOD ANNIBYNNOL:

- 2.1 O dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2006 gall aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol gael ei ailbenodi gan yr awdurdod am un tymor olynol pellach na fydd yn fwy na phedair blynedd. Wrth ailbenodi o dan y trefniadau newydd nid oes rheidwydd i gydymffurfio â'r gofynion y byddai'n rhaid eu dilyn fel arfer sef hysbysebu mewn o leiaf dau bapur newydd a sefydlu panel cyfweld o bump sy'n cynnwys o leiaf un aelod lleig o'r panel. Rôl y panel fyddai cyfweld a gwneud argymhelliad i'r Awdurdod gyda'r Awdurdod yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch pwy i'w penodi.
- 2.2 Mae tymor ein cadeirydd presennol, Mr Martin James Hughes, bellach wedi dod i ben. Gan fod Mr Hughes eisoes wedi gwasanaethu ail dymor fel Aelod Annibynnol nid yw'n gymwys i wasanaethu am dymor arall.
- 2.3 Felly, rhaid i'r Awdurdod benodi o'r newydd drwy hysbysebu'r swydd yn unol â'r rheoliadau a sefydlu panel cyfweld. Ar achlysuron blaenorol mae'r Panel wedi cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod, y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro ac Aelod Lleig (y mae'r Swyddog Monitro yn cysylltu â nhw fel arfer).

3. TELERAU'R SWYDD:

- 3.1 Ni fydd cyfnod swydd aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau yn llai na phedair nac yn fwy na chwe blynedd.

4. GOBLYGIADAU ADNODDAU:

Costau hysbysebu ond gellir talu costau o'r fath o'r cyllidebau presennol.

5. ARGYMHELLION:

- 5.1 **Bod yr Awdurdod yn mynd ati i hysbysebu swydd Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau am gyfnod o bum mlynedd ac yn sefydlu Panel Cyfweld o bump yn unol â'r Rheoliadau i gynnwys un Aelod Lleig i'w ddewis gan y Swyddog Monitro.**

PAPURAU CEFNDIROL:

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd)

EITEM RHIF 12

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	10 Medi 2025
TEITL	DIWEDDARIAD AR Y GYLLIDEB 2025/26
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Cyllid
PWRPAS	I hysbysu'r Aelodau: - am drosglwyddiadau sylweddol. - am y gwariant hyd yma yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyflwyno unrhyw flaen/ragamcanion ar gyfer y flwyddyn ariannol.

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu adolygiad o gyllideb 2025/26 gan gynnwys crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig o ddechrae'r flwyddyn ariannol h.y., 1 Ebrill 2025 i 31 Gorffennaf 2025.
- 1.2 Mae Rhan 4 o'r adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y gyllideb refeniw net yn ogystal â chymhariaeth gyda'r sefyllfa o'r un cyfnod yn 2024/25.
- 1.3 Mae cytundeb ar raddfeydd cyflog wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 1^{af}, 2025 bellach wedi'i dderbyn ac mae'r newidiadau hyn wedi'u hychwanegu at y gyllideb.
- 1.4 Mae'r prosiectau grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC) wedi eu hymestyn ymhellach am ddwy flynedd ar gyfer 2025/26 – 2026/27, ac yn werth £500,000 ar gyfer 2025/26
- 1.5 Mae cynllun grant cyfalaf Lleoedd Lleol i Natur wedi ei ymestyn i fis Mawrth 2027 gyda'r gwariant yn parhau i gael ei hawlio'n ôl oddi wrth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC). Bydd cynllun Treftadaeth y Loteri, Carneddau, yn parhau hyd at ddiwedd Mawrth 2026, a'r prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE yn parhau hyd at 2027. Cychwynodd y prosiect Ffermio Bro fis Ebrill eleni, sydd yn gymysg o refeniw a chyfalaf a bydd yn weithredol dros dair blynedd. Mae'r grant ar gyfer y prosiect mawndiroedd wedi ei gadarnhau a bydd yn debyn £400k am dair blynedd.

- 1.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod arian ychwanegol cyfalaf bosib ar gael o ganlyniad tanwariant o fewn y flwyddyn, ond does dim manylion llawn ar gael ar hyn o bryd.

2. CYLLIDEB REFENIW DIWYGIEDIG 2025/26

- 2.1 Cymeradwywyd y Gyllideb Net Wreiddiol gan yr Awdurdod ar 5ed o Chwefror 2025.

Gwasanaethau	Cyllideb Sylfaenol	Trosgl. cynt £	Trosglwyddiadau	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£		£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	2,488,250	-	136,180	2,624,430
Corfforaethol	4,833,060	-	130,000	4,963,060
Balansau	150,000	-	86,023	63,977
Cyfanswm Gwasanaethau	7,471,310	-	180,157	7,651,467
Llog a ennillwyd ar falansau	- 100,000	-	-	100,000
Refeniw yn ariannu gwariant Cyfalaf	1,443,110	-	-	1,443,110
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050	-	-	591,050
Cyllideb net	8,223,370	-	180,157	8,403,527
Arianwyd o	-	-	-	-
Grant Parciau Cenedlaethol	4,325,806	-	-	4,325,806
Ardoll Awdurdodau Cyfansoddol	1,441,935	-	-	1,441,935
	5,767,741	-	-	5,767,741
Trosglwyddiadau o'r cronfeydd wrth gefn	2,455,630	-	180,156	2,635,786
Cyllideb Net ddiwygiedig	8,223,371	-	-	8,403,527

- 2.2 Mae dadansoddiad manwl yn dangos y gyllideb net ddiwygiedig fesul gwasanaeth ar 31ain Gorffennaf 2025 i'w weld yn Atodiad 1. Mae'r atodiad hwn hefyd yn manylu ar drosglwyddiadau i/o'r cronfeydd wrth gefn a wnaed yn ystod y flwyddyn.

- 2.3 Mae'r gyllideb wedi'i haddasu o £8,223,370 (fel y'i cymeradwywyd ym mis Chwefror 2025) i £8,403,527. Mae'r trosglwyddiadau ychwanegol i'w nodi ers yr adroddiad diwethaf fel a ganlyn

- £170,000 – llithriant o 2024/25, fel gymeradwywyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 9fed Gorffennaf 2025.
 - £166,000 – Cytunwyd ar gynnydd o 3.2% ar gyfer cyflogau 2025/26 yn ystod mis Gorffennaf a fydd yn cael ei ôl ddyddio i'r 1af o Ebrill 2025. Yn wreiddiol, rhoddwyd darpariaeth gwerth £120,000 yn erbyn y gyllideb, ac ychwanegwyd £100,000 i'r swm ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, wedi ei gyllido o lithriant 2024/25. Mae hyn yn golygu bod y cynnydd yn y cyflogau wedi ei gyllido yn llawn.
- 2.4 Mae'r diffyg disgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn amcan o ddeutu £635,000. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, bydd y swm hwn yn cael ei ariannu o'r gronfa wrth gefn.

3. CYLLIDEB GYFALAF DDIWYGIEDIG

3.1 Mae crynodeb o'r gyllideb net ddiwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf ar gyfer 2025/26 i'w weld yn y tabl canlynol, gyda manylion ychwanegol yn atodiad 2.

Cyllideb Cyfalaf 2025/26						
Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol	Incwm Grant	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosogl.	Trosogl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwyg.
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir	596,790	-	596,790	-	-	596,790
Corfforaethol	846,340	-	846,340	-	-	846,340
Cyfanswm	1,443,130	-	1,443,130	-	-	1,443,130

4. Y SEFYLLFA A RAGWELIR AR GYFER 2025/26

4.1 Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cynnydd yn erbyn y gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2025, a chymhariaeth gyda'r un cyfnod yn 2024/25.

Gwasanaethau	Cyllideb Net Ddiwygiedig	Gwariant Net hyd yma	Cymhariaeth 2024/25	Gwahaniaeth
	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir	2,624,430	677,962	1,127,920	- 449,958
Corfforaethol	4,963,060	1,615,410	2,510,823	- 895,413
Balansau, cronfeydd wrth gefn a darpariaethau	63,977	-	-	-
Cyfanswm Gwariant i wasanaethau	7,651,467	2,293,372	3,638,743	- 1,345,371
Llog â enillwyd ar gronfeydd dros ben	- 100,000	- 65,280	- 92,596	27,316
Cyfraniad Refeniw ar wariant Cyfalaf	1,443,110	227,862	542,993	- 315,131
Addasiadau Taliadau Cyfalaf	- 591,050	- 591,050	- 591,050	-
Cyllideb Refeniw Net	8,403,527	1,864,904	3,498,090	- 1,633,186
Arianwyd o:				
Grant Parc Cenedlaethol	4,325,806			
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,441,935			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	2,455,630			
Cyllideb Net Wreiddiol	8,223,371			
Grant Ychwanegol Llywodraeth Cymru	-			
Cyfraniad o gronfeydd wrth gefn	180,156			
Cyllideb Net Ddiwygiedig	8,403,527			

4.2 I grynhoi, mae gwasanaethau ar darged i gadw o fewn eu cyllideb am y flwyddyn.

Mae cyfraddau llog banc wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ac wedi eu torri eto ar y 7fed o Awst i 4% tra mae chwyddiant yn cynyddu yn raddol. Mae £68k o log wedi ei dderbyn yn y pedwar mis cyntaf o'r flwyddyn ac mae'n debygol iawn y bydd yn sylweddol uwch na'r darged o £100k erbyn diwedd Mawrth 2026.

Bydd trafodaethau pellach rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli cyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn gweithredu ar unrhyw addasiadau pellach i'r gyllideb neu gwrdd ag unrhyw wariant annisgwyl.

Mae esboniad manwl o rai o'r addasiadau i'r gyllideb wreiddiol a'r amrywiadau blaen/rhagamcanol presennol fel a ganlyn.

4.3 **Corfforaethol** :

Plas Tan y Bwlch – Mae'r gyllideb ar gyfer Plas Tan y Bwlch wedi ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2025/26, ac felly nid yw'r gwariant presennol o fewn y gwasanaeth yn effeithio ar y gyllideb waelodlin. Mae disgwyl bydd y swm sydd wedi ei neilltuo yn y gronfa yn ddigonol.

Meysydd Parcio - Mae incwm o ffioedd meysydd parcio yn parhau i ddilyn patrwn tebyg i flynyddoedd blaenorol, hefo 65% o'r targed wedi ei gyflawni erbyn diwedd Gorffennaf. Bydd unrhyw warged yn ffioedd meysydd parcio yn cael eu defnyddio i gyfarch yr her ariannol sydd yn gwynebu yr Awdurdod.

Cyfleusterau Ymwelwyr – Oherwydd problemau llygredd cyflenwad y 'bore hole' yn Pen y Pass mae cyflenwad dŵr dros dro wedi gorfod cael ei fewnforio, y gost yn rhannedig gyda'r YHA. Golygai hyn fod y gost anisgwyl o £27k i'r Awdurdod heb ei gyllido. Mae gorwariant o oddeutu £20k yn debygol ar wagio'r tanciau carthffosiaeth oherwydd problemau gweithredol a capasiti yn rhai lleoliadau. Bydd offer triniaeth Ogwen yn cael ei uwchraddio ym mis Medi, ac mae bwriad o osod offer triniaeth ym Mhont Bethania yn fuan yn 2026 (yn amodol ar ganiatad cynllunio a thrwyddedau perthnasol gan CNC, sydd ar y gweill).

4.4 **Cynllunio a Rheoli Tir** : Yn gyffredinol, mae'r gwariant net cyfredol yn parhau o fewn y gyllideb. Mae yna amrywiadau o fewn y gwasanaethau fel y manylir isod.

Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth – Er fod gorwariant ar ffioedd ymgynghoriaeth allanol, mae'r sefyllfa wedi sefydlogi tipyn ers 2024/25. Mae'r sefyllfa staffio yn fwy cadarnhaol ag oherwydd mae'r ddibyniaeth ar ymgynghorwyr allanol yn lleihau. Mae'n debyg y bydd angen edrych ar y gyllideb ar gyfer ymgynghoriaeth allanol a thanysgrifiadau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion presennol yr adran.

Polisi a Chynllunio – Mae costau'r Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o fod oddeutu £308k dros y dair blynedd nesa a bydd yn cael ei gyllido yn rannol o danwariant 2024-25 (£42k) ac hefyd cyfraniad o gronfa wrth gefn sydd wedi ei neilltuo ar gyfer pwrpasau Cynllunio.

Cadwraeth, Coed, ac Amaethyddiaeth - Mae nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn yn derbyn cyllid grant gan gynnwys Ffermio Bro, Prosiectau Ymylon Eryri a Mawndiroedd. Mae'n debygol y bydd y gwariant yn cael ei hawlio'n ôl trwy grantiau o fewn y flwyddyn. Wrth osod y gyllideb wreiddiol nid oedd sicrwydd o'r grantiau hyn a gosodwyd y gyllideb ar gyfer cyflogau rhai o'r cynlluniau hyn yn erbyn y gwaelodlin fel mesur rhagofalus. Nid yw'r blaen/rhagamcanion presennol yn awgrymu sefyllfa lle na fydd y grantiau ar gael ac oni bai bod y senario hwn yn newid yn ystod y flwyddyn disgwylir tanwariant ar gyflogau o fewn y gwasanaeth hwn.

4.5 **Balansau, Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau** -Tydi'r balans gwaelodlin gwreiddiol o £30,000 ar gyfer chwyddiant heb eto ei ddyrannu. Byddem yn monitro pa linellau cyllideb yr effeithir arnynt yn arbennig gan bwysau chwyddiant, ac yn dyrannu yn unol a hynny. Mae cyfanswm o £166,000 o'r ddarpariaeth codiad cyflog o £220,000 wedi ei ddyrannu. Bydd y gweddill yn mynd tuag at bontio'r diffyg yn y gyllideb.

4.6 **Llog** - £100,000 yw'r darged a osodwyd ar gyfer incwm llog cyllideb 2025-26. Yn y pedwar mis cyntaf, mae cyfanswm o £68k o incwm llog eisoes wedi'i dderbyn.

4.7 **Cyfalaf**: Mae'r prif wariant net hyd at ddiwedd mis Medi ar -

Cerbydau Wardeniaid	£46,557
Cerbydau Amaeth	£25,296
Cadair Idris (Grant Llywodraeth Cymru)	£31,930

5. **TROSLWYDDIADAU RHWNG Y CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD .**

5.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth rhwng £30,000 a £100,000 rhwng cyllidebau, lle nad ydynt wedi'u cymeradwyo'n flaenorol gan yr Awdurdod. Yn ogystal, mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod ar gyfer unrhyw drosglwyddiad gwerth £100,000 neu fwy.

5.2 Nid oes unrhyw drosglwyddiadau o'r fath wedi'u cymeradwyo yn ystod pedwar mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon.

6. **ARGYMHELLIAD**

- **Cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2025/26**

7. **PAPURAU CEFNDIR**

DIM

Atodiad 1			
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri			
Cyllideb Ddiwygiedig 2025/26 ar 31 o Orffennaf 2025			
	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£
CYNLLUNIO ARHEOLI TIR			
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	524,830		12,690
Awyr Dywyll	60,800		-
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	74,790		-
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	25,000		-
Archeoleg	70,200		1,650
Treftadaeth Diwylliannol	83,530		1,940
Ysgwrn	124,050		2,000
Rheolaeth Datblygu	519,000		21,640
Polisi a Chynllunio	282,700		50,640
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	516,500	-	37,610
Canolfannau Gwybodaeth	206,850	-	8,010
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	2,488,250	-	136,180
CORFFORAETHOL			
Costau Aelodau	136,570		-
Cefnogaeth yr Awdurdod	97,570		1,980
Rheolaeth Gorfforaethol	773,500		32,960
Eiddo	254,720		4,490
Cyfreithiol	60,710		1,580
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	210,610		5,260
Cyfieithu	95,990		13,760
Adnoddau Dynol	217,530		5,840
Pencadlys	263,870		560
Systemau Gwybodaeth	390,960		8,740
Cyllid	242,970		7,100
Plas Tan y Bwlch	530,230		4,100
Cyfathrebu	310,360		7,870
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	3,585,590	-	94,240

				Atodiad 1 parh.
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri				
Cyllideb Ddiwygiedig 2025/26 ar 31 o Orffennaf 2025				
	Cyllideb Sylfaenol	Trosglwyddiadau	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig
	£	£	£	£
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
CYNLLUNIO ARHEOLI TIR	2,488,250	-	136,180	2,624,430
CORFFORAETHOL	3,585,590	-	94,240	3,679,830
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant L.I.C.)	41,900	-	-	41,900
Llwybrau Llesiant (Grant L.I.C.)	40,000	-	-	40,000
Llyn Tegid	- 20,180	-	-	- 20,180
Meysydd Parcio	- 463,270	-	3,450	- 459,820
Cllirio Ysbwriel	19,510	-	-	19,510
Traffig a Chludiant	5,000	-	-	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	261,310	-	-	261,310
Mynediad Cyhoeddus	122,530	-	2,300	124,830
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddolwy	1,240,670	-	30,010	1,270,680
	4,833,060	-	130,000	4,963,060
BALANSAU				
Darpariaeth chwyddiant cyffredinol	30,000	-	- 30,000	-
Darpariaeth chwyddiant cyflogau	120,000	-	- 56,024	63,977
	150,000	-	- 86,024	63,977
CYFANSWM	7,471,310	-	180,156	7,651,466
Llog a Enillwyd	- 100,000	-	-	- 100,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	1,443,110	-	-	1,443,110
Addasiad Taliadau Cyfalaf	- 591,050	-	-	- 591,050
	8,223,370	-	180,156	8,403,526
ARIANWYD O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,325,806			4,325,806
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,441,935			1,441,935
Grant Parc Cenedlaethol Ychwanegol	-			-
Tros. o'r cronfeydd wrth gefn	2,455,630	-	180,156	2,635,785
Cyllideb Net	8,223,371		180,156	8,403,526

						Atodiad 2
<u>Cyllideb Cyfalaf 2025/26</u>						
Meysydd Gwasanaeth	Cyllideb Gros Wreiddiol	Incwm Grant	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosogl.	Trosogl. Newydd	Cyllideb Net Ddiwyg.
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheoli Tir						
Cynlluniau Treftadaeth Ddiwylliannol	149,490	-	149,490	-	-	149,490
Carneddau - Data LiDAR (Grant Ll. C.)	28,400	-	28,400	-	-	28,400
Carneddau - Llwybrau (Grant Ll. C.)	18,900	-	18,900	-	-	18,900
Mawndiroedd	400,000		40,000	-		400,000
Is-gyfanswm	596,790	-	236,790	-	-	596,790
Corfforaethol						
Systemau gwybodaeth - Rhaglen Amnewid.	22,340	-	22,340	-	-	22,340
Prosiectau Mynediad	10,000	-	10,000			10,000
Wardeniaid - Cerbydau	14,000	-	14,000			14,000
T.C.LL.C Natur a Carbon	500,000	-	500,000			500,000
Cyffredinol	300,000	-	300,000			300,000
Is-gyfanswm	846,340	-	846,340	-	-	846,340
Cyfanswm	1,443,130	-	1,083,130	-	-	1,443,130

EITEM RHIF 13

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	10 Medi 2025
TEITL	Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) 2025/26 – 2028/29
ADRODDIAD GAN	Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	Trafod a mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

CEFNDIR

- 1.1 Mae hon yn ddogfen drosolwg sy'n amlinellu'r prif faterion ariannol a fydd yn effeithio ar yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r ddogfen yn seiliedig ar bapurau technegol a baratowyd gan wasanaeth Cyllid yr Awdurdod, gyda Swyddog Adran 151 yr Awdurdod yn cynghori ar ragolygon strategol.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r sefyllfa ar ffurf gryno, ac yn benodol i alluogi Aelodau'r Awdurdod a staff i gael dealltwriaeth bellach mewn perthynas â:
- Senarios modelu / amcanestyniadau ariannol,
 - Egwyddorion a fabwysiadwyd wrth ddyrannu adnoddau,
 - Pennu maint unrhyw heriau / cyfleoedd ariannol,
 - Egwyddorion ar gyfer mynd i'r afael â phwysau ariannol
- 1.3 Mae'r her ariannol o ganlyniad chwyddiant yn sylweddol ar yr Awdurdod. Mae'r CATC yn benodol ar gyfer rhoi amlinelliad tymor canolig i'r aelodau o'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Awdurdod. Bydd yr Awdurdod angen defnydd darbodus o arian wrth gefn wrth ymateb i her chwyddiant, gyda phosiblirwydd bydd dim cynnydd pellach yn y grant sylfaenol gan Llywodraeth Cymru.

ARGYMHELLIAD

1. Nodi ac ymateb i'r materion sydd wedi ei nodi yn y CATC
2. Mabwysiadu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel Dogfen Weithiol.

CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG: 2025/26 – 2028/29

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae hon yn ddogfen drosolwg sy'n amlinellu'r prif faterion ariannol a fydd yn effeithio ar yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r ddogfen yn seiliedig ar bapurau technegol a baratowyd gan wasanaeth Cyllid yr Awdurdod, gyda Swyddog Adran 151 yr Awdurdod yn cynghori ar ragolygon strategol.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r sefyllfa ar ffurf gryno, ac yn benodol i alluogi Aelodau'r Awdurdod a staff i gael dealltwriaeth bellach mewn perthynas â:
- Senarios modelu / amcanestyniadau ariannol,
 - Egwyddorion a fabwysiadwyd wrth ddyrannu adnoddau,
 - Pennu maint unrhyw heriau / cyfleoedd ariannol,
 - Egwyddorion ar gyfer mynd i'r afael â phwysau ariannol.

2. GOFYNIAD CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (CATC)

- 2.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol hwn (CATC) yn dangos dull strategol yr Awdurdod o reoli ei gyllid ac mae'n amlinellu ystod o sefyllfaoedd ariannol a allai wynebu'r Awdurdod dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r dasg o gyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael drwy setliadau Llywodraeth Cymru (LIC) a pha mor llwyddiannus y bydd yr Awdurdod wrth gydbwyso adnoddau â blaenoriaethau gwasanaethau.
- 2.2 Mae'r CATC yn nodi cyflwr cyffredinol cyllideb yr Awdurdod ac yn amlinellu model o'r adnoddau ariannol sy'n ofynnol gan yr Awdurdod ar gyfer y lefelau gwasanaeth y mae'n gobeithio eu darparu yng nghanol y tymor. Mae hyn yn darparu fframwaith a fydd yn galluogi Aelodau a swyddogion i ddatblygu dyraniadau cyllideb blynyddol manwl.
- 2.3 Bydd y CATC yn offeryn allweddol ar gyfer cynnal rheolaeth ariannol ragweithiol. Bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y broses o bennu'r gyllideb flynyddol a sicrhau bod gofynion adnoddau'r Awdurdod ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael eu bodloni'n ddigonol ac yn unol â'r gwasanaethau cywir ond bydd hefyd yn caniatáu gosod anghenion ariannol yn y dyfodol yn ddigon pell ymlaen llaw fel y gellir gosod cynlluniau ar waith ar gyfer y camau priodol i'w cymryd i ddelio â'r lefelau cyllido disgwylidiedig.
- 2.4 Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd cynnydd o oddeutu 5% yn nyraniad Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2025/26 i £4,325,000. Dyranwyd grant ychwanegol o £82,564 ar gyfer 2024/25 ynghyd a £123,453 ar gyfer 2025/26. Mae'r newyddion i'w groesawu o gysidro'r her ariannol sydd yn gwynebu yr Awdurdod. Er bod chwyddiant wedi gostwng l raddfa oddeutu 3.5%, mae effaith diweddar o chwyddiant uchel ar yr economi a chostau cynyddol ar wasanaethau wedi gadael diffyg sylweddol yng Nghyllideb yr Awdurdod. Mae'n bwysig nodi bod costau'n dal i gynyddu, er ar gyflymder arafach, sy'n her enfawr i'r awdurdod o ystyried er gwaethaf cynnydd yn nyraniad Grant y Parc Cenedlaethol yn 2025/26.

3. BLAENORIAETHAU A NODAU'R AWDURDOD YN Y TYMOR CANOLIG:

3.1 Bydd angen i'r CATC gyflawni blaenoriaethau tymor canolig i hir, ynghyd â nodau a phwrpasau statudol yr Awdurdod. Diffinnir dibenion statudol yr Awdurdod yn Neddf yr Amgylchedd 1995 fel a ganlyn:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal,
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal.

Ac yn y broses o gyflawni'r pwrpasau hyn, dylai'r Awdurdod geisio gwella lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol.

3.2 Mae'r dogfennau canlynol yn allweddol i arwain yr Awdurdod yn ystod y cyfnod hwn:

- Llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau'r parciau cenedlaethol.
- Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol,
- Cynllun Datblygu Lleol,
- Ein gweledigaeth,
- Datganiad llesiant,
- Blaenoriaethau Gwasanaeth,
- Y Rhaglen Waith Gorfforaethol,

4. YR HER ARIANNOL

4.1 Ers i awdurdodau'r parciau cenedlaethol gael eu sefydlu ym 1996, mae'r Awdurdod wedi'i rymuso i reoli ei gyllideb ei hun, ond mae diffyg disgresiwn i osod swm yr ardoll (sydd wedi ei osod o dan reoliad fel cyfran o'r Grant Parciau Cenedlaethol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru) yn golygu na ellir newid cyfanswm y gyllideb.

Cyn 2025/26 doedd y Grant Parciau Cenedlaethol heb gynyddu ers 2021/22. Felly, er gwaethaf y cynnydd yma sydd i'w groesawu, mae'r her ariannol yn parhau.

Mae'r Awdurdod wedi gweld cyllid grant ychwanegol drwy Lywodraeth Cymru, megis grant "Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy" (TCLIC) Estynnwyd y trefniant hwn yn 2025/26 ar ffurf cynllun dwy blynedd gwerth hyd at argaeledd £500,000 y flwyddyn i'r awdurdod. Derbyniwyd dyraniad refeniw ychwanegol o £1.1m hefyd yn 2024/25 i gwrdd â'r her ariannol.

4.2 Cyllideb Sylfaenol yr Awdurdod:

Dyma grynodeb o'r sefyllfa o ran cyllideb gychwynnol yr Awdurdod:

Blwyddyn	2025/26 £'000	2024/25 £'000	2023/24 £'000	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Gwariant Refeniw Gros	10,315	10,546	9,994	9,964	9,939
Incwm Refeniw	-2,843	-3,185	-2,450	-3,370	-3,318
Gwariant Refeniw Net	7,471	7,359	7,544	6,594	6,620
Gwariant Cyfalaf Net	752	-165	828	-201	1,037
Cyfanswm y Gyllideb Wreiddiol	8,223	7,195	8,344	6,393	7,657
Grant	4,325	4,120	4,120	4,120	4,120
Treth	1,442	1,373	1,373	1,373	1,373
Cronfeydd wrth gefn / Cronfeydd Ar Gyfer Hapddigwyddiadau	4,456	1,062	2,850	900	2,164
Cyfanswm Cyllideb	8,223	7,195	8,343	6,393	7,657

* Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys toriadau a wnaed yn ystod y flwyddyn, y grantiau ychwanegol a dderbyniwyd, na'r diwygiadau a wnaed i'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.

** Cronfeydd a ffynhonnellau wedi eu clustnodi ar gyfer pwrpasau penodol.

4.3 Cyllidebau blynyddol:

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu ei gyllideb mewn modd amserol. Er mwyn gosod ardoll ar awdurdodau lleol cyfansoddiadol, mae angen i'r Awdurdod gytuno ar gyllideb gytbwys erbyn cyfarfod pwyllgor yr Awdurdod ym mis Chwefror. Gan na fydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r ffigwr setliad grant terfynol cyn mis Mawrth, gallai hyn newid yn y cyfamser. Pe bai'r setliad yn uwch na'r disgwyl, bydd yn rhaid i'r Awdurdod hepgor yr ardoll ychwanegol. Pe bai'r setliad yn is, gall yr Awdurdod ofyn am gytundeb gyda'r Awdurdodau cyfansoddol i aros gyda'r ardoll fel y cymeradwyir yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror. Nid oedd angen unrhyw drafodaethau yn 2025/26 gan fod y ffigwr terfynol fel y rhagamcanwyd ym mis Chwefror.

4.4 Pwysedd ariannol blynyddol ar yr awdurdod:

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn wynebu pwysau ariannol. Mae'r pwysau hwn yn effaith gronnol o'r hyn a ganlyn:

- Pwysau chwyddiant
- Ymrwymadau na ellir eu hosgoi
- Mesurau effeithlonrwydd wedi'u cynllunio / Ffrydiau incwm.

4.5 Pwysau o Chwyddiant:

Fel rheol, cyflwynir adroddiad i'r Awdurdod ar bwysau sy'n deillio o ganlyniad i chwyddiant; Dyma'r pwysau a amcangyfrifir ar gyfer y pedair blynedd nesaf:

Blwyddyn	2025/26 (£)	2026/27 (£)	2027/28 (£)	2027/28 (£)
Chwyddiant Cyflog 3%	120,000	123,600	127,300	131,200
Chwyddiant Arall	15,000	15,000	15,000	15,000

Ar adeg llunio'r adroddiad, ni chytunwyd ar gytundeb cyflogau Ebrill 2025, er ein bod yn disgwyl y cyrhaeddir cytundeb terfynol yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2025/26 a osodwyd ym mis Chwefror yn cynnwys darpariaeth o 2%, ond mae trafodaethau cynnar yn awgrymu bydd y setliad terfynol yn agosach at 3.5%. Bydd y sefyllfa yn cael ei monitoro wrth i fwy o wybodaeth ddod i law.

4.6 Pwysau na ellir ei osgoi:

Mae'r canlynol wedi'u nodi fel pwysau na all yr Awdurdod eu hosgoi:

2025/26 Er bod cynnydd yn Grant craidd y Parc Cenedlaethol yn 2025/26, mae'r pwysau ariannol o ganlyniad chwyddiant uchel dros amser yn parhau i fod yn her i'r Awdurdod.

Mae'r incwm o feysydd parcio wedi rhagori ar y targed dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar hyn o bryd, nid yw'r targed hwn wedi'i gynyddu ar gyfer 2025/26, gyda'r targed ar gyfer Canolfannau Croeso hefyd yn aros ar yr un lefel. Mae'r targed incwm hefyd wedi'i adolygu ac addasu ar gyfer Yr Ysgwrn yn 2024.25 i darged o fewn cyrraedd.

Fel yr adroddwyd yng nghyllideb 2025/26 a gyflwynwyd i'r Awdurdod ym mis Chwefror 2025, mae'r Awdurdod yn wynebu diffyg o £636k yn 2025/26, a diffyg cynyddol bob blwyddyn pe na bai cynnydd yn y Grant Craidd oherwydd pwysau chwyddiant. Mae'r grant refeniw munud olaf a dderbyniwyd ym mis Mawrth 2025 wedi ein galluogi i leddfu'r pwysau hwn rhywfaint, gan ein galluogi i ddefnyddio mwy o gronfeydd wrth gefn i gwrdd â'r diffyg yn 2025/26.

Mae ystyriaeth yn cael ei roi ar hyn o bryd i'r angen i wneud toriadau i wasanaethau, ailstrwythuro neu ddod o hyd i incwm ychwanegol er mwyn cwrdd â'r diffyg yn y gyllideb.

2026/27 Does dim arwydd bydd setliad grant craidd y Parciau Cenedlaethol yn newid eto erbyn 2026/27, hefo setliad gwastad i'w ddisgwyl. Fel yr

awgrymwyd eisoes, os yw'r duedd o ffynonellau cyllid ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn gan Llywodraeth Cymru yn parhau, gallai hyn leddfu rhywfaint o'r pwysau. Fodd bynnag, does dim gwybodaeth swyddogol wedi'i ryddhau. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r angen i gynllunio prosiectau ar fyr rybudd i fanteisio ar ffynonellau ariannu a allai ddod ar gael. Mae hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i staff yr Awdurdod fod yn rhagweithiol wrth chwilio a cheisio ffynonellau amrywiol o gyllid grant, ymestyn a chynnig cyfleoedd dilyniant ar gyfer nifer o brosiectau, a rhoi sicrwydd i staff. Fodd bynnag, mae ffynonellau cyllid fel y rhain fel arfer yn cynnwys gofynion monitro ac archwilio trylwyr sy'n cynyddu llwyth gwaith swyddogion. Mi fydd etholiad i'r Senedd ym mis Mai 2026 allai olygu newid mewn Llywodraeth.

2027/28 Oherwydd newid posib mewn Llywodraeth erbyn 2027/28, nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw wybodaeth y gellid ei dehongli i amcangyfrif ffigwr y setliad.

2028/29 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw wybodaeth y gellid ei dehongli i amcangyfrif ffigwr y setliad.

Mae Plas Tan y Bwlch wedi ei dynnu oddi-ar y farchnad, ac unrhyw gynlluniau i werthu wedi eu gohurio am y tro. Mae swyddogion yn gweithio ar hyn o bryd ar gais i Gronfa Treftadaeth y Loteri, ac os yn llwyddianus y gobaith ydy i gadw yr ased. Bydd canlyniad y cais ar gael yn yr Haf 2026, ac os nad yw'n llwyddiannus bydd yr Awdurdod yn ail-edrych ar yr opswin o roi Plas Tan y Bwlch yn ôl ar y farchnad.

4.7 Cronfeydd Wrth Gefn yr Awdurdod:

Mae gan yr Awdurdod 14 cronfa wrth gefn, gyda'r tabl isod yn adlewyrchu'r sefyllfa ar ddiwedd mis Mawrth 2025:

Cronfeydd wrth gefn	31/3/2025
	£'000
Cronfa Dderbyn Cyfalaf y gellir ei Ddefnyddio	164
Cronfa Adran 106	569
Cronfa Grantiau Refeniw	664
Cronfa Grantiau Cyfalaf	2,236
Cronfa Rheoli Asedau	699
Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus	225
Cronfa Arian Cyfatebol	1,034
Cronfa Llithrant	184
Cronfa Brosiectau	1,016
Cronfa Isadeiledd Yr Wyddfa	56
Cronfa Risgiau Penodol	408
Cronfa Cadernid Staff	372
Cronfa Risgiau Masnachol	100
Cronfeydd Caledi Ariannol	2,560
Cronfa Refeniw Cyffredinol	1,199
Cyfanswm	11,487

Mae'r awdurdod yn adolygu ei gronfeydd wrth gefn yn rheolaidd i sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu clustnodi a bod defnydd priodol yn cael ei wneud o'i gronfeydd wrth gefn. Mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio cronfeydd wrth gefn yn 2025/26 i leddfu effaith anarferol o uchel chwyddiant.

4.8 Setliadau Grant y Parc Cenedlaethol:

Fel y nodwyd uchod, mae ffigur setliad Grant y Parc Cenedlaethol wedi cynyddu oddeutu 5% ar gyfer 2025/26, sy'n rhoi cyfanswm grant ac ardoll o £5,767,741.

Yn absenoldeb ffigurau dangosol gan Lywodraeth Cymru, mae'r canlynol yn ffigurau posibl ar gyfer y tair blynedd ganlynol:

Newid mewn cyllid ariannu o Grant ac ardoll y Parc Cenedlaethol	2026/27	2027/28	2028/29
	(£)	(£)	(£)
+10%	576,774	634,450	697,900
+5%	288,387	302,810	317,950
+2.5%	144,190	147,800	151,490
+1%	57,680	58,250	58,840
0%	0	0	0
-1%	-57,680	-58,250	-58,840
-2.5%	-144,190	-147,800	-151,490
-5%	-288,387	-302,810	-317,950
-10%	-576,774	-634,450	-697,900

5. BLAENORIAETHAU GWASANAETH AC EGWYDDORION GWEITHREDU:

5.1 Blaenoriaethau Gwasanaeth:

Mae'r Awdurdod wedi adolygu a mabwysiadu ei flaenoriaethau gwasanaeth a'i egwyddorion gweithredu i'w helpu mewn hinsawdd ariannol heriol. Blaenoriaethau gwasanaethau'r Awdurdod yw:

- Sicrhau bod y nodau yng Nghynllun Rheoli'r Parc yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus gennym ni, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn gwella cyflwr y Parc. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu yn 2025/26, ab bydd cynllun ac amcanion newydd erbyn 2026/27.
- Sicrhau bod gan y swyddogaeth gynllunio statudol adnoddau digonol a'i bod yn cael ei rheoli'n effeithlon i fodloni gofynion polisïau cenedlaethol, ei bod yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid ac yn cefnogi cymunedau cynaliadwy.
- Dod o hyd i ffynonellau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.
- Sicrhau ein bod yn gyfarwydd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'u cyflawni.
- Dangos manteision Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn lleol ac yn genedlaethol o ran rheoli lle mor arbennig ag Eryri, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Sicrhau bod staff ac Aelodau yn cael digon o gymorth yn eu trefniadau gwaith yn ystod y sefyllfa hon, a bod lles staff yn cael ei gefnogi.

5.2 Egwyddorion Gweithredu:

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r egwyddorion gweithredu canlynol (yn unol â'r Rhaglen Waith Corfforaethol gyfredol):

- Osgoi cychwyn ar brosiectau sydd ag ymrwymïadau cynnal a chadw tymor hir.

- Annog a galluogi cymunedau lleol i reoli a chymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau yn eu hardaloedd.
- Dull gweithredu strategol o ymdrin â thwristiaeth gynaliadwy, addysg amgylcheddol a wardeinio;
- Dod o hyd i ffynonellau incwm newydd i gefnogi pwrpasau'r Parc a'r Awdurdod.

Dylai'r Awdurdod sicrhau bod pob gweithgaredd y mae'n ei gynllunio yn gyson â'r uchod, ac mai dyma'r paramedr cyntaf i'w ddefnyddio wrth osod y gyllideb flynyddol.

Mae'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau yn ystod y cyfnod economaidd caled hwn yn parhau i fod yr un mor bwysig, ac yn y cyd-destun hwn bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r dull gweithredu canlynol:

- Ymgorffori datblygiad cynaliadwy dyfnach hyd yn oed fel egwyddor graidd i'w dilyn wrth fynd ati'n ddyfal i gyflawni ein holl ddyletswyddau.
- Trwy weithio gyda'n partneriaid, mabwysiadu rôl alluogi a hwyluso wrth i ni gyflawni ein pwrpasau.
- Gwerthuso'r holl ymrwymadau ariannol hirdymor ac ymrwymadau eraill ar gyfer pob prosiect posibl.
- Gweithio gyda'n cymunedau i gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod.

5.3 Strategaeth Ariannol:

Disgwylir y bydd setliad craidd Grant y Parc Cenedlaethol yn aros ar yr un lefel dros y 3 blynedd nesaf, heb unrhyw ddarpariaeth ar gyfer chwyddiant. Bydd setliad 'gwastad' yn peri heriau sylweddol i'r Awdurdod, ac mae cynlluniau eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â'r diffyg anochel y mae'r Awdurdod yn ei wynebu.

Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif o'r hyn yr ydym yn disgwyl i'r diffyg fod dros y 4 blynedd nesaf, pe bai setliad craidd Grant y Parc Cenedlaethol yn aros ar yr un lefel.

	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
	£,000	£,000	£,000	£,000
Amcan chwyddiant		2%	2%	2%
Cyllideb Gros	10,315	10,521	10,732	10,946
Incwm	-1,992	-2,032	-2,072	-2,114
Llog	-100	-102	-104	-106
Cyllideb net	8,223	8,387	8,555	8,726
Grant ac Ardoll	-5,768	-5,768	-5,768	-5,768
Cyfraniadau o reserfau	-1,820	-1,856	-1,894	-1,931
Diffyg	635	763	894	1,027

Mae'r camau canlynol eisioes yn cael eu cysidro er mwyn cyfarch yr her ariannol

- Cynyddu ffioedd maesydd parcio
- Cynyddu cynhyrchiant incwm ar draws ein Canolfannau Gwybodaeth, ac yn benodol Betws y Coed
- Cysidro unrhyw doriadau i linnellau gwasanaeth er mwyn creu arbedion.

Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith y bydd y diffyg a ragwelir yn ei chael ar lefelau wrth gefn yr Awdurdod dros y 4 blynedd nesaf. Erbyn 2028/29, mae perygl y bydd cronfa gyffredinol yr Awdurdod yn cael ei disbyddu a bydd angen rhoi mesurau ar waith er mwyn osgoi'r sefyllfa hon a sicrhau cadernid ariannol yr Awdurdod.

	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29
Balansau ar gael				
Cronfa Her Ariannol	2,560	1,924	1,161	269
Cronfa Gyffredinnol	1,199	1,199	1,199	1,199
Diffyg	(635)	(763)	(893)	(1,027)
Balans diwedd flwyddyn	3,124	2,360	1,467	441

5.4 **Camau Perthnasol ar gyfer y Dyfodol:**

- Adolygu'r CATC wrth i wybodaeth berthnasol ddod ar gael i'r Awdurdod.
- Gweithio mewn cydweithrediad â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru (LIC) i sicrhau darpariaeth tuag at y cynnydd mewn costau oherwydd chwyddiant yn 2025/26.
- Gweithio mewn cydweithrediad â Gweinidogion Llywodraeth Cymru (LIC) a swyddogion i ddatblygu ymrwymiad ar gyllidebau dangosol yn y dyfodol.
- Sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei oblygiadau statudol.
- Sicrhau bod materion capasiti i ddarparu dyraniadau cyfalaf yn cael sylw.
- Ceisio dylanwadu ar Weinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru (LIC) i sicrhau darpariaeth ar gyfer y cynnydd mewn costau o ganlyniad i chwyddiant yn y grant craidd ar gyfer 2026/27 a 2027/28.
- Cynyddu cynhyrchiant incwm ar draws pob ffynhonnell posib
- Yn 2025/26, defnyddio Gronfa Caledi Ariannol i fynd i'r afael â'r diffyg sy'n weddill.

CYFARFOD	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD	10 Medi 2025
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-25
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
PWRPAS	Diweddaru Aelodau ar weithgaredd Yr Ysgwrn

1. TROSOLWG O 2024/25

- 1.1. Ail-agorwyd Yr Ysgwrn ar ddiwedd Mawrth 2024, i gyd-fynd a'r Pasg. Mae perfformiad masnachol ar ddechrau'r tymor yn amrywio yn ôl amseriad y Pasg a hefyd y tywydd. Os bydd y gwanwyn yn oer, bydd ymwelwyr yn dueddol o gadw draw. Yn 2024-25, roedd y Pasg yn gymharol gynnar, ar ddiwedd Mawrth a chafwyd dechrau arafach i'r tymor. Agorwyd chwe diwrnod yr wythnos dros y Pasg ac yna agorwyd am 5 diwrnod yr wythnos tan y Sulgwyn, er mwyn lleihau costau staffio ar adeg dawelach o'r flwyddyn.
- 1.2. Yn 2024-25, roedd gan y ganolfan gyflenwad llawn o staff tymhorol, yn gweithio'n gyfartal i 2.4 person llawn amser. Rhannwyd y rhain ymysg 7 aelod o staff tymhorol, yn gweithio 2-3 diwrnod yr wythnos ar wahanol gyfnodau.
- 1.3. Gorffennaf, Awst a Hydref oedd misoedd prysuraf y flwyddyn ac unwaith eto, gwelwyd nifer o grwpiau yn dewis ymweld ym mis Tachwedd ac wythnos gyntaf Rhagfyr. Mae'r cyfnod hwnnw yn boblogaidd gyda grwpiau Lefel A, sy'n astudio ffilm Hedd Wyn ac mae preswylwyr Glan-llyn yn gynulleidfa allweddol yn y cyfnod hwn hefyd.
- 1.4. Ym mis Mehefin 2024, daeth ein cywaith Geiriau Diflanedig gydag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ben. Rydym yn hynod falch o'r gwaith hwn, a ddenodd gynulleidfaoedd newydd i'r Ysgwrn ac a ddangosodd werth treftadaeth ddiwylliannol i gyfathrebu negeseuon cyfoes am yr argyfwng natur.
- 1.5. Yn olynnydd i'r arddangosfa honno, agorwyd arddangosfa newydd 'Yr Ysgwrn yn Ysbrydoli' ym mis Gorffennaf 2024, sy'n cynnwys nifer o weithiau celf gan artistiaid Cymreig blaenllaw, megis Luned Rhys Parri, Iwan Bala, Rob Piercy, Catrin Williams a Wini Jones Lewis, yn ogystal â gwaith celf o'r gymuned, a barddoniaeth a cherddoriaeth a ysbrydolwyd gan Hedd Wyn. Curadwyd yr

arddangosfa gan Branwen Haf Williams a Lois Prys. Cynhaliwyd Sesiwn Undydd Radio Cymru yn Yr Ysgwrn yn Haf 2024, gyda phedwar cerddor cyfoes yn cyfansoddi caneuon wedi'u hysbrydoli gan Yr Ysgwrn a'i threftadaeth. Mae'r caneuon yn rhan o arddangosfa'r Ysgwrn yn Ysbrydoli.

- 1.6. Llwyddwyd i gynnal 15 o weithgareddau gan ddenu 250 o fynychwyr yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd grantiau ar gyfer rhai o'r gweithgareddau gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Codir tâl rhesymol ar gyfer gweithgareddau lle nad oes grant ar eu cyfer.
- 1.7. Yn ogystal â grantiau ar gyfer gweithgareddau, derbyniwyd tri grant ar gyfer gwaith hirdymor. Y cyntaf oedd grant gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru, i gwblhau comisiynau marchnata, gan gynnwys hysbysebion Google a ffilm hyrwyddo'r Ysgwrn a chwblhawyd y rhain yng ngwanwyn 2025. Derbyniwyd grant pellach gan Artfund ar gyfer prosiect The Herds, sef prosiect cyfiawnder hinsawdd celfyddydol, sy'n codi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd ac yn sbarduno cymunedau i weithredu. Yn Yr Ysgwrn, canolbwyntiodd y prosiect ar rôl amaethyddiaeth a ffermydd teuluol mewn cadwraeth natur, gan gynnwys dehongliadau barddonol Hedd Wyn o'r hinsawdd a bywyd gwyllt. Bu'r artistiaid Elin Vaughan Crowley a Buddug Watcyn Roberts yn gweithio gydag Ysgol Bro Hedd Wyn i ddehongli'r berthynas a chafwyd gwaith o safon uchel iawn gan y disgyblion. Yn olaf, derbyniwyd grant gan yr Ulrike Michal Foundation for the Arts (UMFFTA) ar gyfer prosiect celf gweledol, yn seiliedig ar Y Gadair Ddu ac ail gadair farddol gan Eugene Van Fleteren a gomisiynwyd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 1918. Roedd hanes yr ail gadair a'i chysylltiad i'r Gadair Ddu wedi'i hanghofio'n gyfan gwbl tan yn ddiweddar a thrwy'r grant hwn, byddwn yn dehongli'r stori o'r newydd yn 2025-26, drwy gydweithio â Luned Rhys Parri, Iestyn Tyne a grwpiau yng nghymuned Trawsfynydd.
- 1.8. Cyhoeddwyd adnodd newydd i bobl ifanc, sef llyfr lloffion Yr Ysgwrn, i bobl ifanc 7-14 oed gwblhau yn ystod eu hymweliad. Darluniwyd yr adnodd gan Sioned Williams ac mae'n annog pobl ifanc i ymdrochi mewn gwahanol agweddau o stori'r Ysgwrn a'i amgylchedd.
- 1.9. Mae'r Pennaeth Eiddo yn parhau i weithio ar denantiaeth y byngalo a chyrraedd gofynion Rhentu'n Ddoeth Cymru.
- 1.10. Cwblhawyd y flwyddyn o fewn y gyllideb.

2. MATERION ARIANNOL

- 2.1. Gyda dyfodiad yr arddangosfa Geiriau Diflanedig, daeth cyfle masnachol drwy werthu amrywiaeth o gynnyrch a chofroddion yn ymwneud a'r arddangosfa, megis llyfrau'r awduron, gwahanol lyfrau o gyfres Geiriau Diflanedig, jig-sos a chynnyrch eraill oedd yn cydweddu'n thematig, e.e. llyfrau nodiadau, cardiau cyfarch, cynnyrch i'r cartref ac ati. Gwelwyd cynnydd o 14% mewn gwerthiannau siop, caffi a thocynnau yn ystod y flwyddyn, sy'n dystiolaeth o lwyddiant y fenter.
- 2.2. Codwyd prisiau'r caffi a thocynnau mynediad eto eleni, yn unol â chynnydd costau prynu nwyddau i mewn a chostau rhedeg. Mae'r Ysgwrn yn parhau yn gystadleuol o gymharu ag atyniadau tebyg eraill.

- 2.3. Parhau i godi mae costau rhedeg Yr Ysgwrn, ond mae'r sefyllfa wedi sefydlogi rhywfaint o gymharu â'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Eto yn 2024-25, prif gostau'r Ysgwrn oedd trydan, gwres a staffio.
- 2.4. Mae swyddogion a Bwrdd Yr Ysgwrn yn craffu'r gyllideb yn rheolaidd ac yn ceisio sicrhau gwerth da am arian. Ni ragwelir bod cyfleoedd i arbed costau yn y gyllideb gyfredol.
- 2.5. Llwyddwyd i gwblhau'r flwyddyn o fewn y gyllideb.

3. EDRYCH YMLAEN AT 2025-26

- 3.1. Cafodd y gwaith ar adnodd addysg ffilm Hedd Wyn ei oedi a chaiff ei lansio yn ddiweddarach yn 2025.
- 3.2. Bydd swyddogion yn cyflwyno ceisiadau grant ar gyfer cynnal gweithgareddau teuluol yn ystod Gŵyl Amgueddfeydd 2025.
- 3.3. Byddwn yn cyflwyno cais i adnewyddu statws achrediad amgueddfa'r Ysgwrn yn Ionawr 2026.
- 3.4. Byddwn yn cadarnhau tenantiaeth y byngalo ac yn diweddarau Bwrdd Yr Ysgwrn cyn diwedd blwyddyn galendr 2025.
- 3.5. Bwriadwyd ail-lansio Cyfeillion Yr Ysgwrn a sefydlu ymddiriedolaeth ddatblygu ond oherwydd amgylchiadau, nid yw'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu. Bydd modd cynnwys y gwaith hwn yn natblygiad prosiect Plas Tan y Bwlch yn hytrach.
- 3.6. Ymhen dwy flynedd, byddwn yn nodi 10 mlwyddiant ail agoriad Yr Ysgwrn. Byddwn yn canolbwyntio ymdrechion denu incwm ar ariannu prosiect i gofnodi'r 10 mlwyddiant a bydd manylion pellach yn cael eu trafod gyda Bwrdd Yr Ysgwrn yn y lle cyntaf.
- 3.7. Yn dilyn newidiadau staffio, bydd Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol newydd yn cymryd awenau'r Ysgwrn yn 2025/26 a bwriedir ceisio diwygio strwythur staffio'r Ysgwrn ei hun fel bydd cyfleoedd yn codi.

Argymhelliad:

- 1. I Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth a thrafod unrhyw faterion sydd angen sylw pellach.**

CYFARFOD	Cyfarfod yr Awdurdod
DYDDIAD	10 Medi 2025
TEITL	Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd – Cytundeb Cyflawni
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Polisi Cynllunio
PWRPAS	Cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru

1. CEFNDIR

- 1.1 Fel y gŵyr yr aelodau, mae'n ofynnol cynnal adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE) bob pedair blynedd o adeg mabwysiadu'r Cynllun presennol. Mae CDLI Eryri (2016 – 2031) a fabwysiadwyd wedi'i adolygu a'i lywio trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac fe wnaed hynny rhwng 7 Ebrill 2023 a 12 Mai 2023. Sefydlodd yr Adroddiad Adolygu'r angen i ymgymryd â gweithdrefn Adolygu Llawn, yn hytrach na gweithdrefn Adolygu Ffurf Fer i ymateb i faterion strategol a godwyd a newidiadau sylweddol yng nghydestun polisi cynllunio. Mae gweithdrefn adolygu llawn yn golygu bod angen cynllun datblygu lleol (CDLI) newydd.
- 1.2 Ar y 6ed o Ragfyr 2023, fe wnaeth y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad benderfynu gohirio'r broses o ddiwygio Cynllun Datblygu Lleol Eryri er mwyn sicrhau digon o adnoddau staffio i ymgymryd â gwaith paratoadol i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Eryri. Cyflwynwyd hysbysiad ynghylch y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar Ebrill 12fed, 2024 a chadarnhawyd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 gan yr Awdurdod ar Ionawr 22ain 2025 a daeth i rym ar Fehefin 1af 2025.
- 1.3 Bellach, mae'n bryd paratoi Cytundeb Cyflawni ar gyfer CDLI Eryri newydd sy'n cynnwys Cynllun Cynnwys y Gymuned. Mae'r Cynllun Cynnwys y Gymuned yn nodi sut a phryd y gall rhanddeiliaid a'r gymuned gymryd rhan yn y broses o lunio'r cynllun ac amserlen ar gyfer paratoi CDLI Eryri newydd.

2. CYNNWYS Y CYTUNDEB CYFLAWNI

2.1 Mae gan y Cytundeb Cyflawni ddwy brif ran:

RHAN A : Amserlen o gamau allweddol paratoi'r Cynllun; a

RHAN B : Cynllun Cynnwys y Gymuned sy'n amlinellu sut a phryd y bydd y gymuned yn gallu cymryd rhan yn y broses o baratoi'r Cynllun.

2.2 Mae'r cytundeb cyflawni yn nodi sut y bydd yr Awdurdod yn cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Eryri newydd.

2.3 Isod mae copi o'r amserlen sy'n amlinellu dyddiadau paratoi'r cynllun allweddol:

Cyfnodau Diffiniol

			Cyfnod Ymgynghori
1	Cytundeb Cyflawni	Drafft i'r Pwyllgor: 9 Ebrill 2025 Cymeradwyaeth yr Awdurdod Medi 2025 Cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ym mis Hydref 2025. Cytuno ar y Cytundeb Cyflawni a'i gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref 2025. Cynllun Disodli yn dod i rym ym mis Tachwedd 2025	Ymgynghoriad ar y CC a'r CCG Drafft Mai – Mehefin 2025
2	Cyfranogiad cyn-adneuo	Tachwedd 2025 – Ebrill 2027	Galwad Gyhoeddus am Safleoedd Ymgeisiol: cynhaliwyd am o leiaf chwe wythnos Gaeaf 2025
3	Ymgynghoriad Cyn-Adneuo		Ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun Cyn-adneuo (y Strategaeth a Ffefrir) Ionawr 2027 – Chwefror 2027
4	Ymgynghori ar y Cynllun Adneuo	Mai 2027 – Ebrill 2028	Hydref 2027 – Tachwedd 2027

Camau Dangosol

5	Cyflwyno	Cyflwyno Mai 2028	
6	Archwilio	Proses 11 mis o adeg y'i cyflwynwyd	
7	Adroddiad yr arolygwyr	Ebrill 2029	
8	Mabwysiadu	O fewn 8 wythnos i dderbyn yr Adroddiad Mai 2029	
9	Monitro ac Adolygu	Parhaus	Adroddiadau Monitro Blynnyddol i'w cael ym mis Hydref bob blwyddyn a'r Adolygiad o'r Cynllun o fewn 4 blynedd o'r dyddiad mabwysiadu

3. CAMAU WRTH GYMERADWYO'R CYTUNDEB CYFLAWNI

- 3.1 Wrth ddatblygu'r Cytundeb Cyflawni, mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â'r camau canlynol:
- a) Paratoi Cytundeb Cyflawni drafft (gan gynnwys Cynllun Cynnwys y Gymuned).
 - b) Ymgynghoriad ar amserlen ddrafft gyda Llywodraeth Cymru.
 - c) Ystyriodd a chytunodd yr aelodau ar Gytundeb Cyflawni drafft ar gyfer ymgynghori ar 9 Ebrill 2025.
 - d) Cynhaliwyd Fforwm Cymunedol ar 8fed o Fai 2025 gyda Chynghorau Tref a Chymuned i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a'u gwneud yn ymwybodol o'r ymgynghoriad sydd ar ddod ar y Cytundeb Cyflawni drafft.
 - e) Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft gyda rhanddeiliaid penodol a chyffredinol rhwng 16 Mai 2025 a 27 Mehefin 2025.

4 SYLWADAU A DDERBYNIWYD AR Y CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT

Cynllun Adneuo a Sail Dystiolaeth Diweddar	Ar ôl i'r Safle Ymgeisiol a'r Strategaeth a Ffefrir gael eu cwblhau a'u mabwysiadu, ymgynghori â chymunedau a rhanddeiliaid allweddol ar gwmpas a chynnwys y cam adneuo a diweddarau'r sylfaen dystiolaeth. Dyma'r cam pan fydd y CDLI cychwynnol yn cael ei ddrafftio yn dilyn yr holl fewnbwn a thystiolaeth a gasglwyd ers dechrau proses y cynllun newydd.	Mai 2027 – Ebrill 2028 Hydref – Tachwedd 2027 Ymgynghoriad Cyhoeddus Statudol chwe wythnos ar y Cynllun Adnau (i gynnwys ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol)	Pawb ar Gronfa Ddata Cyswllt y CDLI gan gynnwys Rhanddeiliaid Penodol a Chyffredinol, Cynghorau Tref a Chymuned ac Aelodau'r Awdurdod. Y Cyhoedd yn Gyffredinol Llywodraeth Cymru	Rhestr Bostio – Cronfa Ddata Cysylltiadau CDLI. Bydd gwybodaeth a dogfennaeth ar gael ar Wefan yr Awdurdod. Hysbysu drwy bostiadau cyfryngau cymdeithasol, lle bo'n briodol. Bydd copïau caled ar gael fel yr awgrymir yn adran 3(b). Gellir cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau lle bo'n briodol a lle bo adnoddau'n caniatáu.	Bydd yr holl sylwadau, dystiolaeth a chyfiawnhad yn cael eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Ymgynghori (gweler adran 3 (b)) ar ôl i'r Awdurdod eu hystyried. Bydd yr holl wybodaeth hon yn arwain at unrhyw newidiadau angenrheidiol yn nrafft cychwynnol y CDLI ar gyfer y cam cyflwyno.	Ymgynghorir ar ddogfennau'r Gwerthusiad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol, ochr yn ochr â'r CDLI Adnau am yr un cyfnod (cyfnod ymgynghori 6 wythnos)

Cyfnod Allweddol	Crynodeb o'r Cyfnod Allweddol	Pryd	Grwpiau sy'n Cymryd Rhan	Dull Ymrwymiad (gwybodaeth bellach yn adran 3(b))	Allbwn Ymgysylltu	SA / AAS / GCI
Cyflwyno	Dyma'r cam pan fydd yr Awdurdod yn cyflwyno'r CDLI drafft a dogfennau cysylltiedig yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru a Phenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w harchwilio'n annibynnol. Byddai'r dogfennau hyn yn cynnwys: • Y Cynllun Adnau • AC/AAS (ISA), HRA • Cytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys y Gymuned • Adroddiad Ymgynghori ar bob Ymgynghoriad Cyhoeddus, gan gynnwys copi o'r sylwadau / sylwadau llawn a gyflwynwyd fel rhan o bob ymgynghoriad cyhoeddus • Adroddiad yr Adolygiad • Y Safleoedd Posib a'r Strategaeth a Ffeirir • Dogfennau Ategol / Sylfaen Tystiolaeth megis Papurau Cefndir sy'n llywio Strategaeth a Pholisi.	Mai 2028	Hysbysu pawb ar Gronfa Ddata Cyswllt y CDLI gan gynnwys Rhanddeiliaid Penodol a Chyffredinol, Cyngorau Tref a Chymuned ac Aelodau'r Awdurdod, a'r Cyhoedd Llywodraeth Cymru a PEDW	Hysbysiad yn cael ei wneud trwy Restr Bostio - Cronfa Ddata Cysylltiadau CDLI. Bydd gwybodaeth a dogfennaeth ar gael ar Wefan yr Awdurdod. Bydd copïau caled ar gael fel yr awgrymir yn adran 3(b).	Mae'r Swyddog Rhaglen yn swyddog annibynnol y mae ei rôl yn cynnwys gweinyddu a chofnodi'r holl ddogfennau a chynlluniau a gyflwynir yn ystod y cam cyflwyno ac archwilio a bydd yn sefydlu tudalen Archwilio ar wefan yr Awdurdod, lle bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi gohebiaeth gan yr Arolygydd.	Bydd adroddiad yr Gwerthusiad o Gynaliadwyedd/Aseiad Amgylcheddol Strategol yn cael ei gyflwyno yn ystod y cam hwn, gan ddangos sut mae'r prosesau arfarnu wedi llywio cynnwys y Cynllun

Cyfnod Allweddol	Crynodeb o'r Cyfnod Allweddol	Pryd	Grwpiau sy'n Cymryd Rhan	Dull Ymrwymiad (gwybodaeth bellach yn adran 3(b))	Allbwn Ymgysylltu	SA / AAS / GCI
Archwiliad	Mae'r Cam Archwilio'n cynnwys Sesiynau Gwrandawriad lle gwneir asesiad i weld a ddilynwyd gofynion priodol llunio'r CDLI drwy gydol y broses yn ogystal ag asesu a yw'r CDLI a gyflwynwyd yn bodloni'r prawf cadernid.	11 mis o broses o gyflwyno	Pob parti â diddordeb (gan gynnwys cynrychiolwyr) fel y bo'n berthnasol i sesiynau gwrandawriad penodol	Swyddog Rhaglen i hysby-su. Bydd yr Archwiliad Cyhoeddus yn cael ei reoli gan yr Arolygydd a'r Swyddog Rhaglen. Bydd y Sesiynau Gwrandawriad ar agor i bawb sydd â diddordeb. Bydd Llyfrgell yr Archwiliad sy'n cynnwys yr holl ddogfennau ar gael ar wefan yr Awdurdod ac yn Swyddfa APCE ym Mhenrhyndeudraeth.	Bydd y Swyddog Rhaglen yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr Archwiliad ar wefan yr Awdurdod. Pe bai angen newidiadau yng ngoleuni'r broses Archwilio, a elwir yn 'Newidiadau Materion yn Codi', bydd yr Awdurdod yn ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y diwygiadau arfaethedig.	Gall sylwadau sy'n ymwneud â'r Gwethusiad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ymddangos yn yr archwiliad, a bydd unrhyw newidiadau a wneir ar ôl adneuo (ee materion sy'n codi neu newidiadau a arweinir gan arolygydd) yn cael eu hasesu a byddant ar gael ar gyfer ymgynghoriad.

Cyfnod Allweddol	Crynodeb o'r Cyfnod Allweddol	Pryd	Grwpiau sy'n Cymryd Rhan	Dull Ymrwymiad (gwybodaeth bellach yn adran 3(b))	Allbwn Ymgysylltu	SA / AAS / GCI
Adroddiad yr Arolygydd	Yn Adroddiad yr Arolygydd mae'r Awdurdod yn derbyn canfyddiadau'r Arolygydd o'r Archwiliad Annibynnol sy'n manylu ar yr argymhellion rhwymol a chanlyniad y broses. Mae angen mabwysiadu'r cynllun o fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd.	Ebrill 2029	Pawb ar Gronfa Ddata Cyswllt y CDLI gan gynnwys Rhanddeiliaid Penodol a Chyffredinol, Cyngorau Tref a Chymuned ac Aelodau'r Awdurdod. Y Cyhoedd yn Gyffredinol Llywodraeth Cymru	Rhoi gwybod i bawb ar y rhestr bostio – Cronfa Ddata Cysylltiadau CDLI. Bydd gwybodaeth a dogfennaeth ar gael ar Wefan yr Awdurdod.	Bydd yr Adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r Arolygydd gan gynnwys unrhyw newidiadau angenrheidiol a'r rhesymeg y tu ôl a fydd yn rhwymol wrth fabwysiadu'r CDLI newydd.	

Cyfnod Allweddol	Crynodeb o'r Cyfnod Allweddol	Pryd	Grwpiau sy'n Cymryd Rhan	Dull Ymrwymiad (gwybodaeth bellach yn adran 3(b))	Allbwn Ymgysylltu	SA / AAS / GCI
Mabwysiad	O fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd bydd paratodau ffurfiol ar y gweill gan yr Awdurdod i fabwysiadu'r CDLI newydd, gan ddisodli'r CDLI presennol 2016-2031. Anelu at gyhoeddi Datganiad Ôl-fabwysiadu o fewn 6 wythnos i fabwysiadu	Mai 2029	Pawb ar Gronfa Ddata Cyswllt y CDLI gan gynnwys Rhanddeiliaid Penodol a Chyffredinol, Cyngorau Tref a Chymuned ac Aelodau'r Awdurdod. Y Cyhoedd yn Gyffredinol Llywodraeth Cymru	Rhestr Bostio – Cronfa Ddata Cysylltiadau CDLI. Bydd gwybodaeth a dogfennaeth ar gael ar Wefan yr Awdurdod. Hysbysu drwy bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, lle bo'n briodol. Bydd copïau caled o'r CDLI newydd ei fabwysiadu ar gael cyn gynted ag sy'n ymarferol i'w harchwilio yn Swyddfa APCE ym Mhenrhyndeudraeth, ynghyd â'r holl ddogfennaeth ofynnol, megis y Datganiad Mabwysiadu.	Bydd gwybodaeth am y paratodau ffurfiol megis Cyfarfod Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod a Chyfarfod yr Awdurdod ar gael ar y wefan. Bydd y CDLI newydd ei Fabwysiadu yn cael ei gyhoeddi.	Yn dilyn ei fabwysiadu, bydd angen cyhoeddi gwerthusiadau ac asesiadau cyflawn ar gyfer monitro'r Cynllun yn erbyn yr amcanion. Bydd y wybodaeth ar gael i gyrff ymgynghori ac i'r cyhoedd

5. *Atodiadau*

Atodiad 1: Rhanddeiliaid allweddol

Cyrff Ymgynghori Penodol

Llywodraeth Cymru

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cadw

Network Rail Infrastructure Limited

Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth

Awdurdodau Cynllunio Lleol Cyfagos

Cyngor Gwynedd

Cyngor Conwy

Cyngor Ceredigion

Cyngor Powys

Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorau Cymuned a Thref

Unrhyw berson y mae'r cod cyfathrebiadau electronig yn gymwys iddo

CTIL (ar ran Vodafone a telephonica)

MBNL (EE a Three)

BT

Unrhyw Berson sy'n berchen ar offer electronig neu'n ei reoli

Arqiva

Bwrdd Iechyd Lleol

Betsi Cadwaladr

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Trydan

Rhwydweithiau ynni SP a Wales and West Utilities

Y Grid Cenedlaethol

Nwy

Nwy Prydain

Ymgwymerwr Carthffosiaeth

Dŵr Cymru

United Utilities

Ymgwymerwr Dŵr

Dŵr Cymru

Dŵr Hafren Trent

Adrannau Llywodraeth y DU

Adran Newid Hinsawdd ac Ynni

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

Cyrff gwirfoddol, y mae rhai neu bob un o'u gweithgareddau o fudd i unrhyw ran o ardal yr Awdurdod

Cymdeithas Eryri

Ymgyrchu dros amddiffyn cefn gwlad Cymru (CPRW)

Cymdeithas Edward Llwyd

Fforwm Eryri

Grwpiau cydraddoldeb gan gynnwys grwpiau hiliaeth, ethnig neu genedlaethol

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru

Stonewall

Travelling Ahead Cymru

Cymdeithas Tsieineaidd Gogledd Cymru / North Wales Chinese Society

Grwpiau Crefyddol Gwahanol

Canolfan Islamaidd Bangor

Cenhadaeth Uniongred Cymru

Cytun

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau Pobl Anabl

Grŵp Mynediad Meirionnydd

Grŵp Gweithredu Arfon

Grŵp Mynediad Dwyfor

Gwirfoddol Sirol Conwy

Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru

Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru

Anabledd Cymru

Grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau Pobl Hyn

Gwynedd Oed Gyfeillgar

Age Cymru

Age Concern Gwynedd a Môn

Age Concern Canol Gogledd Cymru

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n cynnal Busnes yn y Parc

Economi ac Adfywio Gwynedd

Gwasanaeth Adfywio Conwy

Ffederasiwn Busnesau Bach

Menter Môn

Clwb Busnes Gogledd Cymru

CLA Cymru

Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau Diwylliant Cymreig

Comisiwn y Gymraeg

Cymdeithas yr Iaith

Menter Iaith Conwy

Menter Iaith Gwynedd

Urdd Gobaith Cymru

Dyfodol i'r Iaith

Cylch yr Iaith

Grwpiau gwirfoddol yn yr ardal

Mantell Gwynedd

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy

Shelter Cymru

Ardal Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Talsarn

Aelodau Seneddol Lleol ac Aelodau Cynulliad Cymru

Cynrychiolwyr Lleol Senedd Ieuenctid Cymru

Erail

Heneb: yr Ymddiriedolaeth Archaeoleg Gymreig

Chwarae Cymru

Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Undeb Amaethwyr Cymru

Croeso Cymru

Cyngor y Parciau Cenedlaethol

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

Chwaraeon Cymru

Un Llais Cymru

Cymdeithas Achub Mynydd Gogledd Cymru

Cwmpas

Ymgynghorwyr eraill wedi'u nodi

Grwpiau Mynediad, Hamdden a defnyddwyr

- Fforymau Mynediad Eryri (Gogledd a De)
- Cyngor Mynydda Prydain
- Grwpiau defnyddwyr mynydd Eryri
- Plas y Brenin
- Cymdeithas y Cerddwyr
- Clwb Teithio Beicwyr
- Fields in Trust
- Eryri Bywiol
- Y Partneriaeth Awyr Agored

Gwasanaethau Cyhoeddus

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaethau tân

Cadwraeth bywyd gwyllt a thirwedd

- Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB)
- Coed Cadw
- Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain
- Cymdeithas Ted Breeze

Twristiaeth

- Cymdeithas Asiantau Cymreig
- Cynghrair Twristiaeth Cymru
- Twristiaeth Canolbarth Cymru
- Twristiaeth Gogledd Cymru
- British Holiday and Home Parks Association Ltd
- Betws y Coed, Beddgelert a Chymdeithasau Twristiaeth Rhanbarthol eraill
- Clwb Carafanau a Gwersylla
- Gweithredwyr rheilffyrdd twristiaeth yng Ngogledd Cymru
- Y Clwb Carafanau
- Cyngor Carafanau Cenedlaethol

Treftadaeth Ddiwylliannol

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Yr Academi Gymreig
- Cymdeithas Ddinesig Dyffryn Conwy
- Merched y Wawr
- Cymdeithas Eisteddfodau Cymru
- Cymdeithas Llafar Gwlad
- Cyfeillion Tan y Bwlch
- Cymdeithas Hanes Amaethyddiaeth
- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau

Amaethyddiaeth a choedwigaeth

- Y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol
- Coed Cymru
- Fountain Forestry
- Sir y Fflint / Coetiroedd yr Alban / Flintshire/Scottish Woodlands
- Pryor & Rickett Silviculture

Addysg

- Ysgolion cynradd ac uwchradd lleol
- Colegau addysg bellach lleol
- Prifysgolion a sefydliadau myfyrwyr Bangor ac Aberystwyth

Busnes

- Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru
- Cwmni Eginio
- Diwydiant Cymru ac Arfor

Tai Partneriaethau Lleol

- Gwasanaeth Galluogi Tai Gwledig Gogledd Cymru
- Grwp Cynefin
- Tai Gogledd Cymru
- Adra
- Cartrefi Conwy
- Clwyd Alun
- Cyngor y Sipsiwn / The Gypsy Council

Grwpiau Cymunedol a Gwirfoddol

- Grwpiau Cymunedol Lleol megis
 - o Partneriaeth Ogwen
 - o Cwmni Cymunedol Bro-Ffestiniog
 - o Antur Nantlle Cyf
 - o Antur Waunfawr
 - o Hwb Penmachno
 - o Antur Stiniog
 - o Dref Werdd
 - o Gwyrdd Ni
 - o Datblygiadau Egni Gwledig
- Seren Cyf
- Cwmni Nod Glas
- Pengwern Cymunedol
- Ynni Cymunedol Cymru
- Cyd Ynni
- Partneriaeth Dolgellau
- Pengwern Cymunedol
- Menter yr Eagles
- Prosiectau Cymunedol Aberdyfi
- Cwmni Pump Plwy Penllyn

Datblygu cynaliadwy

- Canolfan y Dechnoleg Amgen
- Ecodyfi
- WRAP
- Conwy Cynhaliol

Awdurdod Parc Cenedlaethol

- Rheolwyr APCE a phenaethiaid adrannau

Ynni

- ADN
- Magnox

Trafnidiaeth Gyhoeddus

- Trafnidiaeth Cymru

Perchnogion Tir

- Cymdeithas Tirfeddianwyr Cefn Gwlad / Country Landowners Association
- Comisiynwyr Ystad y Goron / Crown Estate Commissioners

Eraill

- Comisiwn Dylunio Cymru
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Daliadau Eiddo Swyddfa'r Post
- Ffermwyr Ifanc

CYFARFOD:	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
DYDDIAD:	10 Medi 2025
TEITL:	SEMINAR AELODAU PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU, 1 – 2 Hydref, Betws y Coed, Eryri Adfer Natur: Hau Hadau Newid
AWDUR:	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
PWRPAS:	Rhoi gwybod i'r Aelodau am y Seminar

1. CEFNDIR:

- 1.1 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn cefnogi seminar blynyddol i ddarparu cyfleoedd i aelodau gael eu briffio ar faterion sy'n dod i'r amlwg a rhannu profiad gyda Pharciau Cenedlaethol eraill yn eu rôl fel aelodau o'r Awdurdod. Cynhaliwyd y gweithdy diwethaf yn Ninbych-y-Pysgod ym mis Tachwedd 2025.
- 1.2 Mae Seminar Aelodau Cymru yn ddyddiad poblogaidd yng nghalendr Aelodau sy'n agored i bob Aelod, ac yn elfen bwysig o ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o Aelodau'r Parc Cenedlaethol. Mae'r Seminar Aelodau yn ychwanegol at gyfleoedd hyfforddi lleol a DU a gynigir i Aelodau o ran datblygu. Mae hyfforddi aelodau wedi'i amlygu fel agwedd bwysig ar fod yn aelod ac mae ein Gweinidog wedi tynnu sylw at y ffaith y dylai datblygu aelodau fod yn flaenoriaeth.

2. SEMINAR 2025:

- 2.1 Trefnir Seminar Aelodau eleni gan yr Awdurdod a bydd yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Royal Oak ym Metws y Coed. Anfonwyd gwahoddiad allan ar yr 22ain o Awst gyda chais i ddychwelyd eich ffurflen archebu erbyn y 10fed o Fedi.

Thema'r seminar yw "Adfer Natur: Hau Hadau Newid". Mae fformat y seminar yn cynnwys cyflwyniadau gan gyrff partner ac ymweliadau safle ar y diwrnod cyntaf ac yna cyflwyniadau pellach a thrafodaeth fanwl ar yr ail ddiwrnod.

3. ARGYMHELLIAD:

- 3.1 Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, dylai'r Aelodau gadarnhau eu presenoldeb neu beidio yn y Seminar drwy hysbysu'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd.



SEMINAR AELODAU PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU 2025: PARC CENEDLAETHOL ERYRI
NATIONAL PARKS WALES MEMBERS' SEMINAR 2025: ERYRI NATIONAL PARK

ADFER NATUR: HAU HADAU NEWID **NATURE RESTORATION:** SOWING THE SEEDS OF CHANGE

DIWRNOD 1.

Dydd Mercher 01 Hydref, 2025

DAY 1.

Wednesday 01 October 2025

Cofrestru'r mynychwyr

11:30 – 12:30

Cinio Bwffe

12:00 – 12:55

Croeso a Chyflwyniadau:
Y Cyng. Edgar. W. Owen.
Cadeirydd APC Eryri

13:00 – 13:10

Sian Williams.
Cyfoeth Naturiol Cymru

13:10 – 13:30

Trystan Edwards.
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

13:40 – 14:00

Adrian Jones.
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

14:10 – 14:30

Te / Coffi

14:40 – 15:00

YMWELIADAU SAFLE:
Y Carneddau
Crafnant a Crimpiau
Cwm Penmachno
Rhaeadr Conwy

15:00 – 17:00

AMSER RHYDD / RHWYDWEITHIO

17:30

Derbyniad, Gwesty'r Royal Oak

19:00

Cinio'r Seminar

19:30

Siaradwr Gwadd : Carwyn Graves
Awdur, garddwr a ieithydd

21:00

Register attendees

Buffet Lunch

Welcome and Introductions:
Cllr. Edgar. W. Owen.
Chairman, Eryri NPA

Sian Williams.
Natural Resources Wales

Trystan Edwards.
The National Trust

Adrian Jones.
North Wales Wildlife Trust

Tea / Coffee

SITE VISITS:
Y Carneddau
Crafnant & Crimpiau
Penmachno Valley
Conwy Falls

FREE TIME / NETWORKING

Reception, Royal Oak Hotel

Seminar Dinner

Guest Speaker : Carwyn Graves
Author, gardener and linguist

Brecwast

Croeso yn ôl, cyflwyniad i'r diwrnod ayyb:
Y Cyng. Ifor G. Lloyd. Is-Gadeirydd, APC Eryri

Cyflwyniad 1.

Rhys Evans. Rhwydwaith Ffermio ers Lles Natur

Cyflwyniad 2.

Arfon Williams. RSPB Cymru

Cyflwyniad 3

Yr Athro Prysor Williams. Prifysgol Bangor

Cyflwyniad 4.

Rachael Madeley Davies. AHDB

Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth

Te/Coffi

Cwestiynau i'r Panel a Thrafodaeth Grŵp:

Y Panel:

- Rhys Evans
- Rhys Owen
- Arfon Williams
- Yr Athro Prysor Williams
- Rachael Madeley Davies

Sioe Sleidiau Lluniau Natur a Chyflwyniad:

Manon Awst: Artist sy'n cyfuno gwaith ymchwil a chelf er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa amgylcheddol.

Dathlu a Chwmpasu Cynnwys y Seminar:

Cerdd: **Mali Elwy:** Enillydd y Goron yn Eisteddfod yr Urdd 2025 yw Mali Elwy. Cafodd ei chasgliad o gerddi, *Merch y Llyn*, ei ganmol am ei phortread pwerus o hunaniaeth, natur, a lle.

Gwaith Celf: **Jessica Balla:** Mae Jess Balla yn ddarlunwraig ac artist amlgyfrwng o ogledd Cymru. Mae ei ffocws ar y môr, straeon cymunedol a naratif o'r dirwedd yn ffiltro i gorff o waith swreal a chwareus.

Fideo: Parc Cenedlaethol Eryri

Cloi a Diolchiadau:

Jonathan Cawley. Prif Weithredwr, APC Eryri

Cinio a Gadael

08:00 – 09:00

09:15 – 09:20

09:25

09:35

09:45

09:55

10:15 - 10:40

10:45 – 11:30

11:30 – 11:50

11:50 – 12:15

12:20

12:30

Breakfast

Welcome back, introduction to the day etc:
Cllr. Ifor G. Lloyd. Vice-Chair, Eryri NPA

Introduction 1.

Rhys Evans. Nature Friendly Farming Network

Introduction 2.

Arfon Williams. RSPB Cymru

Introduction 3

Prof.Prysor Williams. Bangor University

Introduction 4.

Rachael Madeley Davies. AHDB

Agriculture and Horticulture Development Board

Tea/Coffee

Panel Questions and Group Discussion:

The Panel:

- Rhys Evans
- Rhys Owen
- Arfon Williams
- Professor Prysor Williams
- Rachael Madeley Davies

Nature Slideshow and Presentation:

Manon Awst: An artist who combines research and art to raise awareness about the environmental situation.

Celebrating and Encompassing the Seminar Content:

Poem: **Mali Elwy:** Winner of the Crown at the 2025 Urdd Eisteddfod. Her collection of poems, *Merch y Llyn*, was praised for its powerful portrayal of identity, nature, and place.

Artwork: **Jessica Balla:** Jess Balla is an illustrator and multimedia artist from North Wales. Focussing on the sea, community stories and narrative of the landscape filters into a body of surreal and playful work.

Video: Eryri National Park

Close - and Acknowledgments:

Jonathan Cawley. Chief Executive, Eryri NPA

Lunch and Departure



SEMINAR AELODAU PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU 2025: PARC CENEDLAETHOL ERYRI
NATIONAL PARKS WALES MEMBERS' SEMINAR 2025: ERYRI NATIONAL PARK

ADFER NATUR: HAU HADAU NEWID **NATURE RESTORATION:** SOWING THE SEEDS OF CHANGE

DIWRNOD 1.

Dydd Mercher 01 Hydref, 2025

DAY 1.

Wednesday 01 October 2025

15:00 – 17:00 YMWELIADAU SAFLE ~ SITE VISITS

Bydd angen esgidiau cerdded a dillad addas/tywydd gwlyb ar gyfer pob taith
Walking shoes/boots and suitable/wet weather clothing will be required for all journeys



1. Y Carneddau

Taith hawdd/canolig ½ milltir o gerdded ar dir gwastad ond ar arwyneb anwastad. Addas i'r tramper.

Mae Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn gasgliad o dros 20 sefydliad sy'n cydweithio i geisio gwarchod treftadaeth naturiol a diwylliannol tirwedd y Carneddau, yng ngogledd Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r Partneriaeth yn gweithredu Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau dros gyfnod o 5 mlynedd, diolch i gefnogaeth Cronfa Treftadaeth Cenedlaethol y Loteri a nifer o arianwyr eraill. APCE yw partner arweiniol y Cynllun.

Yn ystod y daith, byddwn yn ymweld a nifer o safleoedd i ddysgu am waith cadwraethol y Cynllun a chawn flas ar dreftadaeth ddiwylliannol nodedig yr ardal. Yn gyntaf, byddwn yn ymweld a fferm Gwern Gof Isaf ac yna'n mynd yn ein blaenau ar hyd yr A5 i Flaen y Nant, lle mae'r Cynllun wedi sefydlu meithrinfa goed dan reolaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Ymunwch a ni i ddysgu am waith y Cynllun yn ardal Ogwen drwy brosiectau plannu dwysedd isel, adfer dolydd, rheoli llystyfiant, gwella mynediad, gwarchod a chyfoethogi treftadaeth ddiwylliannol ac ymgysylltu â chymunedau lleol drwy gyfleoedd gwirfoddoli.

1. Y Carneddau

Easy/medium walk ½ mile on flat ground but on uneven surface. Suitable for the tramper.

The Carneddau Landscape Partnership is a collection of over 20 organisations working together to seek to protect the natural and cultural heritage of the Carneddau landscape, in the north of Eryri National Park. The Partnership has been operating the Carneddau Landscape Partnership Scheme over a 5-year period, thanks to the support of the National Heritage Lottery Fund and a number of other funders. ENPA is the lead partner of the Scheme.

During the tour, we will visit a number of sites to learn about the Scheme's conservation work and get a taste of the area's distinctive cultural heritage. First, we will visit Gwern Gof Isaf farm and then continue along the A5 to Blaen y Nant, where the Scheme has established a tree nursery under the management of the National Trust.

Join us to learn about the work of the Scheme in Ogwen via low density planting projects, meadow restoration, vegetation management, improving access, protecting and enriching cultural heritage and engaging with local communities via volunteering opportunities.



2. Crafnant a Crimpiau

Taith ganolig heriol ar dir anwasted.
Esgidiau cerdded cadaran a dillad addas
yn hanfodol.

Bydd y daith canolig/heriol hon yn cychwyn o faes parcio'r Awdurdod ym mhentref Capel Curig. Byddwn yn cerdded ar hyd llwybr cymharol serth am oddeutu 40 munud, i brofi rhan o gylchdaith poblogaidd sy'n cysylltu cymuned Capel Curig gyda Llyn Crafnant a'r Carneddau. Yn 2022, cwblhawyd gwelliannau i'r llwybr er mwyn gwella mynediad a hygyrchedd a'i wneud yn lwybr addas i amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr. Yn ystod y y daith, byddwn yn ystyried gofynion datblygiadau o'r fath mewn ardaloedd o lonyddwch, y risgiau a'r cyfleoedd. Dyma ardal arbennig o Barc Cenedlaethol Eryri a bydd y daith yn golygu cerdded drwy nifer o wahanol gynefinoedd, gyda golygfeydd godidog.

2. Crafnant & Crimpiau

A moderately challenging tour on uneven land. Sturdy walking shoes and suitable clothing are essential.

This medium/challenging walk will start from the Authority's car park in the village of Capel Curig. We will walk along a relatively steep path for approximately 40 minutes, to experience part of a popular circuit linking the community of Capel Curig with Llyn Crafnant and the Carneddau. In 2022, improvements to the route were completed to improve access and accessibility and make it a suitable route for a wider range of users. During the tour, we will consider the requirements of such developments in areas of tranquility, as well as the risks and opportunities. This is a special area of Eryri National Park, and the walk will involve walking through a number of different habitats, with stunning views.



3. Cwm Penmachno

Taith hawdd, dim cerdded

Taith bws mini i Gwm Penmachno i edrych ar waith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar ffermydd wedi eu prynu yn y 10 mlynedd ddiwethaf. Edrych ar y gwaith adferiad natur a thrafod rheolaeth dalgylch ehangach gyda phresenoldeb eiddo Cyfoeth Naturiol Cymru. Gyrru draw o Gwm Penmachno i ben y Migneint i weld a thrafod gwaith mawn, Ffermio Bro cyn dychwelyd.

3. Penmachno Valley

Easy tour, no walking

A minibus trip to the Penmachno Valley to see the National Trust's work on farms purchased in the last 10 years to look at the nature restoration work and discuss wider catchment area management with the presence of Natural Resources Wales properties. Drive over from the Penmachno Valley to the top of the Migneint to see and discuss Ffermio Bro peatland works, before returning.



4. Rhaeadr Conwy

Taith hawdd-canolig, 1.2 milltir o gerdded ar dir anwastad

Taith gerdded fer (1.9km) o Rhaeadr Graig Lwyd i lawr i Bont yr Afanc, adeilad rhestredig Gradd II. Mae opsiwn i barhau i gerdded yn ôl i Fetws y Coed (+1.3Km i Westy Waterloo. 1.9km i Royal Oak ar ffordd wledig gul, traffic isel, palmant yn y pentref). Wrth gerdded cawn gyfle i drafod cydweithio rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, cynllun Ffermio Bro ar ddarn o dir ar y Llwybr Llechi a thrafod enwau lleoedd Cymraeg.

4. Conwy Falls

Easy-medium walk, 1.2 miles of walking on uneven terrain

A short walk (1.9km) from Graig Lwyd Falls down to Pont yr Afanc, a Grade II listed building. There is an option to continue walking back to Betws y Coed (+1.3Km to Waterloo Hotel. 1.9km to Royal Oak on a narrow, low traffic, paved country road in the village). On the walk we will have the opportunity to discuss the collaboration between Natural Resources Wales, the Ffermio Bro scheme on a piece of land on the Slate Trail and discuss Welsh place names.





Dydd Mercher 1 Hydref 2025

Detholiad o Ganapes a gwydraid o brosecco

Eog Confit ar wely o ffacbys a chaserol llysiau

Porc cywasgedig arbennig y cogydd, Terrine Bacwn wedi'i Fygu a Chorizo, siytni & tost ciabatta

Sgwid Halen a Phupur Crensiog, salad salsa, meiones chipotle

(LI) Cawl Tatws Melys, Afal a Sinsir

Dathliad o Gig Eidion Cymru a llysiau wedi'u rhostio, tatws dauphinoise a bresych coch

Brest Cyw lân, cennin a bacwn hufennog, llysiau tymhorol

Ffiled o Ddraenog y Môr, piwrî pomme, blodfresych, cnau pinwydd a saws menyn

(LI) Tafell o Gnau Cymysg a Gwreiddlysiau wedi'u rhostio, tatws cynnar a phiwrî winwnsyn

Pwdin Siocled Delice,

banana wedi'i garamelleiddio, saws butterscotch Barti Ddu, hufen dwbl

Crymbl ceirch figan a hufen îa caramel hallt

Cacen Gaws Cwrdd Lemwn arbennig y Cogydd, meringue bychan a chompot ffrwythau

Triawd o Hufen lân, bisgedi cartref

(LI) Gellygen wedi'i photosio â fanila

Gwydraid o win tŷ

ALERGEDDAU AC ANODDEFIADAU BWYD. Cyn archebu diodydd neu fwyd, siaradwch gydag aelod o'r tîm ynghylch eich gofynion. Mae pob pryd yn cael ei baratoi mewn mannau lle mae alergenau yn bresennol. Felly, mae yna berygl y gall cynhwysion a ddefnyddir yn eich pryd fod wedi dod i gysylltiad ag alergen nad yw wedi ei nodi yn ddamweiniol, gan arwain at groeshalogi.

Efallai yr aml-ddefnyddir yr offer coginio (e.e. y cyfarpar ffrio, griliau ac ati) ac yn yr un modd aml-ddefnyddir yr ardaloedd paratoi bwyd ac fe all eitemau fod wedi cael eu coginio mewn olew fffrio sy'n cynnwys amrywiol alergenau.



COFNODION
PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 09 GORFFENNAF 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jonathan Cawley, G. Iwan Jones, Keira Sweeney, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Bethan Hughes, Gina Galluccio, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

Hefyd yn Bresennol

Luned Fon Jones (Archwilio Mewnol), Bleddyn Rhys (Archwilio Mewnol)

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. Cadeirydd

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Elfed Powell Roberts.

Etholwyd Elfed Powell Roberts yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. Is-gadeirydd

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Annwen Hughes.

Etholwyd Annwen Hughes yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

3. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

Mabwysiadwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 19 Mawrth 2025, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Taflen Weithredu**

Cyflwynwyd y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd bod yr Awdurdod yn parhau i aros am arweiniad ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddwy eitem oedd ar y daflen a dylid eu cadw fel ag yr oeddynt.

Argymhellwyd: – cadw'r ddwy eitem ar y daflen fel ag yr oeddynt.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

Adroddwyd:

- ei bod yn ofynnol yn y sector gyhoeddus i'r Pennaeth Archwilio ddod i gasgliad ar lefel y sefydliad ynghylch materion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol;
- bod yr Archwiliwr Mewnol o'r farn fod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fframwaith cadarn o reolaeth fewnol; bod y camau a gymerwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod camau gweithredu i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn dda ar y cyfan;
- bod tri darn o waith yng nghynllun Archwilio Mewnol gwreiddiol 2023/24, sef:
 1. Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio
 2. Cefnogaeth i Aelodau
 3. Gwirfoddolwyr
- bod y lefelau sicrwydd canlynol wedi eu rhoi i'r darnau o waith yma, sef:
 1. Digonol
 2. Uchel
 3. Digonol.

Nodwyd:

- bod yr holl gamau gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad o dan "Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio" bellach wedi'u cwblhau;
- anfodlonrwydd ar ddyfarnu lefel sicrwydd "Uchel" i "Gefnogaeth i Aelodau" gan mai dim ond 4 ymateb i'r holiadur a dderbyniwyd allan o 18;
- y gellid disgwyl y byddai mwy o sylw wedi ei roi i systemau cyfrifon a rheolaeth fewnol yn y cynllun am eleni, a hefyd nodi unrhyw newidiadau oedd wedi eu gwneud i adroddiadau cyfrifon yn ystod y flwyddyn, cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol;
- er bod y cynllun gwaith am 25/26 yn hawlio ei fod wedi ei seilio ar ddadansoddiad o risgiau, nad oedd sôn yn yr adroddiad am unrhyw ddefnydd o ymgynghorwyr, ac awgrymwyd y gellid plethu rhai o risgiau uchel Proffil Risg yr Awdurdod i'r adroddiad yma.

Nid aeth unrhyw argymhelliad gerbron y Pwyllgor er mwyn ail-edrych ar yr adroddiad a'r cynllun gwaith.

8. Adroddiad Diweddaru Grantiau Ariannu Allanol

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr.

Adroddwyd:

- am y prosiectau gwahanol a oedd yn cael eu hariannu gan grantiau allanol:
 - bod y prosiect, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy 2022-25, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi dod i ben, a bod adroddiad llawn ar y prosiect bellach wedi mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru; byddai adroddiad llawnach yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Perfformiad.

Nodwyd:

- bod y grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect Dŵr Gwylt Cymru wedi ei roi ar gyfer yr Afon Mawddach yn benodol, ond bod posibilrwydd y gellid rhoi peth arian i afonydd eraill, gan gynnwys y Dysynni;
- bod newidiadau wedi eu gwneud i gais diwygiedig yr Awdurdod i'r Gronfa Rhwydwaith Natur wedi methiant y cais cyntaf yn 2024;
- nad oedd y Cynllun Coedwigaeth Glaw yn dod i ben tan 2027, a bod trafodaethau eisoes ar droed i gyflwyno cais newydd am brosiect gwerth £10M (gyda chymdeithas arall yn arwain y tro yma, o bosib);

Cynigiwyd:

- y dylid ychwanegu at un o flaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer cynigion cyfalaf a refeniw 2025-26, sef i gynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais i gael mynediad i gefn gwlad;

Argymhellwyd – bod Aelodau'n

1. nodi'r diweddariad ar y prosiectau arian cyfalaf;
2. nodi prosiectau gweithredol cyfredol a newydd;
3. ystyried a chymeradwyo'r ddau bennawd thematig ychwanegol a chadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynigion yn y dyfodol, gan ychwanegu'r newid a gynigiwyd fel bod blaenoriaeth 12 yn darllen:
 - a. *Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais gael mynediad i gefn gwlad ac elwa o'r dirwedd;*
4. nodi'r Siart Llif Datblygu a Chymeradwyo Prosiectau;
5. nodi cynnydd ar brosiectau byw.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

9. Rhaglen Waith Corfforaethol 2024-25 – Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- mai hwn oedd yr adroddiad terfynol ar y rhaglen waith corfforaethol am y flwyddyn yma, ac fe fyddai ymatebion y cyfarfod yn cael eu hymgorffori i mewn i'r adroddiad blyneddol a fyddai'n dod o flaen yr Aelodau ym mis Medi.

Argymhellwyd: – archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

10. Proffil Risg yr Awdurdod

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Adroddwyd:

- bod y risgiau a oedd yn wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu'n dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel;
- bod y Proffil yn nodi bod 19 risg wedi eu canfod: roedd tri ohonynt wedi eu nodi'n risgiau Uchel, 14 yn risgiau Canolig, a dau'n risgiau Isel;
- nad oedd unrhyw newid yn lefelau'r risgiau ers y diweddariad diwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Mawrth 2025. Roedd camgymeriad yn fersiwn Gymraeg yr adroddiad am ei fod yn dweud fod risg 17, (Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Risg o adolygiad barnwrol) wedi cynyddu, ond nid oedd wedi newid mewn gwirionedd.

Nodwyd:

- bod y Gofrestr Risg yn cael ei adolygu cyn pob Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a chyn pob cyfarfod o'r Awdurdod; bod y Tîm Arweinyddiaeth hefyd, os yw'n ystyried bod risg newydd wedi codi, yn ychwanegu'r risg honno i'r Gofrestr Risg i'w thrafod yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod, neu'r Pwyllgor Perfformiad, pa un bynnag fyddai nesaf;
- bod y golofn "Gweddill Risg" yn cofnodi'r lefel o risg yr hoffai'r Awdurdod ei gyrraedd yn hytrach na'r lefel y mae ar hyn o bryd;
- y dylid paratoi cynllun wrth gefn mesuradwy ar gyfer dyfodol Plas Tan y Bwlch petai'r cais ar gyfer arian o'r Gronfa Loteri Treftadaeth yn methu;
- bod y Prif Weithredwr wedi dechrau edrych ar y posibilrwydd o droi at Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (*Shared Prosperity Fund*, SPF) petai'r cais am arian tuag at ddatblygu Plas Tan y Bwlch gan y Gronfa Loteri Treftadaeth yn methu;
- y gallai Etholiad y Senedd fis Mai 2026 greu risgiau dilyniant (*continuity*) a dylid ychwanegu'r risgiau hynny at y proffil.

Argymhellwyd: – trafod cynnwys yr adroddiad

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

11. Adroddiad Monitro Cwynion

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer.

Adroddwyd:

- bod yr Awdurdod wedi derbyn 16 o gŵynion ffurfiol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25;
- y cadarnhawyd neu rhannol-gadarnhawyd 8 o'r cwynion a ymchwiliwyd iddynt.

Nodwyd:

- nad oedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi, ac mai'r nod oedd datrys unrhyw gŵyn neu broblem yn y fan a'r lle, os yn bosibl.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

12. **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi gwybodaeth am wariant yr Awdurdod am y flwyddyn ariannol 2024/25 a'i gymharu â'r gyllideb a osodwyd cyn dechrau'r flwyddyn;
- crynodeb o'r sefyllfa ariannol.

Nodwyd:

- y bu gorwariant o £26K ar gasglu sbwriel oherwydd prysurdeb eithriadol y meysydd parcio a thrin sbwriel yn anghyfrifol:
 - dylid ymchwilio i ffyrdd y mae parciau cenedlaethol eraill wedi delio gyda'r broblem, a
 - gwahoddwyd swyddogion i gyflwyno adroddiad i'r Aelodau i drafod ffyrdd o ymateb i'r broblem;
- bod yr Awdurdod wedi derbyn arian gan ffermydd gwynt mawr oherwydd eu heffaith dirweddol.

Argymhellwyd: – bod Aelodau'n

1. cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf;
2. cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd;
3. nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol;
4. cymeradwyo'r llithriadau (£170,160) a'r ymrwymadau;
5. Cymeradwyo trosglwyddo tanwariant y flwyddyn ariannol 2024/25 i Gronfa Balansau Cyffredinol;
6. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

13. **Adroddiad Blynyddol ar Wir Weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yn 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

Adroddwyd:

- ei bod hi'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod;
- i weithgarwch yr Awdurdod aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol;
- na fu unrhyw fenthycia;
- nad oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

Nodwyd:

- bod yr Awdurdod yn gosod cyfeiriad i'r adran gyllid ar fuddsoddi'n flynyddol, ac na fyddai'r adran yn buddsoddi mewn sefydliadau a oedd yn arddel gwerthoedd anghydnaws â gwerthoedd creiddiol yr Awdurdod.

Argymhellwyd: – nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

14. **Datganiad Polisi Cyflog 2025/26 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Cyflog ar gyfer 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad gan Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn absenoldeb y Pennaeth Adnoddau Dynol.

Adroddwyd:

- cyflogau'r Prif Swyddogion a chyflogau'r staff eraill.

Nodwyd:

- bod y ffigwr o roddwyd ar gyfer cyflogau cyfarwyddwyr am 2024/25 yn anghywir.

Cynigiwyd:

- bod yr ail argymhelliad gwreiddiol – sef “cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Bolisi Cyflogau ar gyfer 2023/24” – yn cael ei dynnu nôl, ac adroddiad pellach yn cynnwys y ffigyrau cywir yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod diweddarach.

Argymhellwyd: – Bod yr adroddiad yn cael ei dynnu nôl ac adroddiad pellach yn cynnwys y ffigyrau cywir yn cael ei gyflwyno i gyfarfod diweddarach.

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

15. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn 2024: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu.

Adroddwyd bod:

- pethau yn yr adran wedi sefydlogi yn 2024 wedi iddi fod heb bennaeth ymgysylltu yn ystod 2023, a bod:
 - Swyddog Cynnwys Digidol â chyfrifoldeb am y wefan wedi ei phenodi;
 - sylwedd yn y cynnwys a gyhoeddiad wedi cynyddu;
 - nifer dilynwyr digidol wedi codi dros 5%;
- cyfrif TikTok wedi ei ail-sefydlu a oedd wedi galluogi ymgysylltu gyda mwy o ddefnyddwyr;
- ymgynghoriadau ynghylch Erthygl 4 a'r Strategaeth Goed wedi bod yn llwyddiannus;
- ardaloedd llai adnabyddus o'r Parc wedi'u hyrwyddo;
- yr Awdurdod yn parhau i ddod yn gyntaf fel canlyniadau i ymholiadau ar y termau hynny sydd bwysigaf i'r Awdurdod (Wyddfa, Eryri ayyb) yn y peiriannau chwilio mwyaf poblogaidd (Google ayyb), a bod hyn yn wir yn y Gymraeg a'r Saesneg; ei bod yn parhau'n bwysig fod yr Awdurdod yn cynnal y safle yma yn y ddwy iaith er nad oedd yr Awdurdod yn arddel yr enwau Saesneg bellach;
- perthnasau a chydweithio gyda chymdeithasau lleol a chenedlaethol yn parhau'n gryf.

Nodwyd:

- dymuniad i weld mwy o berthynas rhwng y Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir a nodwyd yn yr adroddwyd â Phwynt 5.2 (Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu) y Rhaglen Waith Corfforaethol:
 - tra bod y mesuriadau presennol yn dangos maint yr ymgysylltu, byddai'n dda cael modd o fesur a oedd yr ymgysylltu hwnnw'n newid canfyddiad defnyddwyr o'r Parc;

- bod rhai o'r Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir yn annelwig, a dylid ceisio'u gwneud yn fwy mesuradwy;
- gellid tracio sentiment, sef sut mae pobl yn ymateb i bostiadau (p'un ai'n gadarnhaol neu'n negyddol), i fesur llwyddiant;
- mewn ymateb i'r broblem o ddylanwadwyr digidol yn creu potiau mêl wrth dynnu sylw at ardaloedd penodol o fewn y Parc a chreu problemau wrth i nifer fawr o ymwelwyr gyrraedd yn sgil hynny, y gellid
 - edrych i wneud rhywbeth tebyg i ddylanwadwyr a chaiff ei wneud eisoes gyda busnesau lleol, sef hybu dylanwadwyr i arwyddo i fod yn "ddylanwadwyr cyfrifol", neu
 - ymchwilio i hybu'r brandiau a oedd yn hyrwyddo'r dylanwadwyr addunedu eu hunain i fod yn gyfrifol a phasio'r adduned ymlaen i'r dylanwadwyr;
- y crëwyd pedwar Parc Cenedlaethol cyntaf y DU ym 1951, ac y byddai'n 75 o flynyddoedd ers eu creu yn 2026; byddai'r Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad i'r Aelodau yn y misoedd nesaf yn amlinellu syniadau ynglŷn â nodi a dathlu'r achlysur;
- angenrheidrwydd cael yr offer a'r hyfforddiant cywir i allu ymateb yn gadarn i gam-wybodaeth a gwybodaeth negyddol;

Argymhellwyd: – darllen a thrafod yr adroddiad ac atodiadau

Penderfynwyd: — **derbyn** yr Argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00



**GWEITHGOR AELODAU
PARC CENEDLAETHOL ERYRI**
Dydd Mercher 25 Mehefin 2025

YN BRESENNOL:

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorydd Nia Owen;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Brian Angell, Rhys Evans, Delyth Lloyd, Wyn Thomas;

Swyddogion

Jon Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Nia Murray, Eifion Jones.

Cynghorodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro y byddai'r cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo gwirio'r cofnodion.

1. Cadeirydd

Amlinellodd y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro'r drefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar y Gweithgor Aelodau.

Etholwyd **Ifor Glyn Lloyd** yn Gadeirydd ar y Gweithgor Aelodau.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Gweithgor Aelodau, y Cynghorydd Ifor Glyn Lloyd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Edgar Wyn Owen, Cadeirydd yr Awdurdod.

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Louise Hughes, Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, a Naomi Luhde-Thompson, Mr Tim Jones.

3. Datgan Diddordeb

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Gweithgor Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Mai 2025.

Mabwysiadwyd y cofnodion, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

5. **Cyfweliad Swydd Cyfarwyddwr Rheoli Tir**

Cyflwynwyd gwybodaeth gefndir gan y Prif Weithredwr ar y swydd Cyfarwyddwr Rheoli Tir.

Adroddwyd:

- lleoliad a rôl y swydd o fewn y Tîm Arweinyddiaeth;
- y meysydd penodol y byddai'r Cyfarwyddwr yn gyfrifol amdanynt;
- y sgiliau rheolaethol a ddisgwyld gan y Cyfarwyddwr;

Nodwyd:

- er nad oedd cwestiwn penodol yn y cyfweliad ar fater newid hinsawdd, yr oedd digon o gyfle yn y cwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn i sôn am y pwnc, a'r gobaith oedd y byddai'r ymgeiswyr yn cymryd y cyfle i wneud hynny.

6. **Cynllun Ariannol Tymor Canolig**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

Adroddwyd:

- bod yr Awdurdod yn wynebu her ariannol sylweddol o ganlyniad i chwyddiant a setliad grant gwastad dros sawl blwyddyn tan eleni;
- bod y sefyllfa rywfaint yn well na phan gyflwynwyd adroddiad tebyg llynedd oherwydd bod yr Awdurdod wedi derbyn taliad untro gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth;

Nodwyd:

- bod derbyn arian untro yn beth i'w groesawu, ond ei fod yn gwneud cynllunio yn anodd;
- bod llawer o waith yn cael ei wneud i gynyddu incwm i'r Awdurdod, yn enwedig gyda meysydd parcio'r Awdurdod a chanolfan Betws-y-coed;

Argymhellwyd:— bod yr Aelodau'n nodi ac ymateb i'r materion sydd wedi ei nodi yn y CATC

Penderfynwyd:— **derbyn** yr Argymhelliad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:40